




# Cyngor Sir Ceredigion

## ASESIAD SEILWAITH GWYRDD

### Cyfleoedd Seilwaith Gwyrdd

- Cynyddu Gorchudd Coed
- Plannu Coetiroedd Brodorol
- Mannau Gwyrdd Hygyrch
- Gwella Cysylltedd
- Llwybrau Hamdden
- Llwybrau Beicio
- Hygyrchedd Afonydd a Môr
- Perllannau
- Rhandiroedd
- Lleihau Llifogydd
- Adfer Mawndiroedd





Cyngor Sir Ceredigion

---

## **ASESIAD SEILWAITH GWYRDD**

**CYHOEDDUS**

**RHIF Y PROSIECT. 70065900**

**EIN CYF. ASESIAD SG TERFYNOL**

**DYDDIAD: TACHWEDD 2020**

Sylwch fod cyfieithiad Cymraeg o'r adroddiad hwn ar gael hefyd.

**WSP**









**Mountbatten House  
Basing View  
Basingstoke, Hampshire  
RG21 4HJ**

**Ffôn: +44 1256 318 800**

**Ffacs: +44 1256 318 700**

**WSP.com**

# RHEOLI ANSAWDD

Rhifyn/ adolygiad	Rhifyn cyntaf	Adolygiad 1	Adolygiad 2	Adolygiad 3
Sylwadau	Adroddiad interim drafft ar gyfer sylwadau cleientiaid	Adroddiad drafft ar gyfer sylwadau cleientiaid	Adroddiad terfynol ar gyfer sylwadau cleientiaid	Adroddiad terfynol
Dyddiad	17/01/2020	23/03/2020	09/04/2020	03/11/2020
Paratowyd gan	Helen Davies a Laura Homfray	Helen Davies, Laura Homfray a Richard Jones	Helen Davies, Laura Homfray a Richard Jones	Helen Davies, Oliver Hölzinger, Laura Homfray, Richard Jones a Sam Willis
Llofnod				
Gwiriwyd gan	Oliver Hölzinger	Oliver Hölzinger	Oliver Hölzinger	Laura Homfray
Llofnod				
Awdurdodwyd gan	Tom Butterworth	Tom Butterworth	Matthew Jessop	Tom Butterworth
Llofnod				
Rhif y prosiect	70065900	70065900	70065900	70065900
Rhif yr adroddiad	Asesiad SG F.1	Asesiad SG F.2	Asesiad SG F.3	Asesiad SG Terfynol

# CYNNWYS

---

<b>0</b>	<b>CRYNODEB GWEITHREDOL</b>	<b>1</b>
0.2	MAPIO ASEDAU A CHYSYLLTEDD	1
0.3	YR ANGEN AM WASANAETHAU ECOSYSTEM A'U DARPARU	3
0.4	YMGYNGHORI Â RHANDDEILIAID	4
0.5	CYFLEOEDD POSIBL AR GYFER SEILWAITH GWYRDD CEREDIGION	5
0.6	DARPARU SEILWAITH GWYRDD YN YMARFEROL	6
0.7	ARGYMHELLION AR GYFER Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL	7
<b>1</b>	<b>CYFLWYNIAD</b>	<b>9</b>
1.1	SEILWAITH GWYRDD YNG NGHYMRU	9
1.2	CEFNDIR I'R ASESIAD	9
1.3	PWRPAS YR ADRODDIAD	11
<b>2</b>	<b>MAPIO ASEDAU A CHYSYLLTEDD</b>	<b>12</b>
2.1	DULL GWEITHREDU	12
2.2	DYNODIADAU	12
2.3	ASEDAU FFISEGOL	14
2.4	CYSYLLTEDD AR GYFER POBL	20
2.5	CYNEFINOEDD	23
2.6	CYSYLLTEDD AR GYFER BYWYD GWYLLT	25
2.7	CRYNODEB A GOBLYGIADAU	27
<b>3</b>	<b>YR ANGEN AM WASANAETHAU ECOSYSTEM A'U DARPARU</b>	<b>29</b>
3.1	DULL GWEITHREDU	29
3.2	ASEDAU FFISEGOL	29
3.3	CYNEFINOEDD	34
3.4	SAFLEOEDD ASTUDIAETH ACHOS	39
3.5	MAPIO ANGHENION	40
3.6	CRYNODEB A GOBLYGIADAU	44
<b>4</b>	<b>YMGYNGHORI Â RHANDDEILIAID</b>	<b>46</b>
4.1	DULL GWEITHREDU	46
4.2	GWEITHDAI I RANDDEILIAID	47

---

4.3	AROLWG AR-LEIN	53
4.4	CRYNODEB A GOBLYGIADAU	59
<b>5</b>	<b>CYFLEOEDD POSIBL AR GYFER SEILWAITH GWYRDD CEREDIGION</b>	<b>61</b>
5.1	DULL GWEITHREDU	61
5.2	ABERYSTWYTH	61
5.3	ABERAERON	62
5.4	ABERTEIFI	63
5.5	LLANBEDR PONT STEFFAN	63
5.6	ADPAR	65
5.7	LLANDYSUL	65
5.8	TREGARON	66
5.9	SIR CEREDIGION	67
5.10	CYFLEOEDD HEB FOD YN OFODOL	68
5.11	CRYNODEB A GOBLYGIADAU	69
<b>6</b>	<b>DARPARU SEILWAITH GWYRDD YN YMARFEROL</b>	<b>71</b>
6.1	DULL GWEITHREDU	71
6.2	YMGORFFORI SG WRTH GYNLLUNIO A DATBLYGU	71
6.3	RHEOLI, CYNNAL A CHADW A MONITRO	75
6.4	CRYNODEB A GOBLYGIADAU	78
<b>7</b>	<b>ARGYMHELLION AR GYFER Y CDLL</b>	<b>79</b>
7.1	DULL GWEITHREDU	79
7.2	GOFYNION DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI CYMRU	79
7.3	SAFONAU SG	80
7.4	POLISIÄU ARFER DA	83
7.5	ADOLYGIAD O BOLISIÄU CDLL CEREDIGION	89
7.6	CRYNODEB A GOBLYGIADAU	97

---

## **ATODIADAU**

ATODIAD A

MAP DYNODIADAU SIROL

ATODIAD B

MAPIAU ASEDAU SG TREFI

ATODIAD C

ARDALOEDD A MAPIAU CYNEFINOEDD CAM 1 TREFI

ATODIAD D

MAPIAU CYSYLLTEDD AR GYFER BYWYD GWYLLT

ATODIAD E

MAPIAU ANGHENION GWASANAETHAU ECOSYSTEM

ATODIAD F

AROLWG AR-LEIN

ATODIAD G

CYFLEOEDD GOFODOL A MAPIAU YN DEILLIO O RANDDEILIAID

ATODIAD H

PROFFORMA SG ENGHREIFFTIOL

## 0 CRYNODEB GWEITHREDOL

---

- 0.1.1. Mae seilwaith gwyrdd yn disgrifio'r rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r rhain yn cynnwys parciau, caeau chwarae, rhandiroedd, coed stryd, coetiroedd, gwarchodfeydd natur ac ardaloedd eraill sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth, llwybrau troed, llwybrau beicio, cyrsiau dŵr, llynnoedd, corsydd mawn a gwlyptiroedd a thraethau eraill. Mae seilwaith gwyrdd yn darparu nifer o fuddion i gymdeithas a elwir yn 'wasanaethau ecosystem', er enghraifft iechyd a llesiant gwell, cynhyrchiant gwell, ansawdd aer gwell, llai o berygl o lifogydd, oeri/cysgodi yn ystod tonnau gwres, a gostyngiad mewn carbon atmosfferig. Mae amddiffyn a gwella seilwaith gwyrdd Ceredigion – a'i wneud yn hygyrch i bawb lle bo hynny'n briodol, e.e. yn ddiogel, yn gynaliadwy a lle nad yw cadernid ecosystem a bioamrywiaeth yn cael ei gyfaddawdu – felly mae'n hanfodol ar gyfer helpu'r Sir a'i thrigolion i fod yn barod ar gyfer y dyfodol a gallu gwrthsefyll heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd megis newid hinsawdd a difodiant rhywogaethau.
- 0.1.2. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd ar draws Cymru. Mae seilwaith gwyrdd hefyd yn llinyn allweddol sy'n rhedeg trwy Bolisi Cynllunio Cymru 10 a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau ar seilwaith gwyrdd a'i ddarparu o fewn y system gynllunio, a disgwylir i'r cyhoeddiadau gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020.
- 0.1.3. Cafodd WSP ei gomisiynu gan Gyngor Sir Ceredigion i wneud y canlynol:
- paratoi Asesiad Seilwaith Gwyrdd i arwain a llunio'r gwaith o gynllunio a darparu seilwaith gwyrdd Ceredigion;
  - gwneud argymhellion ar gyfer y newidiadau y mae angen eu gwneud i bolisiâu rheoli datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol; a
  - chynnal Archwiliad Seilwaith Gwyrdd manwl o amgylcheddau trefol allweddol yng Ngheredigion.
  - Mae'r adroddiad Asesiad Seilwaith Gwyrdd hwn yn cynnwys y penodau canlynol, a cheir crynodeb o'u casgliadau isod:
  - Mapio Asedau a Chysylltedd;
  - Yr Angen am Wasanaethau Ecosystem a'u Darparu;
  - Ymgynghori â Rhanddeiliaid;
  - Cyfleoedd Posibl ar gyfer Seilwaith Gwyrdd Ceredigion;
  - Darparu Seilwaith Gwyrdd yn Ymarferol; a
  - Argymhellion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

## 0.2 MAPIO ASEDAU A CHYSYLLTEDD

- 0.2.1. Mae'r bennod hon yn cynnwys mapiau a sylwebaeth gysylltiedig o asedau a chynefinoedd seilwaith gwyrdd trefol presennol ar gyfer chwe phrif dref Ceredigion ynghyd ag Adpar, sef estyniad trefol o Gastellnewydd Emlyn ar y ffin rhwng Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Darperir mapiau a sylwebaeth ar y dynodiadau tir ar gyfer y Sir gyfan hefyd. Nodir hefyd hyd a lled y cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt

rhwng cynefinoedd craidd presennol, ac ar gyfer pobl rhwng asedau seilwaith gwyrdd presennol a rhwng ardaloedd trefol a gwledig.

- 0.2.2. Yr hyn y byddai llawer o bobl yn ei ddisgrifio fel 'un o drysorau' Ceredigion yw'r arfordir helaeth sydd hefyd yn ffurfio'r ardal ddynodedig fwyaf yn y Sir. Cafodd y dynodiadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) eu rhoi oherwydd eu pwysigrwydd rhyngwladol i fywyd gwyllt, ond heb os mae hefyd yn ganolbwynt pwysig i bobl gysylltu â natur a'r dirwedd fel y tystir gan y pedwar darn o arfordir treftadaeth. Mae hyn o fudd arbennig i boblogaethau ac ymwelwyr yr aneddiadau arfordirol i'r gogledd o Aberystwyth, i'r gogledd o Aberaeron, rhwng Ceinewydd a Thresaith, ac i'r gogledd o Aberteifi. Mae'r holl drefi mawr eraill wedi'u lleoli ar lannau afon Teifi sydd hefyd wedi'i dynodi'n ACA ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl gysylltu â natur. Mae'r mwyafrif o'r ardaloedd dynodedig tirol wedi'u lleoli yng ngogledd a dwyrain y Sir ac felly wedi'u datgysylltu'n ddaearyddol i ryw raddau o'r prif ganolfannau poblogaeth.
- 0.2.3. O ran asedau seilwaith gwyrdd ffisegol yng Ngheredigion, ymddengys fod darpariaeth eithaf cyfyngedig ar gyfer pob tref ac eithrio Aberystwyth, sef tref fwyaf y Sir. Mae Aberystwyth i'w gweld â darpariaeth dda o lwybrau teithio llesol, llwybrau beicio, mannau gwyrdd hygyrch, a gorchudd coed trefol ar draws y dref, gan elwa ymhellach o warchodfeydd natur lleol a mannau ymdrochi gerllaw.
- 0.2.4. Felly mae'n bosib y bydd rhaid i gyfleoedd ar gyfer creu seilwaith gwyrdd ganolbwyntio ar drefi eraill Ceredigion. Er enghraifft, mae gan Aberaeron ddarpariaeth dda o lwybrau'r arfordir a Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC), a darpariaeth gymharol dda o fannau gwyrdd hygyrch, ond y ddarpariaeth isaf o lwybrau beicio a gorchudd coed trefol o fewn llain glustogi 2km. Mae Aberteifi hefyd yn elwa o lwybrau'r arfordir a llwybrau teithio llesol, ond nid oes ganddi lawer o seilwaith gwyrdd arall – yn enwedig mannau gwyrdd hygyrch. Mae Llanbedr Pont Steffan yn elwa o gael afon a llyn, ond gyda darpariaeth wael o lwybrau hamdden llinellog byddai'n elwa'n fawr o agor rhannau pellach o'i hen reilffordd. Fel y lleiaf o brif drefi Ceredigion, mae'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd yn Adpar yn arbennig o isel, er bod darpariaeth gymharol dda o lwybrau beicio a gorchudd coed trefol. Yn yr un modd, mae Llandysul a Thregaron yn elwa o bresenoldeb prif afon, ond mae'r ddarpariaeth gyffredinol o seilwaith gwyrdd yn wael yn y trefi hyn – yn enwedig o ran mannau gwyrdd hygyrch a gorchudd coed trefol.
- 0.2.5. Gan edrych ar gysylltedd ar gyfer pobl, mae Aberystwyth, Aberaeron a Thregaron yn elwa fwyaf o HTC a nodweddion llinellog eraill sy'n cysylltu asedau seilwaith gwyrdd â'i gilydd a chyda'r cefn gwlad cyfagos. Yn Aberteifi, Adpar, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan mae'r rhwydwaith o asedau seilwaith gwyrdd yn llawer mwy dameidiog ac nid oes llawer o gysylltiad â'r ardaloedd cyfagos. Mae hyn yn awgrymu bod angen creu rhwydweithiau seilwaith gwyrdd hygyrch yn y trefi hyn.
- 0.2.6. O ran dosbarthiadau cynefinoedd cyffredinol/Cam 1, adeiladau sy'n ffurfio'r mwyafrif o'r trefi, tra bo glaswelltir wedi'i wella yn ffurfio'r mwyafrif helaeth o'r arwynebedd tir o fewn y lleiniau clustogi 2km o gwmpas pob tref. Yr ardal fwyaf nesaf o gynefin ar gyfer y trefi (wedi'i lleoli'n bennaf o fewn y lleiniau clustogi) yw coetir lled-naturiol llydanddail – yn enwedig o gwmpas Llandysul, Adpar, Aberystwyth, Aberteifi ac Aberaeron – er bod hyn yn ddameidiog ar y cyfan. Mae nifer o'r trefi hefyd yn elwa o gynefinoedd arfordirol (Aberaeron, Aberteifi ac Aberystwyth) ac mae pob un yn elwa o gynefinoedd afonydd i raddau (yn enwedig Aberteifi). Mae gan Dregaron ardal sylweddol o gorsydd a morfeydd oddeutu 1km i'r gogledd. Mae'r cyfleoedd i wella yn cynnwys cynyddu amrywiaeth y cynefinoedd o fewn ffiniau'r anheddiad, cysylltu cynefin coetir, a gwella rhywfaint o'r glaswelltir wedi'i wella o'i gwmpas i fod yn laswelltir wedi'i led-wella neu heb ei wella mwy bioamrywiol.



- 0.2.7. Yn olaf, oherwydd y ddarpariaeth eithaf helaeth o asedau ecolegol craidd, coridorau llinelllog a cherrig sarn yn agos at bob un o'r trefi, mae'n ymddangos bod safleoedd wedi'u cysylltu'n weddol dda ar gyfer bywyd gwyllt. Mae cysylltedd ar draws yr ardaloedd trefol yn llai amlwg, fodd bynnag, gyda bywyd gwyllt yn nhrefi Aberaeron, Adpar, Aberteifi, Llandysul a Thregaron yn debygol o elwa o goridorau llinelllog ychwanegol (e.e. plannu coed).

### 0.3 YR ANGEN AM WASANAETHAU ECOSYSTEM A'U DARPARU

- 0.3.1. Gwasanaethau ecosystem yw'r buddion y mae pobl yn eu cael o fyd natur. Yn y bennod hon, mae buddion swyddogaethol tebygol (h.y. gwasanaethau diwylliannol, rheoleiddio a darparu) asedau a chynefinoedd seilwaith gwyrdd presennol i bobl yn cael eu nodi ar gyfer saith tref Ceredigion, ynghyd â'r angen cymharol am bum gwasanaeth ecosystem (ansawdd aer, lleihau llifogydd, hamdden, iechyd a llesiant, ac estheteg). Darperir tystiolaeth anecdotaidd hefyd o'r buddion a ddarperir gan safleoedd seilwaith gwyrdd allweddol yng Ngheredigion.
- 0.3.2. Yn seiliedig ar nodi asedau seilwaith gwyrdd o fewn pob un o'r lleiniau clustogi 2km, a'r gwasanaethau ecosystem sy'n debygol o gael eu darparu gan yr asedau hyn, ymddengys mai Aberystwyth sydd, ac ystyried ei maint, â'r ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem fwyaf yn nhrefi Ceredigion. Mae hyn oherwydd y ddarpariaeth dda o lwybrau hamdden llinelllog sydd hefyd yn darparu mynediad i'r arfordir sy'n darparu buddion diwylliannol sylweddol, mannau gwyrdd hygyrch, mannau chwarae, gorchudd coed trefol a gwarchodfeydd natur lleol yn y dref a'r ardal gerllaw, sydd i gyd yn bwysig ar gyfer darparu gwasanaethau ecosystem rheoleiddio a diwylliannol i'w thrigolion.
- 0.3.3. Mewn cyferbyniad, mae diffyg darpariaeth gwasanaeth ecosystem sylweddol yn y trefi eraill oherwydd y diffyg cymharol o asedau seilwaith gwyrdd yn yr ardaloedd hyn o'i gymharu ag Aberystwyth. Mae llwybrau'r arfordir, HTC a mannau gwyrdd hygyrch Aberaeron yn darparu buddion hamdden, ond mae gwasanaethau diwylliannol a rheoleiddio eraill yn llawer llai er mae'n bosib bod agosrwydd a hygyrchedd yr arfordir yn cael yr effaith o leddfu'r diffyg gwasanaethau diwylliannol yn y dref ei hun. Mae Aberteifi hefyd yn elwa o lwybrau arfordir sy'n cysylltu preswylwyr â'r arfordir a llwybrau teithio llesol yn ogystal â llwybrau beicio ar lan yr afon, ond ar y cyfan mae'n darparu gwasanaethau ecosystem cyfyngedig i'w thrigolion. Mae Llanbedr Pont Steffan, Adpar, Llandysul a Thregaron yn elwa o wasanaethau ecosystem rheoleiddio ac esthetig sy'n gysylltiedig â'r prif afonydd sy'n rhedeg trwyddynt neu'n gyfagos iddynt, ond fawr ddim arall. Felly, argymhellir y dylid plannu coed a chreu gwarchodfeydd natur lleol a mannau gwyrdd hygyrch ychwanegol yn y trefi hyn i wella hyd a lled ac amrywiaeth y gwasanaethau ecosystem yn y trefi hyn, sydd yn y pen draw o fudd i iechyd a llesiant eu trigolion ac a allai hefyd gael effeithiau economaidd cadarnhaol.
- 0.3.4. Yn seiliedig ar nodi cynefinoedd cyffredinol ym mhob un o'r lleiniau clustogi 2km, a'r gwasanaethau ecosystem sy'n debygol o gael eu darparu gan y cynefinoedd hyn, ymddengys mai'r trefi sy'n elwa fwyaf o lefelau uwch o ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem yn seiliedig ar gynefinoedd yw Aberystwyth, Aberaeron, ac Aberteifi. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod y rhain yn drefi arfordirol sy'n elwa o'r gwasanaethau diwylliannol a rheoleiddio y mae arfordir Ceredigion a'i gynefinoedd yn eu cynnig. Mae gan Dregaron ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem amlwg i'r gogledd, lle y lleolir y cynefin gorgors Cors Caron. Yn anffodus, mae'r ardal hon wedi'i chysylltu'n wael â phrif anheddiad y dref. Byddai'n fuddiol cysylltu'r ardaloedd hyn â llwybrau cerdded neu lwybrau beicio newydd ar yr amod bod aflonyddu ar fywyd gwyllt yn cael ei ystyried a'i reoli'n briodol.

- 0.3.5. O ran anghenion gwasanaeth ecosystem, byddai Aberteifi, Adpar, a rhannau gorllewinol a deheuol Aberystwyth sydd wedi'u datblygu'n ddwysach yn elwa o greu seilwaith gwyrdd (e.e. plannu coed a gwrychoedd) i leihau lefelau cefndir uwch o lygryddion aer gronynnol yn y lleoliadau hyn. Gall mesurau rheoli llifogydd cynaliadwy, megis gosod systemau draenio cynaliadwy, plannu coed, neu greu mannau gwyrdd ar raddfa fawr (lle bo hynny'n ymarferol) wedi'i alinio â dulliau rheoli llifogydd naturiol, fod yn fuddiol yn Llanbedr Pont Steffan ac yn nwyrain Tregaron lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd dŵr arwyneb. O ran diwallu anghenion hamdden trigolion trefol Ceredigion, byddai Adpar, Aberaeron a rhan ddwyreiniol Aberystwyth yn elwa o gael mwy o seilwaith gwyrdd hygyrch. Byddai Aberteifi a rhan ddeheuol Aberystwyth yn elwa o seilwaith gwyrdd mwy hygyrch a/neu ddeniadol er mwyn mynd i'r afael â materion iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael. Yn olaf, gellid gwella lefel y gorchudd coed yn Aberaeron, Aberteifi, Adpar, Tregaron, a rhannau gogleddol, gorllewinol a chanolog Aberystwyth er mwyn gwella estheteg ac, o bosibl, annog mewnfuddsoddiad gan fusnesau.
- 0.3.6. Ar raddfa sirol, byddai mwy o ddarpariaeth o goetir ac ehangu/adfer corsydd mawn yn helpu i gael gwared â charbon deuocsid o'r atmosffer (yn ogystal â lleihau llifogydd i lawr yr afon a darparu buddion oeri). Byddai hyn yn cyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030, ac yn helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

## 0.4 YMGYNGHORI Â RHANDEILIAID

- 0.4.1. Mae'r bennod hon yn darparu allbynnau'r ddau ddigwyddiad i randdeiliaid cyhoeddus ac arolwg ar-lein a gynhaliwyd er mwyn ceisio barn trigolion Ceredigion, cynghorwyr tref/cymuned, a grwpiau amgylcheddol/cymdeithasol ar y cyfleoedd i wella seilwaith gwyrdd y Sir.
- 0.4.2. Roedd y digwyddiadau wedi rhoi cyfle i randdeiliaid lleol ddweud eu dweud ar y gwelliannau lleol, penodol yr hoffent eu gweld yn cael eu gwneud i seilwaith gwyrdd Ceredigion. Yn gyffredinol roedd y rhain yn canolbwyntio ar awgrymiadau ar gyfer creu seilwaith gwyrdd newydd (plannu coed yn ogystal â llwybrau cerdded a llwybrau beicio newydd) mewn lleoliadau penodol, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer gwella cynnal a chadw'r seilwaith gwyrdd presennol. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i helpu i lywio datblygiad cyfleoedd seilwaith gwyrdd penodol, wedi'u blaenoriaethu.
- 0.4.3. Arweiniodd y digwyddiadau i randdeiliaid at lawer o awgrymiadau mwy cyffredinol hefyd (heb fod yn ofodol-benodol). O'r awgrymiadau hynny oedd yn ymwneud â'r Sir gyfan, plannu coed oedd yr un mwyaf cyffredin. Gofynnwyd i'r mynychwyr restru eu pump prif flaenoriaeth hefyd ar gyfer seilwaith gwyrdd Ceredigion. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin oedd gwneud gwelliannau ffisegol i adnoddau naturiol/cynefinoedd/mannau gwyrdd, hygyrchedd, a lleihau'r perygl o lifogydd yn y Sir.
- 0.4.4. Ynghyd â'r digwyddiadau i randdeiliaid, a fynychwyd gan 41 o bobl, cynhaliwyd arolwg ar-lein i geisio mwy o sylwadau. Wedi'i gwblhau gan 246 o bobl, roedd yr arolwg yn offeryn ychwanegol gwerthfawr ar gyfer darparu awgrymiadau ar wella seilwaith gwyrdd Ceredigion. Gwelliannau i hygyrchedd y seilwaith gwyrdd lleol yn y trefi oedd yr awgrym mwyaf cyffredin a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r arolwg, wedi'i ddilyn gan welliannau ffisegol i'r seilwaith gwyrdd (yn enwedig trwy blannu coed), a chynnal a chadw mannau gwyrdd a mannau chwarae presennol yn well. O ran awgrymiadau mwy cyffredinol ar gyfer y Sir gyfan, roedd gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt yn awgrym poblogaidd.

- 0.4.5. Roedd yr arolwg ar-lein hefyd yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer ceisio adborth ar y defnydd o'r seilwaith gwyrdd presennol a'i bwysigrwydd yn saith prif dref y Sir. At ei gilydd, mae'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn defnyddio ystod eang o fathau o seilwaith gwyrdd, ar gyfer hamdden, ymlacio, ffitrwydd a gwyllo bywyd gwyllt fel arfer. Roedd buddion esthetig manau gwyrdd hefyd yn cael eu cydnabod gan lawer.
- 0.4.6. Caiff yr awgrymiadau mwy cyffredinol hyn eu defnyddio hefyd i helpu i lywio blaenoriaethu cyfleoedd seilwaith gwyrdd.

## 0.5 CYFLEOEDD POSIBL AR GYFER SEILWAITH GWYRDD CEREDIGION

- 0.5.1. Mae'r bennod hon yn dwyn ynghyd y cyfleoedd ar gyfer creu a gwella seilwaith gwyrdd yn seiliedig ar ganlyniadau'r penodau blaenorol (h.y. mapio asedau a chysylltedd, yr asesiad o'r gwasanaethau ecosystem, a'r ymgynghori â rhanddeiliaid). At hyn mae'n ychwanegu'r cyfleoedd ychwanegol a nodir yn y Cynlluniau Bro cyhoeddedig ar gyfer pob un o'r trefi, yn ogystal â'r rhai a awgrymwyd gan grŵp llywio'r prosiect y Cyngor.
- 0.5.2. Mae crynodeb byr o'r cyfleoedd hyn ar gyfer y saith tref fel a ganlyn:
- Mae gan Aberystwyth seilwaith gwyrdd da o'i gymharu â'r trefi eraill ond byddai'n elwa o blannu coed er mwyn gwella ansawdd aer, cadernid hinsawdd a gwerth esthetig. Mae darpariaeth well o fannau gwyrdd hygyrch a chysylltedd llwybrau hamdden llinelllog wedi'u nodi hefyd fel pethau sy'n fuddiol i lesiant a thwristiaeth.
  - Byddai Aberaeron yn elwa o ehangu ei rhwydwaith o lwybrau beicio i wella cysylltedd y dref iâr gyfer pobl. Fel canolbwynt y dref, mae gwella hygyrchedd ac amwynder gweledol ardal yr harbwr trwy ddarpariaeth seilwaith gwyrdd hefyd yn cael ei gydnabod fel cyfle pwysig.
  - Mae cysylltedd gwell trwy lwybrau teithio llesol a hamdden yn gyfle pwysig ar gyfer Aberteifi. Bydd cynyddu gorchudd coed a manau gwyrdd hygyrch yn hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol teg ar draws y dref.
  - Byddai Llanbedr Pont Steffan yn elwa o rwydwaith seilwaith gwyrdd mwy hygyrch, wedi'i gryfhau trwy gael mwy o lwybrau hamdden. Byddai cynyddu'r gorchudd coed trefol o fudd i'r dref ei hun, tra byddai cyfran uwch o goetir brodorol yn yr ardal gyfagos yn gwella bioamrywiaeth a chadernid hinsawdd.
  - Byddai Adpar yn elwa o gael mwy o fynediad i afon Teifi a'r dref Castellnewydd Emlyn gerllaw trwy lwybrau hamdden. Mae darparu manau gwyrdd mwy hygyrch trwy ddatblygu hefyd yn gyfle pwysig.
  - Byddai gwerth hamdden seilwaith gwyrdd presennol Llandysul yn cael ei gynyddu trwy gael cysylltedd gwell, fel y byddai llesiant corfforol a meddyliol. Byddai cynyddu gorchudd coed trefol a darparu manau gwyrdd hygyrch hefyd o fudd i drigolion.
  - Bydd cryfhau'r rhwydwaith sylweddol sydd eisoes ar gael yn Nhregaron o nodweddion llinelllog a chysylltedd â'r dirwedd yn yr ardal yn cefnogi ei nod o fod yn gyrchfan ar gyfer hamdden awyr agored. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd megis gorchudd coed a manau gwyrdd hygyrch o fudd pellach i drigolion.

- 0.5.3. Mae rhai o'r cyfleoedd ar raddfa fach a gellid o bosibl eu darparu ar dir y Cyngor neu drwy fân gynigion datblygu, tra byddai eraill yn golygu integreiddio i ddyraniadau adfywio neu strategol ar raddfa fwy (mae'r olaf yn gofyn am fwy o ffocws ar gysylltedd). Bydd cyfleoedd eraill efallai yn golygu ymgysylltu â thirfeddianwyr preifat megis ffermwyr, yn enwedig ar gyfer gwella cysylltedd rhwng ardaloedd trefol a gwledig trwy HTC, llwybrau beicio newydd a phlannu coed.
- 0.5.4. Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r cyfleoedd a argymhellir, gan ddefnyddio'r rhain i helpu i arwain datblygiad Ceredigion yn y dyfodol – yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Rhoddir blaenoriaeth i greu seilwaith gwyrdd newydd sy'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn y seilwaith gwyrdd a darparu gwasanaethau ecosystem, ac sy'n ymestyn ac yn cysylltu'r rhwydwaith presennol. Bydd cyfleoedd eraill sydd wedi'u blaenoriaethu yn ymwneud mwy â gwella ansawdd, hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o'r seilweithiau gwyrdd presennol.

## 0.6 DARPARU SEILWAITH GWYRDD YN YMARFEROL

- 0.6.1. Mae'r bennod hon yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r gofynion ymarferol sy'n gysylltiedig â chreu seilwaith gwyrdd a darparu gwaith cynnal a chadw a rheoli yn y tymor hir mewn perthynas â thir cyhoeddus a phreifat.
- 0.6.2. Mae dulliau posibl o ddarparu seilwaith gwyrdd ar draws Sir Ceredigion yn cynnwys:
- Amlinellu 'fframwaith seilwaith gwyrdd' strategol gyda mewnbwn gan sawl adran o'r Cyngor, gan ganolbwyntio ar gysylltedd a mynd i'r afael ag anghenion cymunedol lleol allweddol.
  - Cydweithio fel bod mentrau seilwaith gwyrdd wedi'u blaenoriaethu yn cyflawni polisi ehangach y Cyngor ac egwyddorion seilwaith gwyrdd Llywodraeth Cymru sy'n cael eu datblygu (Aml-swyddogaeth, Bioamrywiol, Wedi'i Addasu ar gyfer Newid Hinsawdd, Iach, Clyfar a Chynaliadwy) ac yn helpu i weithredu Cynlluniau Bro.
  - Ymgorffori seilwaith gwyrdd trwy holl bolisïau cynllunio'r dyfodol – yn enwedig polisïau sy'n ymwneud â newid hinsawdd, iechyd a llesiant, priffyrdd a chynlluniau adfywio trefol.
  - Er mwyn i dir gael ei ddatblygu (p'un a yw'n eiddo cyhoeddus neu breifat), gosod gofynion o fewn dogfennau cynllunio lleol (e.e. Canllawiau Cynllunio Atodol Manylebau Safleoedd a Neilltuwyd) i brif gynllunwyr a datblygwyr ddangos sut mae seilwaith gwyrdd (aml-swyddogaeth) wedi'i gynnwys yn y dyluniad, a sut y caiff rheolaeth a chynnal a chadw ei sicrhau yn y tymor hir, cyn y rhoddir caniatâd cynllunio.
  - Cynnwys yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Manylebau Safleoedd a Neilltuwyd ofyniad i gyfraniadau datblygwyr fod ar gael i Gyngorau Cymuned ar gyfer gwella asedau mannau gwyrdd cymunedol a nodwyd.
  - Defnyddio ac ehangu'r data monitro presennol (p'un a yw'n cael eu cynhyrchu gan y Cyngor neu'r trydydd sector) i ddarparu tystiolaeth ar ddarparu buddion o seilwaith gwyrdd ac felly cyfiawnhau buddsoddiad pellach.
  - Ar gyfer mannau gwyrdd sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, ymgysylltu â phartneriaid posibl o'r sector cyhoeddus/trydydd sector, cymunedau a datblygwyr i ddenu cyllid ychwanegol neu gymorth cynnal a chadw er mwyn gwella ansawdd y safleoedd hyn i bobl a/neu fywyd gwyllt.

- Cymysgu enillion tymor byr â nodau tymor hir gyda chymorth 'hyrwyddwr' seilwaith gwyrdd os oes modd o fewn tîm uwch-reolwyr y Cyngor, i gynnal ffocws a chael y canlyniadau gorau.

## 0.7 ARGYMHELLION AR GYFER Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

- 0.7.1. Mae'r bennod hon yn cynnwys asesiad o gynnwys seilwaith gwyrdd polisiâu rheoli datblygu presennol y Cynllun Datblygu Lleol. Gwneir awgrymiadau ar gyfer eu gwella yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol a pholisi Cymru ar gyfer seilwaith gwyrdd, safonau seilwaith gwyrdd a pholisiâu 'arfer da' y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar waith ar draws y DU.
- 0.7.2. Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu agwedd strategol a rhagweithiol at seilwaith gwyrdd; gwarchod, hyrwyddo a gwella'r defnydd o asedau presennol a'u haml-swyddogaeth. Yn y cyfamser, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog awdurdodau lleol i greu seilwaith gwyrdd newydd (o'r math cywir, yn y lleoedd cywir) ac i reoli'r seilwaith gwyrdd presennol i'r safon orau bosibl er mwyn cadw eu dinasyddion yn iach. Bydd bodloni meini prawf Safonau Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch a Gwobr y Faner Werdd yn helpu gyda'r broses hon.
- 0.7.3. Gan fod Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Ceredigion yn rhagddyddio deddfwriaeth, polisi a chanllawiau ar seilwaith gwyrdd yng Nghymru, nid yw'n syndod bod y cysyniadau o 'seilwaith gwyrdd' ac 'aml-swyddogaeth' yn absennol o'r polisiâu rheoli datblygu mabwysiedig. Felly, mae nifer o gyfleoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei ddatblygu, yn enwedig o ran polisiâu ar ddyllunio (DM06), tirweddu (DM10), newid hinsawdd (DM11), systemau draenio cynaliadwy (DM13) a rheoli'r arfordir (DM23) a fyddai'n elwa o gynnwys cyfeiriadau penodol at wella seilwaith gwyrdd a darparu gwasanaeth ecosystem. Byddai polisiâu sy'n ceisio gwarchod a gwella gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem (DM14, DM15 a DM20) yn elwa o gael geiriad cryfach sy'n gofyn am welliant cyffredinol, yn ogystal â gofyniad i gysylltu â seilwaith gwyrdd, cynefinoedd a rhwydweithiau mynediad cyhoeddus a leolir y tu allan i ffin y safle datblygu.
- 0.7.4. Ar sail yr adolygiad hwn a'r polisiâu arfer gorau a nodwyd o bob rhan o'r DU, argymhellir bod polisiâu Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael eu datblygu yn ymrwymo tiffeddianwyr a datblygwyr i warchod a gwella seilwaith gwyrdd ar eu safleoedd lle bynnag y bo modd, ac i gysylltu hyn â'r seilwaith gwyrdd o'u cwmpas er mwyn gwella cysylltedd ehangach ar gyfer pobl a bywyd gwylt. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Pholisi Cynllunio Cymru 10 yn rhoi pwys sylweddol i fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd. Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei ddatblygu adlewyrchu'r sylw hwn. Yn ogystal, dylai'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei ddatblygu ystyried darpar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar seilwaith gwyrdd y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020.
- 0.7.5. Mae argymhellion mwy penodol i'w cynnwys mewn polisiâu rheoli datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei ddatblygu yn cynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygwyr:
- Trafod â'r Cyngor yn y cam cyn-ymgeisio pa fath o seilwaith a swyddogaethau gwyrdd (gwasanaethau ecosystem) a allai fod yn briodol ar gyfer y safle;
  - Amlinellu trwy brofforma seilwaith gwyrdd i'w gyflwyno gyda'u cais cynllunio sut y mae seilwaith gwyrdd (a gwasanaethau ecosystem) yn cael ei ystyried wrth ddyllunio'r cynllun, a sut y caiff ei gynnal a'i ariannu yn y dyfodol;

- Gwarchod y seilwaith gwyrdd presennol ar y safle lle bynnag y bo modd;
- Gwella aml-swyddogaeth unrhyw nodweddion draenio cynaliadwy gofynnol (gan ganolbwyntio yn arbennig ar fioamrywiaeth, esthetig, a chysylltiad â buddion natur);
- Gwella bioamrywiaeth ar y safle, a chysylltu lle bo modd ag ardaloedd ecolegol craidd, coridorau llinellog neu gerrig sarn y tu hwnt i ffin y safle;
- Sicrhau bod llwybrau hamdden ar y safle yn cysylltu â'r rhwydwaith HTC ehangach ac unrhyw lwybrau teithio llesol;
- Bodloni safonau penodol ar gyfer ansawdd a maint y ddarpariaeth seilwaith gwyrdd ar y safle, e.e. yn ymwneud â hydreddiad (gan ddefnyddio'r Ffactor Mannau Gwyrdd);, neu lesiant, dŵr a bywyd gwyllt (gan ddefnyddio Adeiladu gyda Natur); ac
- Ariannu prosiectau creu/gwella seilwaith gwyrdd mewn mannau eraill os na allant wneud hynny ar y safle.

0.7.6. Argymhellir cynnwys polisi seilwaith gwyrdd penodol hefyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ceredigion. Yn ogystal â chyfeirio at y pwyntiau cysylltiedig â datblygu uchod, dylai hyn nodi egwyddorion arfer da ar gyfer cynllunio seilwaith gwyrdd yn fwy cyffredinol (gan dynnu ar unrhyw fframwaith seilwaith gwyrdd y gall y Cyngor ei gynhyrchu). Er enghraifft, gallai polisi seilwaith gwyrdd Ceredigion gynnwys pwyntiau ar y canlynol:

- Hyrwyddo seilwaith gwyrdd trwy brosesau cydweithredol a chyfranogol (o fewn y Cyngor ac yn allanol gyda rhanddeiliaid preifat, dinesig a chymunedol);
- Gwella cysylltedd o fewn ac ar draws ardaloedd trefol a gwledig ar gyfer pobl a bywyd gwyllt;
- Datblygu safonau seilwaith gwyrdd y gellir eu monitro a'u gwerthuso yn erbyn dangosyddion mesuradwy;
- Gwella amrywiaeth ac aml-swyddogaeth seilwaith gwyrdd er mwyn gwella'r modd y darperir cyfres o wasanaethau ecosystem;
- Gwella maint, ansawdd, hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o asedau seilwaith gwyrdd; a
- Monitro, meintioli ac o bosibl moneteiddio buddion asedau seilwaith gwyrdd i helpu i gyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol ac i'w cynnwys mewn asesiadau a chyfrifon cyfalaf naturiol posibl.

---

### Enw cyswllt: Helen Davies

Manylion cysylltu: 01256 318530 | [helen.davies2@wsp.com](mailto:helen.davies2@wsp.com)

---

# 1 CYFLWYNIAD

---

## 1.1 SEILWAITH GWYRDD YNG NGHYMRU

1.1.1. Mae seilwaith gwyrdd (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel SG) yn disgrifio'r rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r rhain yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) barciau, gerddi cymunedol, coed stryd, coetiroedd, meysydd chwaraeon, rhandiroedd, toeau gwyrdd, gwarchodfeydd natur, afonydd a chysiau dŵr cyffredin, llynnoedd a thraethau. Mae SG yn darparu buddion niferus i bobl a elwir yn 'wasanaethau ecosystem', er enghraifft:

- Amsugno dŵr glaw a lleihau'r perygl o lifogydd;
- Gwarchod rhag erydu arfordirol a llifogydd;
- Cadw trefi a dinasoedd yn oer yn ystod tonnau gwres;
- Hidlo llygredd o'r awyr;
- Storio carbon i helpu i leddfu newid hinsawdd;
- Pylu llygredd sŵn;
- Lleihau straen a hyrwyddo llesiant meddyliol;
- Darparu lleoedd deniadol i gadw'n heini ac felly gwella iechyd corfforol;
- Creu ymdeimlad o le ac felly annog buddsoddiad gan fusnesau;
- Ysgogi plant i wneud yn well yn yr ysgol a gweithwyr i fod yn fwy cynhyrchiol; a
- Helpu bywyd gwyllt gan gynnwys gwenyn a pheillwyr eraill.

1.1.2. Hyd yn oed mewn gwlad gwyrdd a gwledig fel Cymru, mannau gwyrdd mewn trefi a dinasoedd yw'r unig ffordd yn aml i lawer o bobl profi buddion iechyd a llesiant yr awyr agored. Gall diffyg amser, arian neu drafnidiaeth atal pobl rhag teithio yn bell o ble maen nhw'n byw neu'n gweithio i fwynhau'r awyr agored. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bobl sy'n agored i bwysau economaidd-gymdeithasol (y rhai sydd ag iechyd gwael, symudedd cyfyngedig, incwm isel, a/neu'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig). Mae hyn yn golygu bod darparu mannau gwyrdd lleol o safon a hygyrch yn hanfodol ar gyfer gwella iechyd y genedl mewn ffordd deg (yn unol ag Adrannau 1-3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a lleihau allyriadau CO<sub>2</sub> sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

1.1.3. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer darparu SG ar draws Cymru. Mae SG hefyd yn llinyn allweddol sy'n rhedeg trwy Bolisi Cynllunio Cymru 10 a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau ar SG a'i weithredu o fewn y system gynllunio, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020.

## 1.2 CEFNDIR I'R ASESIAD

1.2.1. Cafodd WSP ei gomisiynu gan Gyngor Sir Ceredigion (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel CSC) i wneud y canlynol:

- paratoi Aseiad SG i arwain a llunio'r gwaith o gynllunio a darparu SG Ceredigion;
- cynnal Archwiliad SG manwl o'r amgylcheddau trefol allweddol yng Ngheredigion; a

- gwneud argymhellion ar gyfer y newidiadau y mae angen eu gwneud i bolisïau rheoli datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

1.2.2. Mae amcanion y prosiect fel a ganlyn:

- Nodi egwyddorion cyffredinol ar gyfer gwella SG;
- Nodi egwyddorion cyffredinol rheoli adnoddau naturiol o fewn a thu allan i ardaloedd trefol i'w hystyried gan ddarparu ddatblygwyr;
- Arwain y ffordd y mae trefi Ceredigion yn datblygu yn y dyfodol, gan dynnu ar hynodrwydd lleol ac amlinellu egwyddorion i'w hymgorffori wrth gynllunio lle, gyda'r nod o wella'r berthynas rhwng datblygiadau newydd a'u cyd-destun SG lleol;
- Darparu dadansoddiad gofodol i gefnogi tirlfeddianwyr a chymunedau (gan gynnwys sefydliadau Cynllunio Lle), datblygwyr a chyrrff cyhoeddus i flaenoriaethu gwelliannau SG;
- Nodi dulliau i gynnal a lle'n bosibl gwella nodweddion naturiol a lled-naturiol a hyrwyddo cadernid ecosystemau; a
- Nodi cyfleoedd i greu a gwella cysylltedd SG er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i bobl, lleoedd a natur.

Er mwyn cyflawni'r amcanion, mae WSP (gan weithio ochr yn ochr â CSC, rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a chymunedau lleol) wedi cynnal Asesiad SG sy'n cynnwys y pedair tasg ryng-gysylltiedig allweddol a nodir isod.



**Ffigur 1.1: Tasgau allweddol sy'n cefnogi'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd**



## 1.3 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.3.1. Mae'r Asesiad SG hwn ar gyfer CSC yn cynnwys allbynnau sy'n ymwneud â thasgau 1-4 o'r prosiect, yn benodol:

- **Mapio Asedau a Chysylltedd** – Mae hwn yn cynnwys mapiau a sylwebaeth gysylltiedig o asedau a chynefinoedd SG trefol presennol ar gyfer chwe phrif dref Ceredigion ynghyd ag Adpar, estyniad trefol i Gastellnewydd Emlyn ar y ffin rhwng Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Darperir mapiau a sylwebaeth hefyd ar gyfer y dynodiadau tir ar gyfer y Sir gyfan. Nodir hefyd y cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt rhwng cynefinoedd craidd presennol, ac ar gyfer pobl rhwng asedau SG presennol a rhwng ardaloedd trefol a gwledig.
- **Yr Angen am Wasanaethau Ecosystem a'u Darparu** – Nodir buddion swyddogaethol tebygol (h.y. diwylliannol, rheoleiddio a darparu gwasanaethau) asedau a chynefinoedd SG presennol bobl ar gyfer saith tref Ceredigion, ynghyd â'r angen cymharol am bum gwasanaeth ecosystem (ansawdd aer, lleihau llifogydd, hamdden, iechyd a llesiant, ac estheteg). Darperir tystiolaeth anecdotaidd hefyd o'r buddion a ddarperir gan safleoedd SG allweddol yng Ngheredigion. Mae'r wybodaeth hon ar ymarferoldeb SG yn aml heb ei gynnwys mewn asesiadau a strategaethau SG, ond mae'n darparu cyswllt pwysig â materion ehangach sydd o bwys i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan wneud SG yn fwy amlwg.
- **Ymgynghori â Rhanddeiliaid** – Mae hwn yn darparu'r allbynnau o'r ddau ddigwyddiad cyhoeddus i rhanddeiliaid ac arolwg ar-lein a gynhaliwyd er mwyn ceisio barn trigolion Ceredigion, cynghorwyr tref/plwyf, a grwpiau amgylcheddol/cymdeithasol ar welliannau i SG y Sir.
- **Cyfleoedd Posibl ar gyfer SG Ceredigion** – Mae hwn yn tynnu allan cyfleoedd ar gyfer creu a gwella SG yn seiliedig ar fapio asedau a chysylltedd, yr asesiad gwasanaethau ecosystem, yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid, Cynlluniau Bro ar gyfer pob un o'r trefi, a'r cyfleoedd a awgrymwyd gan grŵp llywio prosiect CSC.
- **Darparu SG yn Ymarferol** – Mae egwyddorion cyffredinol a gofynion ymarferol creu SG a darparu gwaith cynnal a chadw a rheolaeth SG yn y tymor hir wedi'u nodi, mewn perthynas â thir cyhoeddus a phreifat.
- **Argymhellion y CDLI** – Gwneir asesiad o gynnwys SG y polisiau rheoli datblygu CDLI presennol. Gwneir awgrymiadau ar gyfer eu gwella yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol a pholisi Cymru ar gyfer SG, a safonau SG a pholisiau 'arfer da' CDLI sydd ar waith ar draws y DU.

## 2 MAPIO ASED AU A CHYSYLLTEDD

### 2.1 DULL GWEITHREDU

- 2.1.1. O'r data a ddarparwyd gan CSC, ac sydd ar gael i'r cyhoedd trwy Lle Porth-Daear<sup>1</sup> Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), mapiwyd asedau SG trefol a gwledig presennol yng Ngheredigion. Ar gyfer pob un o'r saith tref mae hyn yn cynnwys map o asedau ffisegol (yn debyg i deipolegau SG safonol fel mannau chwarae, llwybrau hamdden llinellol, a gorchudd coed trefol), a map wedi'i seilio ar ecosystem sy'n cynnwys cynefinoedd Cam 1.<sup>2</sup> Darlunnir pob tref gyda llain glustogi 2km o'i chwmpas i ddangos asedau a chynefinoedd o fewn y cefn gwlad cyfagos. Ar lefel sirol, mapiwyd dynodiadau tirwedd a chadwraeth natur.
- 2.1.2. Mae cysylltedd presennol a bylchau cysylltedd rhwng asedau SG ar gyfer pobl hefyd yn cael eu trafod ar gyfer pob tref, gan ganolbwyntio'n benodol ar gysylltedd trefol-wledig o fewn y llain glustogi 2km gan ddefnyddio nodweddion llinellol fel Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC). Mae cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt hefyd yn berthnasol, ac mae'n cynnwys nodweddion llinellol (megis gwrychoedd) a chynefinoedd cerrig sarn (megis mannau gwyrdd trefol).

### 2.2 DYNODIADAU

- 2.2.1. Diffinnir y prif ddynodiadau tirwedd a chadwraeth natur yng Ngheredigion fel a ganlyn:
- Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI): Mae'r rhain yn safleoedd sy'n cynnwys nodweddion naturiol sydd o ddiddordeb arbennig i'r ardal leol. Wedi'u lleoli'n aml ger ardaloedd trefol, rheolir GNLI gan awdurdodau lleol a gellir eu defnyddio i warchod cynefinoedd, yn ogystal â chynyddu ymgysylltiad pobl â'u hamgylchedd.
  - Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA): Mae'r rhain yn safleoedd sydd o ddiddordeb arbennig i wyddoniaeth oherwydd y nodweddion naturiol prin sydd ynddynt. Gall y dynodiad fod yn seiliedig ar ddiddordeb biolegol neu ddaearegol y safle. Mae'r safleoedd hyn ym mherchnogaeth breifat yn bennaf, er y gallant fod ym mherchnogaeth cyrff cadwraeth, megis Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, a chael eu rheoli ganddynt.
  - Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC): Mae'r rhain yn gwarchod rhai o'r cynefinoedd, rhywogaethau a daeareg prinnaf a phwysicaf ac maent hefyd i gyd yn SoDdGA. Mae GNC yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer addysg ac ymchwil wyddonol. Mae'r safleoedd hyn naill ai ym mherchnogaeth CNC neu gorff cymeradwy megis Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sirol.
  - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA): Mae'r rhain wedi'u gwarchod o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd (CE)<sup>3</sup> ac yn ceisio gwarchod amrywiaeth o gynefinoedd, yn ogystal â rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid er mwyn diogelu bioamrywiaeth.

<sup>1</sup> Ar gael yn <http://lle.gov.wales/home>

<sup>2</sup> Asesir gwasanaethau ecosystem ym Mhennod 3.

<sup>3</sup> Cyfarwyddeb, H. (1992). Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar 21 Mai 1992 ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt. *Official Journal of the European Union*, 206, 7-50.

- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA): Yn debyg i ACA, mae'r rhain yn ardaloedd sy'n cael eu gwarchod o dan y gyfarwyddeb gysylltiedig Cyfarwyddeb Adar y CE.<sup>4</sup> Fe'u dynodwyd ar gyfer cadwraeth adar prin ac sydd dan fygythiad. Ynghyd ag ACA, mae AGA yn cyfrannu at y rhwydwaith o gynefinoedd sydd wedi'u gwarchod ar draws yr Undeb Ewropeaidd o'r enw 'Natura 2000'.
- Safleoedd Ramsar: Mae'r rhain yn safleoedd gwlyptir o bwysigrwydd rhyngwladol, wedi'u dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar.<sup>5</sup> Mae safleoedd o'r fath yn hanfodol ar gyfer nifer o fathau o adar, yn enwedig adar dŵr, ac maent yn hanfodol ar gyfer goroesiad llawer o rywogaethau eraill o blanhigion ac anifeiliaid gwlyptir.
- Gwarchodfeydd biosffer: Wedi'u dynodi gan UNESCO, mae'r rhain yn cael eu cydnabod am eu gwerth cadwraeth ac addysgol, yn ogystal ag am hybu economïau lleol cynaliadwy. O ganlyniad, mae gwarchodfeydd biosffer yn enghreifftiau cadarnhaol o ryngweithio dynol â natur.
- Arfordir treftadaeth: Mae'r rhain yn ddarnau o arfordir arbennig a dilychwin a sefydlwyd i sicrhau eu cadwraeth a'u rheolaeth a hyrwyddo mynediad a mwynhad. Er nad oes gan y dynodiad unrhyw ddiogelwch cyfreithiol, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried y statws wrth wneud penderfyniadau datblygu. Diffinnir arfordiroedd treftadaeth yn gyffredin fel darn rhwng dau bwynt a dyna pam nad ydynt yn cael eu cynnwys yn Nhabl 2.1 sy'n cynnwys arwynebedd tir.

2.2.2. Ar gyfer Ceredigion gyfan (sy'n mesur 178,300 ha), dangosir nifer ac arwynebedd y dynodiadau tirwedd a chadwraeth natur yn Nhabl 2.1, gyda'r map wedi'i ddarparu yn Atodiad A. Sylwch nid yw cyfran cyfanswm yr arwynebedd tir yn cynnwys yr ardal ACA morol sydd o bwysigrwydd mawr.

**Tabl 2.1: Dynodiadau tirwedd a chadwraeth natur**

Dynodiad	Nifer	Arwynebedd (ha)	Cyfran cyfanswm yr arwynebedd tir (%)
Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI)	3	61	0.03
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)	8	2,981	1.67
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	101	19,501	10.94
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)	16 (gan gynnwys 3 morol)	50,968 (gan gynnwys 42,383 morol)	5.94 (heb gynnwys rhai morol)
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	3	11,721	6.57
Safleoedd Ramsar	2	2,795	1.57
Gwarchodfa Biosffer	1	18,453	10.35

2.2.3. Yr hyn y byddai llawer o bobl yn ei ddisgrifio fel 'un o drysorau' Ceredigion yw'r arfordir helaeth sydd hefyd yn cynrychioli ardal ddynodedig fwyaf y Sir. Mae dynodiad yr ACA yn nodi ei phwysigrwydd i fywyd gwylt ond heb os mae hefyd yn ganolbwynt pwysig i bobl gysylltu â natur, rhywbeth a dystir

<sup>4</sup> Cyfarwyddeb 2009/147/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 30 Tachwedd 2009 ar warchod adar gwylt. *Official Journal of the European Union* 20, 7–25.

<sup>5</sup> Matthews, GVT (1993). *The Ramsar Convention on Wetlands: its history and development*. Gland: Ramsar Convention Bureau.

gan y pedwar darn o arfordir treftadaeth. Mae'r asedau SG hyn o fudd arbennig i boblogaethau ac ymwelwyr yn yr aneddiadau arfordirol i'r gogledd o Aberystwyth, i'r gogledd o Aberaeron, rhwng Ceinewydd a Thresaith ac i'r gogledd o Aberteifi. Mae'r holl drefi mawr eraill wedi'u lleoli ar lannau afon Teifi sydd hefyd wedi'i dynodi'n ACA ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl gysylltu â natur. Mae'r mwyafrif o'r ardaloedd dynodedig tirol wedi'u lleoli yng ngogledd a dwyrain y Sir ac felly yn ddaearyddol wedi'u datgysylltu i ryw raddau o'r prif ganolfannau poblogaeth sydd wedi'u lleoli tuag at y gorllewin a'r de.

- 2.2.4. Mae'r tair ACA morol ym Mae Ceredigion yn cynrychioli safleoedd allweddol o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer bywyd gwyllt. Dynodir ACA Bae Ceredigion ar sail ei chynefinoedd riffiau, ogofâu môr, poblogaeth o forloi llwyd a phoblogaeth fwyaf Ewrop o ddolffiniaid trwynbwl, *Tursiops truncatus*. Dynodir ACA Morol Gorllewin Cymru ar gyfer y boblogaeth o lamhidyddion, *Phocoena phocoena*, tra bo ACA Pen Llŷn a'r Sarnau wedi'i ddynodi ar gyfer ei lagwnau arfordirol a'i riffiau dŵr bas ymhlith cynefinoedd eraill. Mae'r pedwar darn o arfordir treftadaeth (Y Borth – Clarach, Twll Twrw – Llanrhystud, Ceinewydd – Tresaith a Phen-peles – Gwbert) sy'n ymestyn dros 35km hefyd yn amlygu pwysigrwydd yr arfordir i bobl fwynhau profiadau naturiol, dilychwin.
- 2.2.5. Mae rhan o warchodfa Biosffer Dyfi hefyd yn bwysig ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Mae ardal graidd Biosffer Dyfi yn cynnwys tri phrif gynefin gwarchodedig: cyforgors (ACA ac SoDdGA Cors Fochno); coetir llydanddail lled-naturiol hynafol (ACA a SoDdGA Coed Cwm Einion); a'r môr, yr arfordir a'r aber (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau).
- 2.2.6. Mae ardaloedd eraill o bwysigrwydd cenedlaethol/rhyngwladol yn cynnwys dau safle Ramsar Ceredigion (safleoedd gwlyptir sydd wedi'u dynodi i fod o bwysigrwydd rhyngwladol o dan Gonfensiwn Ramsar). Wedi'i leoli ger Tregaron, dynodwyd Cors Caron yn safle Ramsar oherwydd prinder a chyflwr rhagorol y cynefin cyforgors sydd ynddo. Mae'r un safle hefyd wedi'i ddynodi'n GNC, ACA, a SoDdGA. Mae Cors Fochno a safle Ramsar Dyfi wedi'u lleoli i'r gogledd o'r Sir, ger pentref y Borth. Fel un o'r ychydig enghreifftiau sy'n weddill o gynefinoedd cyforgors sydd bron yn naturiol yn y DU, mae'n agwedd hanfodol o GNC Dyfi a Gwarchodfa Biosffer, yn ogystal â'i ddynodiadau ACA, AGA a SoDdGA. Dynodwyd GNC/SAC/SoDdGA Coed Rheidol am ei hen gynefin coed derw digoes. Mae ACA/SoDdGA Elenydd yn cynnwys y darn mwyaf o orgors ucheldir canolog Cymru; ac mae ACA/SoDdGA Mynydd Mallaen yn cynnwys ardaloedd mawr o hen goetir derw digoes a rhostir sych Ewropeaidd. Mae'r ddau safle tirol ucheldir hefyd wedi'u dynodi'n AGA ar gyfer eu poblogaethau o'r cudyll bach *Falco columbarius* a barcud *Milvus milvus*.
- 2.2.7. Ar y lefel ranbarthol, mae Ceredigion yn gartref i dri GNLI; mae pob un ohonynt wedi'u lleoli i'r gogledd o'r Sir, ger Aberystwyth. Dynodwyd coedwigoedd a hen chwarel Penglais oherwydd y coetir llydanddail collddail a'r doreth o glychau'r gog yn y gwanwyn. Cafodd yr ardal a leolir o gwmpas y caer oes haearn Pen Dinas ei dynodi ar gyfer y cynefinoedd dolydd gwair, afonol, traeth a thafod graean bras sydd ynddo. Cafodd y trydydd safle, sef coetir lled-naturiol hynafol Coed Y Cwm, ei ddynodi'n GNLI oherwydd yr amrywiaeth o ficro-gynefinoedd coetir y mae'n eu darparu.

## 2.3 ASED AU FFISEGOL

- 2.3.1. Mae nifer o deipolegau SG gwahanol, pob un â mathau gwahanol o SG a all fod yn bresennol mewn ardal arbennig. Yng Ngheredigion, mae gwybodaeth ofodol ar gael am y mathau canlynol o asedau SG llinellog a heb fod yn llinellog:

- Llwybrau teithio llesol: Mae'r rhain yn elfennau o seilwaith (wedi'u cymeradwyo gan CSC<sup>6</sup>) sy'n hwyluso ac yn annog teithio trwy ddulliau llesol corfforol, fel cerdded neu feicio. Pwrpas llwybrau teithio llesol yw darparu mynediad i gyrchfannau penodol a gwella iechyd defnyddwyr yr un pryd. Cydnabyddir pwysigrwydd y llwybrau hyn yn genedlaethol trwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013,<sup>7</sup> sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wella a hyrwyddo llwybrau o'r fath ar gyfer teithiau llesol. Mae CSC yn gweithredu ar y ddyletswydd hon yn lleol ar gyfer y trefi teithio llesol dynodedig Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan trwy grantiau trafnidiaeth gan Lywodraeth Cymru, ac un ffordd arall yw trwy eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.<sup>8</sup> (Ffynhonnell data: CSC).
- Llwybrau beicio: Llwybrau yw'r rhain sydd wedi'u cynllunio i feiciau eu defnyddio (Ffynhonnell data: Sustrans). Sylwch fod y data yma yn cynnwys llwybrau beicio yn ogystal â llwybrau beicio ar y ffordd.
- Llwybrau'r arfordir: Llwybrau ar hyd yr arfordir ac aberoedd i gerddwyr yw'r rhain. (Ffynhonnell data: Porth Lle).
- HTC: Mae'r rhain yn llwybrau sy'n caniatáu i'r cyhoedd fynd trwy dir preifat. (Ffynhonnell data: CSC).
- Hen reilffyrdd: Mae'r rhain yn hen rannau o drac rheilffordd a allai fod wedi cael eu newid neu heb gael eu newid at ddefnyddiau eraill, megis cerdded neu feicio. Yng Ngheredigion nid oes gan y cyhoedd fynediad i'r rhain yn gyffredinol, ac eithrio pan fyddant wedi'u dynodi'n HTC neu'n llwybrau beicio. (Ffynhonnell data: CSC).
- Prif afonydd: Mae'r rhain yn gyrsiau dŵr statudol a ddynodwyd gan CNC fel prif afonydd oherwydd eu maint a/neu bresenoldeb nodweddion sy'n rheoleiddio llif y dŵr trwy sianel yr afon. Mae prif afonydd yn nodweddion pwysig ar gyfer cysylltedd ecolegol ac, os ydynt yn hygyrch gallant fod â gwerth hamdden mawr. (Ffynhonnell data: Porth Lle).
- Cyrsiau dŵr cyffredin: Gall cyrsiau dŵr cyffredin fod yn nodweddion pwysig hefyd ar gyfer cysylltedd ecolegol ac o werth hamdden hyd yn oed os nad ydynt wedi'u dynodi'n brif afonydd.
- Mannau gwyrdd hygyrch: Mae'r Arolwg Ordnans (OS) wedi cynhyrchu haen man gwyrdd sy'n cynnwys ystod o fathau o fannau gwyrdd trefol.<sup>9</sup> Ar gyfer trefi Ceredigion, dim ond man gwyrdd sy'n debygol o fod yn hygyrch i'r cyhoedd sydd wedi'i gynnwys, h.y. heb gynnwys gerddi preswyl preifat, tir ysgolion, busnesau a sefydliadau, a'r 'ystâd feddal' wrth ochr coridorau trafnidiaeth. Mae'r manau gwyrdd sydd wedi'u cynnwys fel a ganlyn:
  - Rhandiroedd: Mae'r rhain yn ddarnau o dir a ddefnyddir gan drigolion ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau. (Ffynhonnell data: Arolwg Ordnans).
  - Tiroedd a mynwentydd crefyddol: Mae'r rhain yn ddarnau o dir o gwmpas eglwysi, gan gynnwys ardaloedd a neilltuwyd ar gyfer claddu'r ymadawedig. (Ffynhonnell data: Arolwg Ordnans).

---

<sup>6</sup> Am ragor o wybodaeth, gweler: <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-parking/active-travel/>

<sup>7</sup> Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/7/contents/enacted>

<sup>8</sup> Ar gael yn: <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coast-countryside/public-rights-of-way/rights-of-way-improvement-plan/>

<sup>9</sup> Ar gael yn: <https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/mastermap-greenspace>

- Parciau neu erddi cyhoeddus: Mae'r rhain yn fannau cyhoeddus ffurfiol, megis Parc Coffa Llandysul neu Gae Sgwâr Aberaeron. (Ffynhonnell data: Arolwg Ordnans).
- Mannau chwarae: Mae'r rhain yn fannau sy'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc chwarae, megis meysydd hamdden gydag offer chwarae. (Ffynhonnell data: Arolwg Ordnans a CSC). Sylwch nid yw manau chwarae ar dir caeedig ysgolion wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn. Mae hyn oherwydd diffyg data gofodol perthnasol am dir ysgolion. Felly, dim ond lleoedd chwarae sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar ryw adeg o'r flwyddyn o leiaf sy'n cael eu cynnwys.
- Caeau chwarae: Yn gyffredinol, mae'r rhain yn ardaloedd mawr a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon achlysurol a hamdden cyffredinol megis cerdded (cŵn) a chael picnic. (Ffynhonnell data: Arolwg Ordnans).
- Meysydd/cyfleusterau chwaraeon: Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau hamdden awyr agored fel cyrsiau golff, lawntiau bowlïo a chyrtau tenis. (Ffynhonnell data: Arolwg Ordnans).
- Meysydd pentref: Mae'r rhain yn ddarnau o dir o fewn anheddiad diffiniedig a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon neu hamdden gan bobl leol. (Ffynhonnell data: CSC).
- Tir mynediad agored: Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) (2000)<sup>10</sup> yn diffinio tir mynediad agored fel tir agored a thir comin cofrestredig a gofnodwyd ar gofrestri swyddogol awdurdodau cofrestru tiroedd comin. Hefyd wedi'i gynnwys yn y diffiniad mae tir sydd wedi'i wneud yn hygyrch i bawb gan ei berchnogion. (Ffynhonnell data: CSC).
- Safleoedd mynediad i goedwigoedd: Mae'r rhain yn safleoedd coediog a ddynodwyd gan CNC at ddibenion hamdden. (Ffynhonnell data: CSC).
- Gorchudd coed trefol: Mae hyn yn cynnwys yr ardal o dan orchudd canopi coed o fewn yr amgylchedd trefol. (Ffynhonnell data: Porth Lle).
- Dyfroedd ymdrochi: Fel y'i diffinnir gan Gyfarwydeb Dyfroedd Ymdrochi y CE (2006)<sup>11</sup>, mae'r rhain yn 'ddyfroedd croyw neu ddyfroedd môr lle mae ymdrochi wedi'i awdurdodi'n benodol'. (Ffynhonnell data: Porth Lle).
- Llynnoedd: Cyrff dŵr yw'r rhain, yn benodol cronfeydd dŵr a llynnoedd naturiol. (Ffynhonnell data: Porth Lle).
- Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI): Fel y diffinnir yn adran 2.2 uchod. (Ffynhonnell data: Porth Lle).
- Ardaloedd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SBCN): Mae SBCN yn safleoedd dynodedig anstatudol sydd o werth arwyddocaol ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth natur. Fodd bynnag, nid yw unrhyw safleoedd wedi'u dynodi'n swyddogol fel SBCN yng Ngheredigion. Felly mae'r safleoedd hyn yn cynrychioli darnau o dir y mae CSC yn ystyried eu bod yn bodloni meini prawf SBCN, ond sydd heb eu gwarchod ar hyn o bryd. Mae'n bwysig nodi hefyd nad yw'r safleoedd hyn o reidrwydd yn cael eu rheoli am eu gwerth bioamrywiaeth ac nid ydynt o reidrwydd yn hygyrch i'r cyhoedd. (Ffynhonnell data: CSC).

---

<sup>10</sup> Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/37/contents>

<sup>11</sup> Ar gael yn: <https://www.eea.europa.eu/themes/water/europes-seas-and-coasts/assessments/state-of-bathing-water/bathing-water-directives>


2.3.2. Dangosir arwynebedd (ha) neu hyd (km) asedau SG sydd wedi'u mapio ar gyfer pob un o'r trefi (a'r lleiniau clustogi 2km) i'w cymharu yn Nhabl 2.2. Dangosir cyfran gynrychioliadol pob un o'r mathau hyn o asedau ar draws y trefi (gan reoli am eu meintiau amrywiol) yn Ffigur 2.1. Mae sylwebaeth fesul tref yn dilyn. Darperir y mapiau o asedau SG ar gyfer pob un o'r trefi yn Atodiad B.

**Tabl 2.2: Asedau SG ym mhob tref (gan gynnwys llain glustogi 2km)**

Ased SG (unedau)		Aberystwyth	Aberaeron	Aberteifi	Llanbedr Pont Steffan	Adpar	Llandysul	Tregaron	CYFANSWM
Llwybrau teithio llesol	km	30		9	5				44
Llwybrau beicio	km	31	4	7	7	6	8	6	69
Llwybrau'r arfordir	km	8	7	10					25
Hawliau tramwy cyhoeddus (HTC)	km	53	33	32	18	11	14	27	188
Rheilffyrdd segur	km	3	2	0.8	4			3	14
Prif afonydd	km	16	6	10	15	14	13	12	86
Cyrsiau dŵr cyffredin	km	56	30	70	74	22	32	49	333
Mannau gwyrdd Arolwg Ordnans: Rhandiroedd	ha	1	0.6	1	0.5				3
Mannau gwyrdd Arolwg Ordnans: Caeau chwarae	ha	24	9	6	5	7	6	6	64
Mannau gwyrdd Arolwg Ordnans: Parciau neu erddi cyhoeddus	ha	4	1	0.9	0.3				6
Mannau gwyrdd Arolwg Ordnans: Tiroedd a mynwenydd crefyddol	ha	8	1	6	3	2	2	1	22
Mannau gwyrdd Arolwg Ordnans: Meysydd/cyfleusterau chwaraeon eraill	ha	48	0.4	40	10	0.6	6	0.5	105
Mannau chwarae (data Arolwg Ordnans a CSC) <sup>12</sup>	ha	19	2	4	8	1	5	0.1	40
Meysydd pentref	ha			9					9
Tir mynediad agored	ha	13							13
Safleoedd mynediad i goedwigoedd	ha		5						5

<sup>12</sup> Ac eithrio lleoedd chwarae ar dir caeedig ysgolion nad oes y cyhoedd fynediad iddynt.

Ased SG (unedau)		Aberystwyth	Aberaeron	Aberteifi	Llanbedr Pont Steffan	Adpar	Llandysul	Tregaron	CYFANSWM
Gorchudd coed trefol	ha	48	6	18	16	14	8		110
Dyfroedd ymdrochi	ha	36							36
Llynnoedd	ha	0.3			3				3
Gwarchodfeydd natur lleol (GNLI)	ha	61							61
Ardaloedd sy'n bodloni meini prawf ar gyfer Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SBCN)	ha	904	404	573	335	332	341	548	3,436
<b>Cyfanswm arwynebedd y dref (gan gynnwys llain glustogi)</b>	<b>ha</b>	<b>3,113</b>	<b>1,522</b>	<b>2,957</b>	<b>2,443</b>	<b>1,791</b>	<b>2,240</b>	<b>2,024</b>	<b>16,090</b>



**Ffigur 2.1: Cyfran gynrychioliadol o asedau SG ar draws y saith maes astudio**

2.3.3. Dylid ystyried harborau Ceredigion yn y cyd-destun hwn hefyd. Er nad yw harborau fel arfer yn cael eu hystyried yn ased SG eu hunain (ac felly nid ydynt wedi'u rhestru uchod), maent yn aml yn



ganolbwynt ar gyfer trefi'r Sir ac yn cynnig cyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr wylïo a phrofi byd natur afonydd, yr arfordir a'r môr.

### Aberystwyth

- 2.3.4. Mae'r dirwedd yn ardal Aberystwyth yn cynnwys amgylcheddau arfordirol, dyffrynnoedd a bryniau. Mae'r arfordir yn nodwedd arbennig o bwysig ar gyfer hamdden a thwristiaeth, wedi'i nodweddu gan gildraethau preifat a thraethau graeanog bach. Mae rhannau o ddwy o afonydd mwyaf y Sir, y Rheidol a'r Ystwyth, yn rhedeg trwy'r ardal. Mae gan Aberystwyth yr amrywiaeth fwyaf o asedau SG a nodwyd o fewn CSC. Fel y dref fwyaf, mae ganddi'r ardal fwyaf o orchudd tir SG a hyd asedau llinellog hefyd. Mae ardaloedd sy'n bodloni meini prawf SBCN yn dominyddu o ran gorchudd tir gyda chyfanswm arwynebedd o 904 ha (22.3% o gyfanswm arwynebedd tir y dref a'i llain glustogi). O ran yr asedau SG trefol, y rhai allweddol yw 19 ha o fannau chwarae, 24 ha o gaeau chwarae, 48 ha o feysydd chwaraeon, a 48 ha o goed trefol. Mae'r nodweddion sydd wedi'u nodi fel rhai unigryw ar gyfer Aberystwyth yn cynnwys: tir mynediad agored, dyfroedd ymdrochi a GNLI, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio 110 ha (3.5% o ardal yr astudiaeth). Mae'r asedau llinellog pwysig ar gyfer y dref yn cynnwys 53km o HTC a 72km o gyrsiau dŵr (prif afonydd a chyrsiau dŵr cyffredin) sy'n llifo trwy'r ardal. Dylid nodi hefyd bod Aberystwyth wedi datblygu'r darn mwyaf o lwybrau teithio llesol, sef cyfanswm o 20km.

### Aberaeron

- 2.3.5. Wedi'i lleoli ar yr arfordir yng ngheg afon Aeron a'r harbwr, mae'r dirwedd fewndirol ac i'r de o Aberaeron wedi'i dominyddu gan lethrau a chlogwyni serth gydag ardal o wastadedd i'r gogledd. Mae'r ardal glan môr yn arbennig o bwysig ar gyfer hamdden a thwristiaeth gan gynnwys y traethau creigiog a graeanog. I ffwrdd o'r arfordir, mae llystyfiant coediog a thir ffermio yn fwy amlwg. Yn yr anheddiad, ardaloedd sy'n bodloni prawf SBCN sy'n ffurfio'r mwyafrif o asedau SG Aberaeron, gyda gorchudd o 404 ha (17.6% o ardal yr astudiaeth). Mae asedau pwysig eraill y dref yn cynnwys 9 ha o gaeau chwarae a 6 ha o orchudd coed trefol. Mae'r unig Safle Mynediad i Goedwigoedd ym mhrif drefi Ceredigion wedi'i lleoli yma hefyd, sef 5 ha. HTC sy'n ffurfio'r mwyafrif o asedau llinellog Aberaeron, gyda chyfanswm hyd o 33km. Mae nodweddion amlwg eraill yn cynnwys 36km o gyrsiau dŵr a 7km o lwybrau'r arfordir. Yn rhedeg ar hyd darn o hen reilffordd mae llwybr beicio Aberaeron i Lanerchaeron yn ased allweddol amlwg arall.

### Aberteifi

- 2.3.6. Mae'r dirwedd yn ardal Aberteifi yn cynnwys dyffryn afon eang a'r bryniau o'i gwmpas. Mae hefyd yn elwa trwy fod yn agos at arfordir Ceredigion sy'n ased SG pwysig. Ar gyfer Aberteifi, ardaloedd sy'n bodloni meini prawf SBCN sy'n ffurfio'r mwyafrif o asedau SG yr ardal, gyda chyfanswm o 573 ha (yn gorchuddio 19.4% o'r arwynebedd tir). Mae asedau pwysig eraill yn cynnwys 40 ha o feysydd chwaraeon, 18 ha o ganopi coed trefol, a 6 ha o gaeau chwarae. Mae Aberteifi hefyd yn gartref i unig faes pentref y Sir sydd wedi'i mapio'n ffurfiol, gyda chyfanswm arwynebedd o 9 ha. O ran asedau llinellog, HTC a chyrsiau dŵr yw'r nodweddion mwyaf, sy'n mesur 32km ac 80km o hyd.

### Llanbedr Pont Steffan

- 2.3.7. Mae'r dirwedd yn ardal Llanbedr Pont Steffan yn amrywiol, gyda'r brif afon, y Teifi, yn nodwedd allweddol yn ogystal â dyffrynnoedd coediog a chaeau pori wedi'u gwella. O fewn yr anheddiad, mae ardaloedd sy'n bodloni meini prawf SBCN yn ffurfio 335 ha o asedau SG Llanbedr Pont Steffan, ac fel 13.7% o'r arwynebedd tir, hon yw'r gyfran isaf o'r saith tref. Hefyd o bwysigrwydd mae gorchudd coed trefol yr ardal (16 ha), meysydd chwaraeon (10 ha), mannau chwarae (8 ha) a chaeau

chwarae (5 ha). Mae Llanbedr Pont Steffan yn nodedig gan ei fod yn gartref i Lyn Falcondale 3 ha, y gellir cael mynediad iddo trwy ran fach o HTC (er ei fod ym mherchnogaeth breifat). Asedau llinellog pwysig yw'r 89km o gyrsiau dŵr a'r 18km o HTC.

#### Adpar

- 2.3.8. Mae'r dirwedd sy'n ffurfio ardal Adpar yn cynnwys caeau clytwaith ar dir uchel wedi'u croesi gan ddyffrynnoedd afon bach sy'n disgyn yn serth i orlifdir y Teifi. O fewn yr anheddiad, mae ardaloedd Adpar sy'n bodloni meini prawf SBCN yn ffurfio cyfanswm o 332 ha (18.5% o gyfanswm yr arwynebedd tir). Mae asedau pwysig eraill yn cynnwys 14 ha o ganopi coed trefol a 7 ha o gaeau chwarae. Mae'r asedau llinellog a nodwyd yn cynnwys 36km o gyrsiau dŵr, 11km o HTC a 6km o lwybrau beicio.

#### Llandysul

- 2.3.9. Mae'r dirwedd yn ardal Llandysul yn cynnwys llwyfandir uchel y mae cyfres o gyrsiau dŵr o hyd gwahanol yn torri ar ei draws sy'n ffurfio dyffrynnoedd cul serth a choridorau o ddyffrynnoedd ynysig mwy agored. O fewn yr anheddiad mae ardaloedd sy'n bodloni meini prawf SBCN sy'n ffurfio cyfanswm o 341 ha o asedau SG Llandysul (15.2% o ardal yr astudiaeth). Mae asedau pwysig eraill yn cynnwys 8 ha o ganopi coed trefol, 6 ha o gaeau chwarae, 6 ha o feysydd chwaraeon, a 5 ha o fannau chwarae. Mae'r asedau llinellog a nodwyd yn cynnwys 45km o gyrsiau dŵr, 14km o HTC ac 8km o lwybrau beicio.

#### Tregaron

- 2.3.10. Mae CDLI<sup>13</sup> mabwysiedig Ceredigion yn nodi'r dirwedd o gwmpas Tregaron wrth droed Mynyddoedd Cambrian fel un o'r rhai mwyaf gwerthfawr yng Ngheredigion. Mae'r nodweddion pwysig yn cynnwys rhostir ucheldir a llwyfandir glaswelltir yn ogystal â dyffrynnoedd afon isel a llwyfandir arfordirol. O'r saith tref, mae gan Dregaron y gyfran uchaf o dir wedi'i gwmpasu gan ardaloedd sy'n bodloni meini prawf SBCN, sef 27.1% (yn mesur 548 ha) (sy'n cynnwys ardal Cors Caron i'r gogledd o'r dref). Mae caeau chwarae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig, gyda chyfanswm arwynebedd o 6 ha. Oherwydd maint a natur wledig Tregaron, ni chasglwyd data ar gyfer adroddiad Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru CNC<sup>14</sup>. Felly, nid oedd data gorchudd coed trefol ar gael ar gyfer Tregaron. O ran asedau llinellog, HTC a chyrsiau dŵr yw'r nodweddion mwyaf ac yn mesur 27km a 61km.

## 2.4 CYSYLLTEDD AR GYFER POBL

- 2.4.1. Yn ogystal â bod yn asedau SG ffisegol ynddynt eu hunain, mae llwybrau hamdden llinellog (h.y. llwybrau teithio llesol, llwybrau beicio, llwybrau'r arfordir a HTC) hefyd yn darparu swyddogaethau cysylltedd pwysig. Mae'r rhain yn galluogi pobl i symud yn hawdd (a thrwy ddulliau iach a chynaliadwy) rhwng asedau SG trefol eraill, rhwng ardaloedd preswyl ac asedau SG trefol, ac o ardaloedd trefol i'r cefn gwlad gerllaw. Mae llwybr arfordir Cymru yn benodol yn darparu mynediad gwych i arfordir Ceredigion, a gellir dadlau mai hwn yw ei ased SG mwyaf. Ar raddfa fwy, mae'r llwybrau hamdden llinellog hyn hefyd yn helpu i integreiddio SG trefol i rwydwaith SG ehangach Ceredigion. Mae'r rhwydwaith beicio cenedlaethol yn darparu cysylltedd rhwng aneddiadau

<sup>13</sup> Ar gael yn: <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/ceredigion-local-development-plan/>

<sup>14</sup> Cyfoedd Naturiol Cymru (2016). Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/green-spaces/urban-trees/?lang=cy>

Ceredigion, yn ogystal â'u cysylltu â rhai o safleoedd tirwedd a chadwraeth natur dynodedig y Sir. Mae llwybrau llinellog eraill megis hen reilffyrdd ac afonydd yn darparu mwy na dim ond cysylltedd pwysig i fywyd gwyllt. Maent hefyd yn cynrychioli nodweddion SG gwerthfawr ar gyfer hamdden lle maent yn hygyrch, megis trwy lwybrau glannau afon. Mae sylwebaeth ar gysylltedd SG Ceredigion ar gyfer pobl yn dilyn fesul tref, yn ogystal ag ar gyfer y Sir gyfan.

### Aberystwyth

- 2.4.2. Mae llawer o asedau SG Aberystwyth wedi'u lleoli o fewn ffin y CDLI, ac mae cysylltedd da i bobl ar draws y dref, e.e. trwy'r llwybrau teithio llesol helaeth sy'n cysylltu parthau gwahanol. Mae gan Aberystwyth nifer fawr o asedau SG y tu allan i ffin yr anheddiad hefyd, gyda lefelau amrywiol o gysylltedd. Mae ardaloedd glan môr ac ymdrochi Aberystwyth wedi'u cysylltu â'r ardal sydd wedi'i hamgáu gan ffin y CDLI a thu hwnt i'r llain glustogi gan lwybrau'r arfordir. Yn ogystal â'r arfordir a'r mannau ymdrochi, mae llwybrau'r arfordir hefyd yn cysylltu â sawl ardal o fannau gwyrdd arfordirol. Mae GNLI Parc Natur Penglais i'r gogledd o'r dref wedi'i gysylltu trwy ran barhaus o HTC – fel y mae GNLI Pendinas i'r de-orllewin. Mae'r rhwydwaith o HTC a llwybrau beicio i'r de a'r de-ddwyrain yn llai cyflawn ac, o ganlyniad, mae sawl rhan o fannau gwyrdd (gan gynnwys y 13 ha o dir mynediad agored) wedi'u cysylltu'n wael â'r dref. Ar hyn o bryd, mae cysylltedd o hyd rhwng y rhan fwyaf o'r asedau sy'n werthfawr yn ecolegol. Fodd bynnag, mae colli cysylltedd o'r gogledd i'r de yn bryder allweddol fel y nodir yn y CDLI.

### Aberaeron

- 2.4.3. Y tu allan i ffin CDLI Aberaeron, llwybrau'r arfordir a HTC yw'r prif gysylltiad â'r arfordir gwerthfawr ac asedau SG eraill o fewn ardal y ffin. Mae llwybr beicio cenedlaethol<sup>15</sup> yn gweithredu fel cysylltiad o ganol y dref i'r arfordir sy'n cynrychioli ased SG mawr i'r dref. Hefyd i'w nodi mae rhan o hen reilffordd sy'n ymestyn o ffin y CDLI y tu hwnt i'r llain glustogi, sy'n llwybr hamdden pwysig yn cysylltu'r dref a Llanerchaeron yn rhannol. Mae nifer o feysydd pentref a thir cyffredin sy'n darparu man gwyrdd pwysig a hygyrch yng nghanol y dref (er nad yw'r asedau hyn wedi'u nodi yn y setiau data gofodol). Mae'r unig 'safle mynediad i goedwigoedd' a nodwyd yn y saith tref wedi'i gysylltu ag ardal drefol Aberaeron gan HTC. Mae'r cae rygbi/criced yn darparu darn mawr o dir chwaraeon hamdden sydd wedi'i gysylltu ag Aberaeron ac Aberarth gan lwybrau troed.

### Aberteifi

- 2.4.4. Mae'r mwyafrif o asedau SG Aberteifi wedi'u lleoli o fewn ffin y CDLI; heblaw am ychydig o fannau chwarae sydd heb eu cysylltu. Mae llwybrau'r arfordir yn gweithredu fel y prif asedau SG llinellog sy'n cysylltu poblogaeth Aberteifi â'i ardal ffiniol gan gynnwys yr ardal glan môr sy'n cynrychioli ased hamdden pwysig yn ogystal â'r safle cyfagos sy'n bodloni meini prawf SBCN. Mae HTC yn bresennol yn ardal y ffin ond yn aml yn dameidiog ac nid yw'n ffurfio rhwydwaith cyson. Ceir llwybrau teithio llesol hefyd y mae rhan ohonynt yn rhedeg ar hyd yr hen reilffordd gan greu cyswllt pwysig a ddefnyddir yn helaeth â Chanolfan Bywyd Gwyllt Cilgerran.

### Llanbedr Pont Steffan

- 2.4.5. Mae'r mwyafrif o asedau SG Llanbedr Pont Steffan wedi'u lleoli y tu mewn i ffin y CDLI. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o fannau chwarae a chwaraeon sylweddol yn ogystal â'r rhwydwaith afonydd. Eithriad amlwg yw'r llyn 3 ha sydd wedi'i gysylltu â'r ardal o fewn ffin y CDLI trwy un o brif afonydd y dref (Nant Creuddyn), er nid trwy unrhyw HTC. Y prif afonydd yw'r prif fath o gysylltiad â'r llain

---

<sup>15</sup> Sylwch fod hyn yn cynnwys beicio ar y ffordd.

glustogi a thu hwnt. Mae darn sylweddol o hen reilffordd yn ymestyn o ffin y CDLI a thu hwnt i'r llain glustogi, er nad oes modd cael mynediad iddo ar hyn o bryd fel llwybr hamdden i bobl.

#### Adpar

- 2.4.6. Mae llawer o asedau SG Adpar y tu allan i ffin y CDLI, yn nhref Castellnewydd Emlyn gerllaw; gan gynnwys y rhan fwyaf o orchudd coed trefol yr ardal a sawl man chwarae mawr. Yr eithriad yw'r safle dyraniad preswyl gyferbyn â Pharc y Trap<sup>16</sup>, sy'n cynnwys cae chwarae gydag offer chwarae (rhaid cynnal neu wella hynny gyda datblygiad). Mae llawer o'r asedau y tu allan i ffin y CDLI heb gysylltiad ag Adpar ei hun, gan gynnwys yr ardal fwyaf o fan chwarae. Mae HTC yn bresennol ond maent yn dameidiog a heb ffurfio rhwydwaith cyson.

#### Llandysul

- 2.4.7. Mae'r rhan fwyaf o asedau SG Llandysul wedi'u lleoli o fewn ei ffin CDLI. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon, caeau chwarae a mannau chwarae. Yr eithriad yw'r cyfleuster chwaraeon ychydig i'r gogledd o ffin y CDLI er ei bod yn ymddangos bod hyn wedi'i gysylltu trwy HTC. Y prif afonydd (Teifi a Thyweli) yw'r prif ased SG a gellir cael mynediad iddynt trwy'r llwybr beicio cenedlaethol cyfagos. Mae HTC yn bresennol a hefyd yn croesi ffin y CDLI allan o'r ardal drefol. Fodd bynnag, oherwydd ei natur ddameidiog, nid yw'r HTC yn ffurfio rhwydwaith cyson o lwybrau teithio/hamdden yn yr ardal.

#### Tregaron

- 2.4.8. Mae'r mwyafrif o'r asedau SG a nodwyd ar gyfer Tregaron wedi'u lleoli o fewn ffin y CDLI sy'n cynnwys caeau chwarae, tiroedd crefyddol a chyfleusterau chwaraeon. Mae HTC yn gweithredu fel cysylltiad o'r ardal drefol i'r llain glustogi a thu hwnt, er ei fod yn ymddangos nad oes gan yr afonydd (Brennig a Theifi) lwybr troed/beicio cyfagos i bobl gysylltu â'r ardaloedd gerllaw. Mae'r rhwydwaith o HTC yn weddol gyflawn o'i gymharu â'r ardaloedd trefol eraill.

#### Sir Ceredigion

- 2.4.9. Mae trefi arfordirol Ceredigion yn elwa o gael mynediad hawdd at ased SG mwyaf gwerthfawr Ceredigion, sef yr arfordir trwy'r rhwydwaith o lwybrau'r arfordir. Mae hyn yn cynnwys mynediad i'r rhannau o arfordir treftadaeth sy'n arbennig o werthfawr ar gyfer gwerthoedd hamdden ac esthetig gan eu bod yn darparu ardaloedd dilychwin i ddinasyddion ac ymwelwyr Ceredigion gysylltu â byd natur. Mae Aberystwyth wedi'i chysylltu ag ACA/AGA/SoDdGA Elenydd a GNC/ACA/SoDdGA Cors Caron trwy lwybrau beicio cenedlaethol. Mae'r safle olaf hefyd wedi'i gysylltu â Thregaron trwy Lwybr Beicio Cenedlaethol 82 sy'n parhau i'r de-orllewin ar hyd ffin y Sir ac ACA Afon Teifi i Lanbedd Pont Steffan, Llandysul, Adpar ac Aberteifi. Mae'r dref arfordirol Aberystwyth hefyd yn elwa o fod yn agos (a mynediad llwybr beicio cenedlaethol) i ACA Bae Ceredigion ac ACA Morol Gorllewin Cymru,. Fodd bynnag, dylid nodi, er y gallai mynediad i safleoedd cadwraeth natur pwysig fod yn fuddiol i bobl (e.e. trwy'r buddion gwasanaethau ecosystem, cysylltiadau natur, llai o straen, llesiant meddyliol gwell ac ati), gallai cynyddu mynediad y cyhoedd i safleoedd o'r fath fod yn niweidiol i'w bioamrywiaeth.<sup>17</sup> Gallai sathru dan draed, beiciau mynydd, sŵn ac ati effeithio'n ddifrifol ar nodweddion cymwys safleoedd gwarchoddedig Ewropeaidd fel ACA ac AGA (sy'n cynnwys

<sup>16</sup> Dyraniad Preswyl H0401 fel y'i nodwyd yn Natganiadau Grŵp Aneddiadau Cyfrol 2A CDLI Ceredigion. Ar gael yn: <http://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/ceredigion-local-development-plan/adopted-ceredigion-local-development-plan-ldp/>

<sup>17</sup> Marzano, M & N. Dandy (2011). Marzano, M & N. Dandy (2011). Disturbance of wildlife and the recreational use of forests: literature review. Forest Research, Farnham.

ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol fel SoDdGA), ac felly bydd yn bwysig sicrhau bod pobl yn cadw at y llwybrau a ganiateir yn unig, gan osgoi ardaloedd sensitif.

## 2.5 CYNEFINOEDD

2.5.1. Mae'r prif fathau o gynefinoedd sy'n bresennol yn ac yn ardal saith tref Ceredigion fel a ganlyn (gyda diffiniadau o Lawlyfr Cam 1 y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol a Negodi (JNCC)<sup>18</sup>):

- **Coetir:** Diffinnir coetir fel llystyfiant a ddominyddir gan goed sy'n fwy na 5m o uchder pan fyddant yn aeddfed, gan ffurfio canopi amlwg, er ei fod weithiau'n agored. Mae cynefin prysgwydd yn llystyfiant brodorol sydd fel arfer yn llai na 5m o daldra megis mieri neu ddraenen wen.
- **Glaswelltir:** Mae glaswelltir yn ardal lle mae'r llystyfiant yn cael ei ddominyddu gan orchudd bron yn ddi-dor o laswelltir. Mae'r categori hwn yn cynnwys y ddwy ardal o llystyfiant parhaol sy'n cael eu dominyddu gan weiriau a rhai cymunedau gwlyb sydd wedi'u dominyddu gan rywogaethau hesg, rhywogaethau brwyn neu berlysiâu cors eraill.
- **Perlysiâu a rhedyn uchel:** Mae hyn yn cynnwys rhedyn a llystyfiant tal arall fel danadl poethion cyffredin.
- **Rhostir:** Mae rhostir yn fath o gynefin adnabyddus yn iseldiroedd ac ucheldiroedd y DU. Mae'n digwydd ar briddoedd asidig, dirywedig, tywodlyd sych neu fawnog gwlyb, ac fe'i nodweddir gan bresenoldeb amrywiaeth o gorlwyni gan gynnwys mathau gwahanol o rug ac eithin.
- **Mignen:** Math o gynefin gwlyptir yw mignen wedi'i ddominyddu gan blanhigion byw sy'n ffurfio mawn.
- **Gwern:** Diffinnir gwern fel llystyfiant sy'n gorlifo'n aml neu sy'n codi o'r dŵr dros briddoedd mawn neu fwynau.
- **Dŵr agored:** Diffinnir dŵr agored fel dŵr sy'n gorwedd y tu hwnt i derfynau gwern neu llystyfiant sy'n codi o'r dŵr, er y gall gynnwys llystyfiant tan ddŵr, arnofiol rhydd neu ddail arnofiol. Mae dau fath o ddŵr agored: dŵr llonydd (e.e. llynnoedd, cronfeydd dŵr, pyllau naturiol, pyllau graean dan ddŵr, pyllau, ffosydd llawn dŵr, camlesi a morlynnoedd hallt); a dŵr rhedegog (e.e. afonydd a nentydd).
- **Cynefin arfordirol:** Mae cynefinoedd arfordirol i'w cael lle bynnag y mae'r tir yn cwrdd â'r môr. Mae'r arfordir yn gartref i lawer o gynefinoedd, megis tywod, llaid, creigiau a graean, morfa heli, twyni tywod, clogwyni, glaswelltir arfordirol a rhostir arfordirol.
- **Creigiau a gwastraff:** Mae'r categori hwn yn cynnwys arwynebau creigiau agored naturiol ac artiffisial lle mae'r rhain bron yn gyfan gwbl heb unrhyw llystyfiant, yn ogystal â mathau gwahanol o safleoedd cloddio a thomenni gwastraff.
- **Tir ffermio:** Mae'r categori hwn yn cynnwys tir â'r, tir garddwriaethol (er enghraifft planhigfeydd, lleiniau llysiâu) a thir newydd ei aredig.

---


<sup>18</sup> JNCC (2016). Handbook for Phase 1 habitat survey: A technique for environmental audit.

- Glaswelltir amwynder: Mae glaswelltir amwynder yn ardal o laswellt sy'n cael ei reoli'n ddwys a'i dorri'n rheolaidd, felly gallai'r categori hwn gynnwys gerddi, lawntiau, caeau chwarae a pharciau trefol.
- Cynefinoedd trefol: Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau, daear moel, safleoedd carafanau, glaswelltir lluosflwydd/undydd byr (h.y. uniadau o blanhigion byr, clytiog sy'n nodweddiadol o safleoedd trefol diffaith, chwareli a balast rheilffyrdd), a llwyni a gyflwynwyd (llystyfiant anfrodorol, p'un a yw wedi'i blannu neu wedi hunan-hau).
- Gwrychoedd: Gall y rhain gynnwys gwrychoedd sy'n llawn rhywogaethau, gwrychoedd â choed, gwrychoedd cyfan a gwrychoedd sydd wedi darfod.

2.5.2. Dangosir arwynebedd y mathau eang hyn o gynefinoedd ar gyfer pob un o'r trefi (gan gynnwys eu llain glustogi 2km) ar gyfer cymhariaeth yn Nhabl 2.3, a dangosir cyfran gynrychioliadol pob math o gynefin ar draws y trefi (gan reoli am eu meintiau amrywiol) yn Ffigur 2.2.

**Tabl 2.3: Ardal (ha) o fathau cynefin cyffredinol ym mhob tref (gan gynnwys llain glustogi 2km)**

Math o gynefin cyffredinol	Aberystwyth	Aberaeron	Aberteifi	Llanbedr Pont Steffan	Adpar	Llandysul	Tregaron	CYFANSWM
Coetir	322	152	275	239	265	229	889	1,571 (10%)
Glaswelltir	1,898	1,014	1,919	1,913	1,271	1,756	1,652	11,422 (74%)
Perlysiâu a rhedyn uchel	35	12	19	7	14	19	24	130 (1%)
Rhostir	25	0.3	-	-	-	-	0.4	26 (<1%)
Mignen	-	-	1	-	-	-	122	123 (1%)
Gwern	4	-	32	4	0.3	-	4	44 (<1%)
Dŵr agored	24	7	95	25	29	27	19	225 (1%)
Cynefin arfordirol	76	78	127	-	-	-	-	281 (2%)
Creigiau a gwastraff	9	0.4	21	0.5	0.7	0.2	3	35 (<1%)
Tir ffermio	10	26	114	15	31	34	7	237 (2%)
Glaswelltir amwynder	101	9	43	14	14	12	6	199 (1%)
Cynefinoedd trefol	387	112	211	144	103	95	53	1,103 (7%)
Gwrychoedd (km)	88	51	75	137	28	62	9	450 (amherthnasol)
Heb gael mynediad i gynnal arolwg	10	11	11	8	7	7	0.7	21 (<1%)
<b>CYFANSWM</b>	<b>2,901</b>	<b>1,419</b>	<b>2,868</b>	<b>2,367</b>	<b>1,734</b>	<b>2,178</b>	<b>1,980</b>	<b>15,415</b>



**Ffigur 2.2: Cyfran gynrychioliadol o gynefinoedd cyffredinol ar draws y saith ardal astudio**

- 2.5.3. Mae Tabl 2.3 yn dangos bod y mwyafrif o'r tir sy'n gorchuddio'r trefi a'u cefnwledydd (y llain glustogi 2km) yn cynnwys cynefinoedd glaswelltir (74% ar gyfartaledd), yn amrywio o ddwy ran o dair o orchudd tir ar gyfer Aberystwyth ac Aberteifi i dros 80% ar gyfer Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.
- 2.5.4. Mae coetir yn ffurfio oddeutu 10-11% o'r gorchudd tir ar gyfer y rhan fwyaf o'r ardaloedd astudio – yr ail fath mwyaf o gynefin o ran arwynebedd. Adpar sydd â'r coetir mwyaf, sef 15%, tra bo gan Dregaron y coetir lleiaf, sef 4% yn unig. Cynefinoedd trefol yw'r drydedd arwynebedd tir fwyaf (7% ar gyfartaledd) ar gyfer y saith tref, yn amrywio o lai na 5% yn Llandysul a Thregaron i 13% yn Aberystwyth.
- 2.5.5. Mae'r grwpiau cynefin sy'n weddiill yn ffurfio cyfran fach, ond pwysig, o arwynebedd tir gyffredinol yn y parthau clustogi, sef 0-2% yn unig, er bod hyn yn amrywio ymhlith y saith tref. Yn naturiol, dim ond y tair tref arfordirol (Aberystwyth, Aberaeron ac Aberteifi) sy'n cynnwys unrhyw gynefin arfordirol lle mae'n gorchuddio tua 4% o'r arwynebedd tir. Mae bron y cyfan o'r cynefin mignen i'w gael yn ardal Tregaron, gan orchuddio 6% o'r ardal astudio ar gyfer y dref hon. Mae gan Aberteifi gyfran fwy o ddŵr agored o'i gymharu â'r trefi eraill, sef 3% o'r arwynebedd tir, tra bo ganddi'r tir ffermio mwyaf, sef 4%. Mae'r gyfran fwyaf o laswelltir amwynder yn Aberystwyth, sef 3% o'r arwynebedd tir.
- 2.5.6. Ceir dadansoddiad manwl o'r mathau o gynefinoedd cyffredinol hyn yn deipolegau cynefinoedd Cam 1 yn rhifiadol ac yn graffigol ar gyfer pob tref yn Atodiad C.

## 2.6 CYSYLLTEDD AR GYFER BYWYD GWYLLT

- 2.6.1. Yn yr un modd ag y mae cysylltedd ar gyfer pobl yn bwysig, mae cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt yn bwysig hefyd. Mae hyn yn galluogi rhywogaethau i symud ar draws y dirwedd yn ddirwysr, gan

hwyluso ymddygiadau naturiol gan gynnwys gwasgaru, yn ogystal â mudo'n raddol yn yr hinsawdd sy'n newid.

2.6.2. Mae asedau ecolegol craidd (ardaloedd o werth cadwraeth natur uchel lle y gall bywyd gwyllt ffynnu) yn cynnwys 'cynefinoedd â blaenoriaeth', Safleoedd a Warchodir gan Ewrop, safleoedd sy'n bodloni meini prawf SBCN, SoDdGA a GNLI. Mae cynefinoedd â blaenoriaeth yn gynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth, ac fe'u rhestrir yn Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ar draws y saith ardal astudio, mae cynefinoedd â blaenoriaeth yn cynrychioli 10.3% yn unig o gyfanswm yr arwynebedd tir. Mae'r gyfran fach hon o gynefinoedd â blaenoriaeth yn amlygu'r angen i adfer natur ar raddfa fawr a chreu cynefinoedd naturiol sy'n angenrheidiol i wyrddoedd golled barhaus o fioamrywiaeth yng Nghymru, y DU ac yn wir yn fyd-eang. Mae asedau seilwaith gwyrdd mewn ac o gwmpas trefi wedi'u hanghofio ers amser maith ond maent yn chwarae rhan bwysig o ran adfer natur ar raddfa tirwedd. Mae hyn yn cwmpasu:

- Tua hanner (56%) y coetir (h.y. y coetir lled-naturiol llydanddail);
- Cyfran fach iawn (0.4%) o'r glaswelltir (h.y. y glaswelltir asid);
- Y cyfan o'r rhostir;
- Y cyfan o'r fignen;
- Y cyfan o'r wern;
- Y cyfan o'r dŵr agored;
- Y rhan fwyaf (92%) o'r cynefinoedd dŵr arfordirol; a
- Chyfran fach (5.2%) o'r creigiau a'r gwastraff (h.y. y clogwyn mewndirol a'r sgrî).

2.6.3. Er mwyn galluogi cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt, mae angen cysylltu'r asedau ecolegol craidd hyn gyda'i gilydd trwy goridorau llinellog (yn cynnwys gwrychoedd, cyrsiau dŵr a gwlyptiroedd, glaswelltiroedd a choed trefol) a cherrig sarn (yn cynnwys SBCN, neu dir o ansawdd SBNC, a mannau gwyrdd trefol). Nodir coridorau llinellog a cherrig sarn yn Adolygiad Lawton<sup>19</sup>, sy'n nodi sut i sefydlu rhwydweithiau ecolegol mwy cadarn. Fe'u diffinnir fel *"spaces that improve the functional connectivity between core areas, enabling species to move between them to feed, disperse, migrate or reproduce"* (td.16). Mae mapiau sy'n dangos yr 'ardaloedd ecolegol craidd', 'coridorau llinellog', a 'cherrig sarn' ar gyfer pob un o'r saith tref i'w gweld yn Atodiad D.<sup>20</sup>

2.6.4. Mae'r mapiau'n dangos bod Aberaeron, Aberystwyth, Adpar, Aberteifi, Llandysul a Thregaron yn cael eu gwasanaethu'n dda gan asedau ecolegol craidd (wedi'u lleoli i raddau helaeth y tu allan i'r aneddiadau trefol yn y lleiniau clustogi). Mae'r asedau ecolegol craidd hyn hefyd wedi'u cysylltu'n weddol dda â'i gilydd, naill ai trwy ardaloedd craidd eraill, trwy goridorau llinellog (yn enwedig gwrychoedd cyfan) neu drwy gerrig sarn (yn enwedig ardaloedd sy'n bodloni meini prawf SBCN).<sup>21</sup>

<sup>19</sup> Lawton, JH, Brotherton, PNM, Brown, VK, Elphick, C., Fitter, AH, Forshaw, J., Haddow, RW, Hilborne, S., Leafe, RN, Mace, GM, Southgate, AS, Sutherland, WJ, Tew, TE, Varley, J., & Wynne, GR (2010) Making Space for Nature: Report to Defra

<sup>20</sup> Mae hyn yn seiliedig ar ddull gweithredu (heb ei gyhoeddi) sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan Gyngor Bwrdeistref Stockport ac Uned Coleg Manceinion Fwyaf.

<sup>21</sup> Sylwch, at ddibenion yr astudiaeth hon, gwnaethom asesu cysylltedd ecolegol ar sail agosrwydd ardaloedd mannau gwyrdd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried nodweddion allweddol rhwydweithiau ecolegol fel y'u nodwyd yn 'Gwneud Lle i Fyd Natur'. Mae'r rhain yn cynnwys coridorau llinellog, ardaloedd craidd a cherrig sarn. Nid yw mesurau cysylltedd byth yn berffaith ar gyfer pob rhywogaeth gan fod y gallu i wasgaru a'u gofynion yn amrywio. Felly, dim ond mesur procsi ac un



Er ei fod yn elwa o lai o asedau ecolegol craidd na'r trefi eraill, mae Llanbedr Pont Steffan yn cael ei gwasanaethu'n dda gan goridorau llinellog – yn enwedig gwrychoedd yn y llain glustogi, a choed trefol yn y dref ei hun, tra bod cynefin cerrig sarn da yn y dref hefyd. O fewn ffiniau'r anheddiad, mae darpariaeth eithaf da o gynefin cerrig sarn ym mhob tref, er nad oes cynrychiolaeth gystal o goridorau llinellog (ac eithrio Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan).

## 2.7 CRYNODEB A GOBLYGIADAU

- 2.7.1. Mae trefi arfordirol Ceredigion yn arbennig yn elwa o fynediad hawdd i'r arfordir helaeth sydd wedi'i ddynodi'n llwyr fel ACA ac yn cynnwys sawl rhan o'r arfordir treftadaeth wedi'i gysylltu trwy lwybrau'r arfordir – pob un ohonynt yn cynrychioli asedau SG gwerthfawr iawn ar gyfer y Sir, ei thrigolion ac ymwelwyr. Mae trefi eraill y tu hwnt i'r arfordir yn elwa o fod yn agos at afon Teifi sydd hefyd wedi'i dynodi'n ACA ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl gysylltu â natur. Mae'r mwyafrif o'r ardaloedd dynodedig tirol wedi'u lleoli yng ngogledd a dwyrain y Sir ac felly maent wedi'u datgysylltu yn ddaearyddol i ryw raddau o'r prif ganolfannau poblogaeth.
- 2.7.2. O ran asedau SG ffisegol yng Ngheredigion, ymddengys fod darpariaeth dda yn Aberystwyth ond i raddau llai mewn trefi eraill, yn enwedig o ran lleoedd hamdden anffurfiol mewndirol. Ymddengys fod gan Aberystwyth fynediad da i'r arfordir a darpariaeth dda o lwybrau teithio llesol, llwybrau beicio, mannau gwyrdd hygyrch, mannau chwarae a gorchudd coed trefol ar draws y dref, gan elwa ymhellach ar Warchodfeydd Natur Lleol ac ardaloedd ymdrochi sy'n agos i'w gilydd. Felly efallai y bydd angen i gyfleoedd i greu SG ganolbwytio ar drefi eraill Ceredigion. Er enghraifft, mae gan Aberaeron fynediad da i'r ardal glan môr trwy'r rhwydwaith llwybrau'r arfordir, darpariaeth dda o HTC, a darpariaeth gymharol dda o fannau gwyrdd hygyrch, ond y ddarpariaeth isaf o lwybrau beicio a gorchudd coed trefol. Mae Aberteifi hefyd yn elwa o lwybrau'r arfordir a llwybrau teithio llesol, ond nid oes ganddi lawer o SG arall – yn enwedig mannau gwyrdd hygyrch. Mae Llanbedr Pont Steffan yn elwa o'r afon a'r llyn ond mae ganddi ddarpariaeth wael o lwybrau hamdden llinellog. Fel y lleiaf o brif drefi Ceredigion, mae'r ddarpariaeth SG yn Adpar yn arbennig o isel, er bod darpariaeth gymharol dda o lwybrau beicio a gorchudd coed trefol. Yn yr un modd, mae Llandysul a Thregaron yn elwa o gael prif afon, ond mae'r ddarpariaeth SG yn gyffredinol yn wael yn y trefi hyn – yn enwedig o ran mannau gwyrdd hygyrch a gorchudd coed trefol.
- 2.7.3. Gan edrych ar gysylltedd ar gyfer pobl, mae Aberystwyth, Aberaeron a Thregaron yn elwa fwyaf o HTC a nodweddion llinellog eraill sy'n cysylltu asedau SG â'i gilydd a chyda'r cefn gwlad o'u cwmpas. Yn y trefi eraill, mae'r rhwydwaith o asedau SG yn llawer mwy dameidiog ac nid oes llawer o gysylltiad â'r ardaloedd cyfagos. Mae hyn yn awgrymu bod angen greu rhwydweithiau SG hygyrch yn Aberteifi, Adpar, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan yn benodol, er bod gwelliannau arbennig hefyd yn cael eu hargymell ar gyfer y trefi eraill (gweler Pennod 6).
- 2.7.4. O ran cynefinoedd cyffredinol/Cam 1, adeiladau sy'n ffurfio'r mwyafrif o'r trefi, tra bo glaswelltir wedi'i wella yn ffurfio'r mwyafrif helaeth o'r arwynebedd tir o fewn y lleiniau clustogi 2km. Yr ardal o gynefin fwyaf nesaf ar gyfer y trefi (wedi'i lleoli'n bennaf o fewn y lleiniau clustogi) yw coetir lled-naturiol llydanddail – yn enwedig yn ardal Llandysul, Adpar, Aberystwyth, Aberteifi ac Aberaeron – er bod hyn yn dameidiog ar y cyfan. Mae nifer o'r trefi hefyd yn elwa o gynefinoedd arfordirol (Aberaeron,

---

agwedd ar hyfywedd y rhwydwaith ecolegol yw mesurau cysylltedd. Dylid nodi hefyd nad yw addasrwydd cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau o ran ardaloedd nythu, darpariaeth bwyd ac ati wedi'i asesu fel rhan o'r ymarfer hwn.

Aberteifi ac Aberystwyth) ac mae pob un yn elwa o gynefinoedd afonydd i ryw raddau (Aberteifi yn arbennig). Mae gan Dregaron ardal sylweddol o gors cors a morfa oddeutu 1km i'r gogledd. Ymhlith y cyfleoedd i wella mae cynyddu amrywiaeth y cynefinoedd o fewn ffiniau'r aneddiadau, cysylltu cynefinoedd coetir, a gwella peth o'r glaswelltir wedi'i wella gerllaw i fod yn laswelltir wedi'i led-wella neu heb ei wella mwy bioamrywiol.

- 2.7.5. Yn olaf, oherwydd darpariaeth eithaf helaeth o asedau ecolegol craidd, coridorau llinellog a cherrig sarn yng nghyffiniau pob un o'r trefi, mae'n ymddangos bod gan safleoedd gysylltiad gweddol dda â bywyd gwyllt.<sup>22</sup> Mae cysylltedd ar draws yr ardaloedd trefol yn llai amlwg, fodd bynnag, gyda'r bywyd gwyllt yn yr holl drefi yn debygol o elwa o gael coridorau llinellog ychwanegol (e.e. plannu coed, glaswelltir a reolir yn briodol).

---

<sup>22</sup> Sylwch, at ddibenion yr astudiaeth hon, gwnaethom asesu cysylltedd ecolegol ar sail agosrwydd ardaloedd manau gwyrdd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried nodweddion allweddol rhwydweithiau ecolegol fel y'u nodwyd yn 'Gwneud Lle i Fyd Natur'. Mae'r rhain yn cynnwys coridorau llinellog, ardaloedd craidd a cherrig sarn. Nid yw mesurau cysylltedd byth yn berffaith ar gyfer pob rhywogaeth gan fod y gallu i wasgaru a'u gofynion yn amrywio. Felly, dim ond mesur procsi ac un agwedd ar hyfywedd y rhwydwaith ecolegol yw mesurau cysylltedd. Dylid nodi hefyd nad yw addasrwydd cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau o ran ardaloedd nythu, darpariaeth bwyd ac ati wedi'i asesu fel rhan o'r ymarfer hwn.

## 3 YR ANGEN AM WASANAETHAU ECOSYSTEM A'U DARPARU

---

### 3.1 DULL GWEITHREDU

- 3.1.1. Fel arfer diffinnir gwasanaethau ecosystem fel "*y buddion y mae pobl yn eu cael o ecosystemau*" (td. 5)<sup>23</sup>, ac maent wedi'u categoreiddio i ddarparu gwasanaethau (megis darparu bwyd a phren), gwasanaethau rheoleiddio (megis puro aer, gwella gwres a gwanhau dŵr storm), gwasanaethau diwylliannol (megis harddwch esthetig a chyfleoedd ar gyfer hamdden), a gwasanaethau cefnogi (megis ailgylchu maethynnau a ffurfio pridd).<sup>24</sup>
- 3.1.2. Mae'r asedau a'r cynefinoedd SG a nodwyd ac a fapiwyd yn y bennod flaenorol wedi'u gwerthuso ar sail eu buddion swyddogaethol tebygol (h.y. darparu gwasanaethau ecosystem). Yn sail i'r asesiad ansoddol hwn mae llenyddiaeth academiaidd a llwyd berthnasol ar ddarparu gwasanaethau ecosystem gan SG a chynefinoedd cysylltiedig.
- 3.1.3. Bydd nodi buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd penodol prosiectau SG llwyddiannus presennol yng Ngheredigion hefyd yn helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth y gall cynllunwyr, cynghorwyr a datblygwyr ei deall a'i defnyddio. Felly mae'r bennod hon yn disgrifio nifer o astudiaethau achos llwyddiannus o bob rhan o'r Sir (gweler Adran 3.4).
- 3.1.4. Yn ogystal â nodi'r ddarpariaeth debygol o wasanaethau ecosystem o asedau a chynefinoedd ffisegol presennol yng Ngheredigion, mae'r angen am wasanaethau ecosystem yn y saith tref a'r Sir gyfan hefyd wedi'i nodi yn y bennod hon. Mae'n bwysig ystyried anghenion gwasanaeth ecosystem wrth gynllunio a rheoli SG mewn lleoliadau penodol. Er enghraifft, mae ardaloedd sy'n dioddef o berygl uchel o lifogydd dŵr arwyneb, ansawdd aer gwael, iechyd corfforol a meddyliol gwael trigolion, diffyg cyfleoedd hamdden, neu ddiffyg gwyrddni naturiol, ag angen arbennig am ddarpariaeth SG newydd neu well. Mae'r wybodaeth hon ar swyddogaeth SG yn aml heb ei chynnwys mewn asesiadau a strategaethau SG, ond mae'n darparu cyswllt pwysig i faterion mwy cyffredinol sydd o bwys i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan wneud SG yn fwy amlwg.

### 3.2 ASEDAU FFISEGOL

- 3.2.1. Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem debygol o'r asedau ffisegol a nodwyd ar gyfer Ceredigion a amlinellir yn Adran 2.3 i'w gweld yn Ffigur 3.1 isod. Mae'r asesiad ansoddol hwn yn seiliedig ar farn yr ymgynghorwyr a gafodd ei llywio gan y llenyddiaeth sydd ar gael<sup>25</sup>, wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Mae lefel y buddion posibl a ddarperir gan fathau gwahanol o asedau SG yn amrywio o ddarpariaeth ddibwys (**llwyd**) i ddarpariaeth bosibl (**oren**) i ddarpariaeth debygol (**gwyrdd**). Mae sylwebaeth yn ôl math o ased yn dilyn.

---

<sup>23</sup> MEA (2005) Millennium Ecosystem Assessment. Ecosystems and Human Well-being: Synthesis. Washington DC: Island Press.

<sup>24</sup> Sylwch fod 'gwasanaethau cefnogi' bellach yn cael eu hystyried yn brosesau a swyddogaethau yn hytrach na gwasanaethau: Haines-Young, R. and Potschin, M. (2018) Classification of Ecosystem Services (CICES) V5.1: Guidance on the Application of the Revised Structure, Nottingham: Fabis Consulting Ltd.

<sup>25</sup> Green Infrastructure Valuation Network (2011). Green Infrastructure Valuation Toolkit User Guide; Defra (2008) Case study to develop tools and methodologies to deliver an ecosystem-based – Thames Gateway Green Grids. NR0109; Davies, H., Doick, K., Handley, P., O'Brien, L., and Wilson, J. (2017). Delivery of ecosystem services by urban forests. Forestry Commission Research Report, FCRP026.

**Ffigur 3.1: Darpariaeth gwasanaeth ecosystem debygol gan asedau SG ffisegol Ceredigion**

	Cynhyrchu bwyd	Cynhyrchu pren	Cynhyrchu pysgod	Cyflenwad dŵr	Rheoleiddio llifogydd	Diogelu rhag erydu	Rheoleiddio ansawdd dŵr	Storio carbon	Rheoleiddio ansawdd aer	Oeri a chysgodi	Lleihau sŵn	Peillio	Rheoli plâu	Hamdden	Gwerth esthetig	Addysg	Rhyngweithio â natur	Ymdeimlad o le
Llwybrau hamdden llinellol											Yellow			Green	Yellow		Yellow	Green
Afonydd	Yellow		Green	Green	Yellow		Green							Green	Yellow		Green	Green
Parciau a gerddi cyhoeddus	Yellow	Yellow		Yellow	Green	Green	Yellow	Green	Green	Green	Yellow	Green	Yellow	Green	Yellow	Yellow	Green	Green
Mannau chwarae/meysydd chwaraeon					Green	Green	Yellow	Green	Yellow					Green	Yellow		Yellow	Green
Tiroedd ysgol/sefydliadol	Yellow			Yellow	Green	Yellow	Yellow	Green	Green	Green	Green	Yellow	Yellow	Green	Yellow		Green	Green
Rhandiroedd	Green			Yellow	Green	Yellow	Yellow	Green	Yellow	Yellow		Green		Green	Yellow		Green	Green
Toeau/waliau gwyrdd					Green			Green	Green	Green		Green	Yellow	Yellow	Green	Yellow	Yellow	Green
Meysydd pentref				Yellow	Green		Yellow	Yellow	Yellow					Green	Yellow		Yellow	Green
Mynwentydd					Green	Yellow	Yellow	Yellow	Yellow					Yellow	Green	Yellow	Yellow	Green
Safleoedd mynediad i goedwigoedd		Yellow		Yellow			Green	Green	Green	Green		Yellow	Yellow	Green	Yellow		Yellow	Green
Gorchudd coed trefol		Yellow		Yellow	Green		Yellow	Green	Green	Green		Yellow	Yellow	Yellow	Green	Yellow	Yellow	Green
Dŵr ymdrochi/traethau			Yellow	Yellow		Green								Green	Yellow		Green	Green
Llynnoedd			Green	Green												Yellow		Green
Gwarchodfeydd Natur Lleol	Yellow	Yellow		Yellow	Green	Green	Green	Green	Green	Yellow	Yellow	Green	Green	Green	Green		Green	Green
Safleoedd sy'n bodloni meini prawf SBCN	Yellow	Yellow		Yellow	Green	Green	Green	Green	Green	Yellow	Yellow	Green	Green	Green	Green		Green	Green

### Llwybrau hamdden llinelllog

- 3.2.2. Mae llwybrau hamdden llinelllog megis llwybrau teithio llesol, llwybrau beicio a llwybrau troed yn darparu gwasanaethau diwylliannol pwysig, sydd o fudd i lesiant y rhai sy'n eu defnyddio. Dangoswyd bod gan llwybrau o'r fath fuddion economaidd sylweddol yn ymwneud â'r arbedion cost sy'n cronni o'r effeithiau cadarnhaol ar y systemau rhostir a thrafnidiaeth.<sup>26</sup> Nodwedd bwysig arall o'r llwybrau hamdden llinelllog yw'r cysylltedd y maent yn ei ddarparu i asedau SG eraill, gan eu bod yn cynnig modd mwynhau buddion asedau SG eraill.
- 3.2.3. Mae llwybrau'r arfordir yn arbennig o bwysig yma gan eu bod yn cysylltu trigolion trefi arfordirol ac ymwelwyr â'r ardal glan môr sy'n darparu gwerthoedd diwylliannol sylweddol megis gwerthoedd esthetig ac ymdeimlad o le, ond maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i gysylltu â natur ac ar gyfer addysg awyr agored. Mae'r rhannau o'r arfordir treftadaeth yn debygol o ddarparu buddion ac ymdeimlad o le mawr iawn.

### Afonydd

- 3.2.4. Mae gan afonydd y potensial i ddarparu'r ystod gyfan o wasanaethau ecosystem (darparu, rheoleiddio, diwylliannol a chefnogi). Mae enghreifftiau yn cynnwys darpariaeth dŵr croyw, rheoli llygredd, rheoleiddio llifogydd a bioamrywiaeth. Mae'r cysylltedd y maent yn ei ddarparu ar gyfer bywyd gwyllt i gynefinoedd eraill ac asedau SG yn arbennig o werthfawr, gan ganiatáu'r llif o adnoddau, organebau a phrosesau naturiol hanfodol.
- 3.2.5. Yn dibynnu ar y math o afon a'i hygyrchedd, gellid darparu gwasanaethau diwylliannol hefyd, gyda'r hygyrchedd uwch yn arwain at fwy o fuddion. Mae'r gwasanaethau diwylliannol y gallai afonydd â mynediad cyhoeddus eu cynnig yn cynnwys gwerth esthetig, gwerth ysbrydol, ecodwristiaeth, ymdeimlad o le, a chyfleoedd hamdden (h.y. pysgota, cerdded, nofio). At hynny, mae afonydd yn darparu cyfle ar gyfer addysg – dysgu o'r amgylchedd dŵr croyw.

### Parciau a gerddi cyhoeddus

- 3.2.6. Yn dibynnu ar sut y cânt eu rheoli, gall parciau a gerddi cyhoeddus ddarparu ystod eang o wasanaethau ecosystem, yn enwedig o fewn ardaloedd trefol lle mae galw mawr amdanynt. Mae'r gwasanaethau allweddol a ddarperir yn cynnwys oeri a chysgodi, gwella ansawdd aer, rheoleiddio llifogydd a lleihau sŵn, ond hefyd ar raddfa ehangach storio carbon a rheoleiddio ansawdd dŵr.<sup>27</sup> Pan gânt eu rheoli ar gyfer bywyd gwyllt, gall parciau a gerddi cyhoeddus hefyd sicrhau gwerth mawr trwy'r buddion bioamrywiaeth a pheillio y maent yn eu darparu.
- 3.2.7. Mae parciau a gerddi cyhoeddus hefyd yn asedau SG pwysig ar gyfer darparu gwasanaethau diwylliannol.<sup>28</sup> Yn enwedig yn y cyd-destun trefol lle mae mannau gwyrdd yn llai niferus, maent yn darparu cyfleoedd hamdden ac yn gwneud cyfraniadau sylweddol at estheteg yr ardal ac ymdeimlad o le. Pan gaiff parciau a gerddi eu rheoli er budd bioamrywiaeth, gallant hefyd darparu cyfle i bobl ryngweithio â natur.

<sup>26</sup> Yr Adran Drafndiaeth (2014). Claiming the Health Dividend: A summary and discussion of the value for money estimates from studies of investment in walking and cycling. Available at:

<https://www.gov.uk/government/publications/economic-case-for-active-travel-the-health-benefits>

<sup>27</sup> Wentworth, J. (2017). Urban Green Infrastructure and Ecosystem Services. POSTbrief. Parliamentary Office of Science and Technology.

<sup>28</sup> Rall, E., Bieling, C., Zytynska, S. and Haase, D., (2017). Exploring city-wide patterns of cultural ecosystem service perceptions and use. *Ecological Indicators*, 77, pp.80-95.

### Mannau chwarae/meysydd chwaraeon

- 3.2.8. Mae gan fannau chwarae a meysydd chwaraeon fuddion amlwg ar gyfer hamdden trwy ddarparu lle i gael hwyl a chwarae gemau. Mae gan leoedd o'r fath werth addysgol hefyd oherwydd gallant gynyddu ymgysylltiad plant â'r amgylchedd naturiol, rhywbeth y gwyddys bod iddo amrywiaeth o fuddion datblygiadol a ffisegol ac iechyd meddwl.<sup>29</sup> Mae manau chwarae a meysydd chwaraeon yn darparu gwasanaethau rheoleiddio i raddau llai, fodd bynnag, ac yn dibynnu i raddau ar faint o laswellt wedi'i dorri sydd, a all gynnal rhywfaint o wanhau dŵr, yn hytrach nag arwyneb artiffisial nad yw fel rheol yn gwneud hynny.

### Tiroedd ysgol/sefydliadol

- 3.2.9. Gall tir ysgolion a sefydliadau eraill fel prifysgolion neu lyfrgelloedd ddarparu gwasanaethau rheoleiddio, megis rheoleiddio llifogydd ac, os ydynt yn goediog, storio carbon, oeri a chysgodi a lleihau sŵn. Gall seiliau o'r fath hefyd wella amwynder gweledol y gofod a chael effeithiau cadarnhaol ar lesiant meddyliol a pherfformiad academaidd o bosibl.<sup>30</sup>
- 3.2.10. Gan eu bod yn gysylltiedig â lleoedd dysgu, mae gan yr asedau hyn werth addysgol posibl hefyd.<sup>31</sup> Er enghraifft, 'gall ystafelloedd dosbarth awyr agored'<sup>32</sup> greu lleoedd i fyfyrwyr ddysgu am fyd natur a rhyngweithio ag ef.

### Rhandiroedd

- 3.2.11. Y prif wasanaethau ecosystem a ddarperir gan randiroedd yw cynhyrchu bwyd a'r buddion iechyd a llesiant y mae'r rhai sy'n eu defnyddio yn eu mwynhau. Fodd bynnag, mae rhandiroedd yn darparu nifer o wasanaethau ychwanegol sy'n deillio o'r buddion y maent yn eu rhoi i infertebratau, sef peillio a rheoli rhywogaethau plâu. Mae rhandiroedd hefyd yn cyfrannu at fioamrywiaeth yr amgylchedd trefol<sup>33</sup>.

### Toeau/waliau gwyrdd

- 3.2.12. Mae toeau/waliau gwyrdd yn ffyrdd o gyflwyno manau gwyrdd i'r amgylchedd adeiledig a gallant ddarparu nifer o wasanaethau ecosystem, gwasanaethau rheoleiddio yn bennaf. Mewn cyd-destun trefol, mae toeau a waliau gwyrdd mewn sefyllfa hynod o dda i ddarparu oeri a chysgodi i'r adeiladau y maent yn eu gorchuddio, lleihau dŵr ffo arwyneb a chael gwared ar lygredd aer<sup>34</sup>. Yn ogystal â'r gwasanaethau rheoleiddio y maent yn eu darparu, gall toeau a waliau gwyrdd feddalu'r amgylchedd adeiledig, gan gynyddu ei werth esthetig a helpu i sefydlu ymdeimlad o le. Ceir toeau gwyrdd ym Mwlch Nant yr Arian ger Aberystwyth, Parc Busnes Aberporth ac ar Gampws Gogerddan Prifysgol Aberystwyth. Mae gan yr olaf waliau gwyrdd hefyd.

<sup>29</sup> Wooley, H., Pattacini, L. & Somerset-Ward, A. (2009). Children and the natural environment: experiences, influences and interventions – Summary. Natural England Commissioned Reports, Number 026.

<sup>30</sup> Matsuoka, R. H. (2010). Student performance and high school landscapes: Examining the links. *Landscape and urban planning*, 97(4), 273-282.

<sup>31</sup> Jansson, M. (2014). Green space in compact cities: the benefits and values of urban ecosystem services in planning. *Nordic Journal of Architectural Research*, 26(2).

<sup>32</sup> Wedi'i greu o bosibl mewn cydweithrediad â grwpiau bywyd gwyllt lleol e.e. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru: <https://www.welshwildlife.org/things-to-do-for-teachers-and-home-educators/outdoor-classrooms/>

<sup>33</sup> Speak, A. F., Mizgajski, A., & Borysiak, J. (2015). Allotment gardens and parks: provision of ecosystem services with an emphasis on biodiversity. *Urban Forestry & Urban Greening*, 14(4), 772-781.

<sup>34</sup> Hop, M. E. C. M., & Hiemstra, J. A. (2012, July). Contribution of green roofs and green walls to ecosystem services of urban green. In II International Symposium on Woody Ornamentals of the Temperate Zone 990 (pp. 475-480).

### Meysydd pentref

- 3.2.13. Fel canolbwynt i lawer o aneddiadau, mae meysydd pentref yn darparu llu o wasanaethau diwylliannol. Pwysig ymhlith y rhain yw'r cyfleoedd hamdden y maent yn eu cynnig (e.e. chwaraeon a hamdden). Trwy ddarparu cyfeiriad at y gorffennol, yn ogystal â lle ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gall meysydd pentref gyfrannu'n sylweddol at gymeriad yr anheddiad a'r ymdeimlad o le.

### Mynwentydd

- 3.2.14. Mae mynwentydd yn darparu lle tawel i fyfrio a chysylltu ag anwyliaid a'r gorffennol. O ganlyniad, maent yn bwysig ar gyfer darparu gwasanaethau ecosystem diwylliannol. Mae mynwentydd â llystyfiant da hefyd yn darparu gwasanaethau rheoleiddio, megis rheoleiddio llifogydd, a gallant helpu i gefnogi bioamrywiaeth. Gall rheoli mynwentydd i gynnwys safleoedd claddu naturiol sy'n fwyfwy poblogaidd wella'r ddarpariaeth o wasanaethau o'r fath trwy wella maint ac ansawdd y cynefin sy'n bresennol.<sup>35</sup>

### Safleoedd mynediad i goedwigoedd

- 3.2.15. Mae safleoedd coedwigoedd sydd wedi'u dynodi at ddibenion hamdden yn darparu ystod o wasanaethau diwylliannol gan gynnwys cydlyniant cymunedol, buddion iechyd corfforol a meddyliol a llesiant, ac amwynder gweledol. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau rheoleiddio sy'n gyffredin i safleoedd coediog eraill, megis gwella ansawdd aer, rheoleiddio hinsawdd lleol, dal a storio carbon, a rheoleiddio llifogydd.

### Gorchudd coed trefol

- 3.2.16. Mae coed unigol mewn ardaloedd trefol yn darparu buddion megis dal a storio carbon,<sup>36</sup> mwy o fioamrywiaeth drefol, a rheoleiddio ansawdd dŵr a llifogydd yn well. Mae ymchwil yn dangos y gall coed stryd "reoleiddio tymereddau arwyneb ac aer lleol trwy adlewyrchu ymbelydredd solar a chysgodi arwynebau fel strydoedd a phalmentydd a fyddai fel arall yn amsugno gwres" (td. 181)<sup>37</sup> gan felly gwrthweithio'r effaith ynys gwres trefol.<sup>38</sup> Yn fwyaf pwysig, mae coed trefol (yn enwedig y rhai ar hyd strydoedd) hefyd yn cyfrannu at iechyd a llesiant pobl trwy ddarparu cysylltiadau â byd natur, lleihau straen ac iselder ysbryd, ac annog pobl i gerdded neu feicio.<sup>39</sup>

### Dŵr ymdrochi/traethau

- 3.2.17. Mae dŵr ymdrochi a thraethau dynodedig yn darparu buddion diwylliannol sylweddol trwy gyfleoedd hamdden, gwella'r dirwedd weledol a chyfrannu at yr ymdeimlad o le. Maent hefyd yn cynnig ardaloedd cysylltu ag ardaloedd glan môr sy'n bwysig yn ddiwylliannol. Yn nhermau bioffisegol, mae

---

<sup>35</sup> Clayden, A., Green, T., Hockey, J., & Powell, M. (2018). Cutting the lawn– Natural burial and its contribution to the delivery of ecosystem services in urban cemeteries. *Urban forestry & urban greening*, 33, 99-106.

<sup>36</sup> Birdsey, R. A. (1992). Carbon storage and accumulation in United States forest ecosystems. Washington, DC: U.S. Department of Agriculture, Forest Service.

<sup>37</sup> Gómez-Baggethun, Erik & Gren, Åsa & Barton, David & Langemeyer, Johannes & McPhearson, Timon & O'Farrell, Patrick & Andersson, Erik & Hamstead, Zoe & Kremer, Peleg. (2013). Urban Ecosystem Services. 10.1007/978-94-007-7088-1\_11.

<sup>38</sup> Doick, K. and Hutchings, T. (2013) Air temperature regulation by urban trees and green infrastructure. Forestry Commission.

<sup>39</sup> Davies, H., Doick, K., Handley, P., O'Brien, L., and Wilson, J. (2017) *Delivery of ecosystem services by urban forests. Forestry Commission Research Report FCRP026*. Edinburgh: Forestry Commission, i-iv + 1–28pp.

traethau hefyd yn darparu gwasanaethau rheoleiddio sylweddol. Efallai mai'r pwysicaf o'r rhain yw'r amddiffyniad y maent yn ei gynnig rhag llifogydd arfordirol.<sup>40</sup>

#### Llynnoedd

- 3.2.18. Mae llynnoedd yn darparu nifer fawr o fuddion ar draws yr ystod gyfan o wasanaethau ecosystem<sup>41</sup>. O ran darparu gwasanaethau, mae llynnoedd yn cyfrannu at ddarparu dŵr croyw yn ogystal â chynhyrchu pysgod. Trwy weithredu fel storfa o ddŵr ymchwydd, gall llynnoedd helpu i reoleiddio llifogydd a lleihau erydiad. Yn ogystal, mae llynnoedd yn nodwedd dirwedd ddeniadol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau diwylliannol gan gynnwys cyfleoedd hamdden (e.e. pysgota, cerdded, defnyddio cychod), gwerth esthetig ac ymdeimlad o le.

#### Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Bywyd Gwyllt a Reolir

- 3.2.19. O ystyried presenoldeb tebygol cynefin naturiol neu led-naturiol, bydd GNLI a Safleoedd Bywyd Gwyllt yn darparu lluo o wasanaethau rheoleiddio. Gan fod y cynefinoedd sy'n bresennol ar y safleoedd hyn yn amrywio, felly hefyd y mae'r gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu. Er enghraifft, bydd coetir yn darparu buddion dal a storio carbon sylweddol tra bydd dŵl blodau gwyllt yn gwella peillio trwy ddarparu cynefin pwysig i beillwyr. Fodd bynnag, mae pob un yn debygol o wella ansawdd dŵr a rheoleiddio llifogydd trwy wanhau dŵr storm. Os ydynt wedi'u lleoli ger ardaloedd trefol, efallai y bydd ganddynt hefyd y potensial i ddarparu oeri a chysgodi, yn ogystal â buddion lleihau sŵn.
- 3.2.20. Yn wyneb eu hygyrchedd, mae GNLI a Safleoedd Bywyd Gwyllt yn darparu amrywiaeth o wasanaethau diwylliannol gyda chyfleoedd ystyriol ar gyfer hamdden a hefyd cyfle i ryngweithio â byd natur. Yn ogystal â harddwch naturiol a gwerth ecolegol, gellir seilio dynodiad ar werth treftadaeth safle. O ganlyniad gall GNLI gyfrannu at werth esthetig ardal a'r ymdeimlad o le.

#### Safleoedd sy'n bodloni meini prawf SBCN

- 3.2.21. Yn yr un modd â GNLI a Safleoedd Bywyd Gwyllt, mae SBCN (gan gynnwys safleoedd sy'n bodloni meini prawf o'r fath) yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem sydd, yn rhannol, yn dibynnu ar y cynefinoedd sy'n bresennol. Yn dibynnu ar eu hygyrchedd i bobl, gallant hefyd ddarparu lluo o wasanaethau diwylliannol.

## 3.3 CYNEFINOEDD

Mae'r adran hon yn disgrifio darpariaeth gwasanaeth ecosystem debygol y cynefinoedd cyffredinol a nodwyd ym mhennod 2, gyda chrynodeb yn Ffigur 3.2. Mae lefel y buddion posibl a ddarperir gan y mathau gwahanol o asedau SG yn amrywio o ddarpariaeth ddibwys (llwyd) i ddarpariaeth bosibl (oren) i ddarpariaeth debygol (gwyrdd).

<sup>40</sup> UK National Ecosystem Assessment (2011) The UK National Ecosystem Assessment: Synthesis of the Key Findings. UNEP-WCMC, Cambridge.

<sup>41</sup> Reynaud, A., & Lanza, D. (2017). A global meta-analysis of the value of ecosystem services provided by lakes. Ecological Economics, 137, 184-194.



**Ffigur 3.2: Darpariaeth gwasanaeth ecosystem debygol gan gynefinoedd cyffredinol Ceredigion**

	Cynhyrchu bwyd	Cynhyrchu pren	Cynhyrchu pysgod	Cyflenwad dŵr	Rheoleiddio llifogydd	Diogelu rhag erydu	Rheoleiddio ansawdd dŵr	Storio carbon	Rheoleiddio ansawdd aer	Oeri a chysgodi	Lleihau sŵn	Peillio	Rheoli plâu	Hamdden	Gwerth esthetig	Addysg	Rhyngweithio â natur	Ymdeimlad o le
Coetir	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Glaswelltir	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Perlysiâu a rhedyn tal	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Rhostir	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Mignenni a gwerydd	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Cynefinoedd dŵr agored	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Cynefinoedd arfordirol	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Tir ffermio	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Glaswelltir amwynder	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■
Gwrychoedd	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■	■

### Coetir

- 3.3.1. Mae coetir yn darparu ystod o fuddion gwasanaeth ecosystem gan gynnwys lleddfu llifogydd<sup>42</sup>, gwella ansawdd dŵr trwy hidlo llygryddion<sup>43</sup> a gwella cadw gwaddodion,<sup>44</sup> lleddfu newid hinsawdd,<sup>45</sup> adfywio tir (trwy ddadheintio tir),<sup>46</sup> cynhyrchu ocsigen a gwella ansawdd aer.<sup>47</sup> Mae hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau diwylliannol gan gynnwys amwynder gweledol,<sup>48</sup> cadwraeth treftadaeth, hamdden,<sup>49</sup> iechyd a llesiant a lleihau sŵn.

### Glaswelltir

- 3.3.2. Mae glaswelltiroedd lled-naturiol yn darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys rhywogaethau planhigion amrywiol, storio a dal carbon, cynhyrchu biomas ar gyfer anifeiliaid sy'n pori, lleihau llifogydd, cynefin ar gyfer adar mudol a bridio, cynefin gwerthfawr ar gyfer peillwyr, ymdreiddiad, puro a storio dŵr, atal erydu a hamdden.<sup>50</sup>

### Perlyisiau a rhedyn tal

- 3.3.3. Mae perlyisiau a rhedyn tal yn gynefin cyffredin sydd i'w gael mewn ardaloedd trefol (megis ar hyd ymylon rheilffyrdd) ac mewn ardaloedd gwledig. Gall fod yn gynefin gwerthfawr ar gyfer adar a phryfed sy'n twrio yn agored, ynghyd â darparu cysgod ar gyfer bywyd gwylt. O ganlyniad, mae'n darparu gwasanaethau gan gynnwys peillio a bioamrywiaeth well.<sup>51</sup>

### Rhostir

- 3.3.4. Mae rhostir yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem, er y dylid nodi mai dim ond ardaloedd bach o rhostir sydd yng Ngheredigion. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys darparu mawn a helgig, rheoleiddio hinsawdd (mae storio carbon mewn planhigion rhostir a mawn yn lleddfu newid hinsawdd), peillio a lleihau'r perygl o lifogydd (bydd llystyfiant a geir ar rhostir yn arafu llif y dŵr ac felly'n lleihau'r perygl o lifogydd). Yn olaf, mae rhostir hefyd yn darparu profiadau hamdden a chyfluoedd addysgol posibl hefyd sy'n gysylltiedig â phwysigrwydd diwylliannol, hanesyddol ac archeolegol rhostir.<sup>52</sup>

<sup>42</sup> Nisbet, T.R., Orr, H. and Broadmeadow, S. (2004). A guide to using woodland for sediment control. Forest Research, Farnham.

<sup>43</sup> Stovin, V.R., Jorgensen, A. and Clayden, A. (2008). Street trees and stormwater management. The Arboricultural Journal 30, 1–4.

<sup>44</sup> Jeffries R., Darby, S.E. and Sear, D. A. (2003). The influence of vegetation and organic debris on flood-plain sediment dynamics: case study of a low-order stream in the New Forest, England. Geomorphology 51, 61–80.

<sup>45</sup> Potchter, O., Cohen, P. and Britan, A. (2006). Climatic behavior of various urban parks during hot and humid summer in the Mediterranean city of Tel Aviv, Israel. International Journal of Climatology 26 (12), 1695–1711.

<sup>46</sup> Hutchings, T. (2002). The opportunities for woodland on contaminated land. Information Note 44. Forestry Commission, Edinburgh.

<sup>47</sup> Willis, K. G., Garrod, G. Scarpa, R., Powe, N., Lovett, A., Bateman, I. J., Hanley, N. and Macmillan, D. C. (2003). The Social and Environmental Benefits of Forests in Great Britain. Report to Forestry Commission, Edinburgh. Centre for Environmental Appraisal and Management, University of Newcastle upon Tyne.

<sup>48</sup> Garrod, G.D. (2002). Social and environmental benefits of forestry phase 2: landscape benefits. Report to the Forestry Commission. Centre for Research in Environmental Appraisal and Management, University of Newcastle upon Tyne.

<sup>49</sup> Giles-Corti, Billie, Melissa H. Broomhall, Matthew Knuiaman, Catherine Collins, Kate Douglas, Kevin Ng, Andrea Lange, and Robert J. Donovan (2005). Increasing walking: how important is distance to, attractiveness, and size of public open space. American Journal of Preventative Medicine 28 (2S2), 169-176.

<sup>50</sup> Villoslad Pecina, M. & Ward, R (2019) Country-scale mapping of ecosystem services provided by semi-natural grasslands Science of The Total Environment Volume 661, 15 April 2019, Pages 212-225

<sup>51</sup> Woźniak, G., Sierka, E., & Wheeler, A. (2018). *Urban and industrial habitats: how important they are for ecosystem services* (pp. 169-193). IntechOpen.

<sup>52</sup> <https://www.escrick.com/DB/blog/why-heathland-is-important-to-the-environment-the->

### Mignenni a gwernydd

- 3.3.5. Mae mignenni yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem gan gynnwys rheoleiddio hinsawdd trwy dal a storio carbon, ailgylchu maethynnau, rheoleiddio llifogydd, darparu dŵr croyw, darparu mawn, a lleddfu'r perygl o lifogydd. Mae corsydd yn gynefin sy'n bwysig yn ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth.<sup>53</sup> Fel cynefinoedd eraill sy'n brin yng nghyd-destun y DU, mae mignenni yn cynnig gwasanaethau diwylliannol fel hamdden, addysg, rhyngweithio â natur a chadwraeth treftadaeth.

### Cynefinoedd dŵr agored

- 3.3.6. Mae gan gynefinoedd dŵr agored megis pyllau naturiol ac afonydd y potensial i ddarparu gwasanaethau megis darpariaeth dŵr croyw, rheoli llygredd dŵr, rheoleiddio llifogydd a bioamrywiaeth. Mae afonydd a nentydd yn arbennig o bwysig ar gyfer cysylltu cynefinoedd ac asedau SG. Maent yn gweithredu fel 'ffyrdd' sy'n cludo dŵr, organebau a nwyon a maetholion pwysig i lawer o ardaloedd,<sup>54</sup> sy'n gwasanaethu bioamrywiaeth a bywyd gwyllt.
- 3.3.7. Yn dibynnu ar y math o gorff dŵr a'i hygyrchedd, gellid darparu gwasanaethau diwylliannol hefyd (h.y. bydd ffos fach yn darparu graddau gwahanol o wasanaethau diwylliannol i afon neu lyn mawr sy'n hygyrch i'r cyhoedd). Mae'r gwasanaethau diwylliannol y gellid eu cynnig gan gynefinoedd dŵr agored yn cynnwys gwerth esthetig, gwerth ysbrydol, ecodwristiaeth, ymdeimlad o le a chyfleoedd hamdden (h.y. pysgota, cerdded, nofio). Yn y rhan fwyaf o achosion byddai mynediad cyhoeddus i'r afon, megis trwy lwybrau glan afon, yn ofynnol er mwyn gallu elwa o'r gwasanaethau hyn.

### Cynefinoedd arfordirol

- 3.3.8. Mae cynefinoedd arfordirol yn ardaloedd pwysig i bobl a bywyd gwyllt. Pan fyddant yn hygyrch maent yn cysylltu pobl ag Arfordir Ceredigion ac felly'n cynnig amrywiaeth o fuddion diwylliannol sylweddol gan gynnwys estheteg, ymdeimlad o le, hamdden, rhyngweithio â bywyd gwyllt ac addysg. Mae gweithgareddau hamdden hefyd yn cyfrannu at iechyd corfforol, yn enwedig pan fydd cynefinoedd arfordirol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer nofio. Yn ogystal, mae cynefinoedd arfordirol yn darparu bwyd (h.y. pysgod cregyn o gynefinoedd rhynglanwol megis cregyn gleision), amddiffyn rhag stormydd a thonnau ac ecodwristiaeth.
- 3.3.9. Mae morfeydd heli yn arbennig yn darparu gofod hamdden, bwyd a chynefin ar gyfer rhywogaethau a warchodir megis adar.<sup>55</sup> Mae morfeydd heli yn amddiffyn ardaloedd glan môr rhag llifogydd ac erydiad trwy amsugno tonnau a chloi'r priddoedd mewn rhwyd-wreiddiau planhigion.

### Tir ffermio

- 3.3.10. Mae tir ffermio yn darparu gwasanaeth ecosystem pwysig; mae'n tyfu'r bwyd y mae'r boblogaeth yn ei fwyta. Gwasanaethau ecosystem eraill a ddarperir o bosibl gan dir fferm yw peillio, rheoli plâu a bioamrywiaeth, er bod hyn yn dibynnu ar amrywiaeth a rheolaeth y tir ffermio, e.e. gwyddys bod pori ar yr ucheldir cymysg yn fuddiol ar gyfer bioamrywiaeth.<sup>56</sup> (Ychydig o dir â'r sydd gan Geredigion). Gall tir ffermio fod yn gynefin pwysig ar gyfer rhywogaethau ada, bydd gadael sofr wedi'i aeafu

<sup>53</sup> Defra (No date), Ecosystem services of peat – Phase 1 Project code: SP0572

<sup>54</sup> NatureWorks (2020) Rivers and Streams. Available at:<https://nhpbs.org/natureworks/nwep7j.htm>

<sup>55</sup> UK Centre for Ecology and Hydrology (2016) Valuing our coastal ecosystem services. Available at:<https://www.ceh.ac.uk/our-science/projects/coastal-ecosystem-services>.

<sup>56</sup> Fraser, M.D., Moorby, J.M., Vale, J.E., & Evans, D.M. (2014). Mixed grazing systems benefit both upland biodiversity and livestock production. PLoS One, 9(2), [e89054]. <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0089054>

mewn caeau yn darparu ffynhonnell bwysig o fwyd i helpu i gynnal adar.<sup>57</sup> Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o dir ffermio megis glaswelltir wedi'i wella ar gyfer silwair yn darparu llawer o werth o ran darparu gwasanaethau ecosystem bioamrywiaeth ar wahân i ddarparu bwyd.

- 3.3.11. Mae ymylon caeau â'r sydd i'w cael ar ffiniau tir ffermio yn bwysig os cânt eu rheoli ar gyfer bywyd gwyllt, nid yn unig o ran y fioamrywiaeth sydd yno ond hefyd ar gyfer cysylltedd ehangach cynefinoedd. Yn dibynnu ar lefel y mynediad cyhoeddus, mae gan dir ffermio hefyd y potensial i ddarparu cyfoeth o wasanaethau diwylliannol trwy ddarparu rhwydweithiau HTC, cyfleusterau gwersylla a charafanau, gwyliau cerdd, a digwyddiadau eraill megis rasys rhuthro, digwyddiadau aredig a threialon cŵn defaid.

#### Glaswelltir amwynder

- 3.3.12. Mae cynefinoedd glaswelltir amwynder megis parciau a gerddi yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem a buddion bioamrywiaeth<sup>58</sup> er eu bod i'w cael mewn lleoliadau trefol fel arfer. Gall hyd yn oed darnau bach fod yn 'gerrig sarn' a bod o fudd i symudiad rhywfaint o fywyd gwyllt. Mae cylchfannau ac ymylon ffyrdd a reolir yn dda yn cynnal amrywiaeth eang o blanhigion a phryfed, yn enwedig os nad ydynt yn cael eu torri'n rhy ddwys ac yn cael eu plannu â choed addas.<sup>59</sup> Yn hanfodol, gwelwyd bod y mamaliaid trefol a welir mewn gerddi yn cynyddu pan fydd asedau SG ar gael gerllaw<sup>60</sup> sy'n amlygu pwysigrwydd lleoli SG yn strategol er mwyn brwydro yn erbyn yr argyfwng ecolegol.

- 3.3.13. Gall glaswelltir amwynder hefyd ddarparu gwasanaethau rheoleiddio megis gwanhau dŵr a rheoleiddio hinsawdd.<sup>61</sup> Fodd bynnag, mae lleoedd glaswelltir amwynder yn well o ran darparu gwasanaethau diwylliannol megis cyfleoedd hamdden (yn enwedig unrhyw fannau a nodir fel mannau chwarae ar y mapiau yn Atodiad B), ymdeimlad o le, a chydlyniant cymunedol.<sup>62</sup>

#### Gwrychoedd

- 3.3.14. Mae gwrychoedd cyflawn mewn lleoliadau trefol yn cynnig llawer o'r un buddion â choed trefol yn enwedig o ran buddion ansawdd aer, lleihau sŵn a chysgodi. Yn wir, canfuwyd bod gwrychoedd ar ochr y ffordd yn fwy buddiol na choed stryd o ran mynd i'r afael â llygredd aer sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth (yn enwedig mewn hafnau stryd lle mae coed yn anaddas) gan eu bod yn gallu gwro llygryddion aer.<sup>63</sup> Mewn amgylcheddau gwledig, mae buddion ychwanegol gwrychoedd yn cynnwys gallu storio carbon yn well o fewn y pridd o dan ac o amgylch y gwrych, ac ansawdd pridd a dŵr

---

<sup>57</sup> RSPB (2019), Managing habitats for wildlife: Over-wintered stubbles. Available at: <https://www.rspb.org.uk/our-work/conservation/conservation-and-sustainability/farming/advice/managing-habitats/over-wintered-stubbles/>

<sup>58</sup> Rudd, H., Vala, J. and Schaefer, V. (2002). Importance of backyard habitat in a comprehensive biodiversity conservation strategy: a connectivity analysis of urban green spaces. *Restoration Ecology* 10 (2), 368–375.

<sup>59</sup> Helden, A.J. and Leather, S.R. (2004). Biodiversity on urban roundabouts – Hemiptera, management and the species-area relationship. *Basic and Applied Ecology* 5, 367-377.

<sup>60</sup> Baker, P.J. and Harris, S. (2007). Urban mammals: what does the future hold? An analysis of the factors affecting patterns of use of residential gardens in Great Britain. *Mammal Review* 37 (4), 297–315.

<sup>61</sup> Yu, C. and Hien, W.N. (2006). Thermal benefits of city parks. *Energy and Buildings* 38, 105–120.

<sup>62</sup> Cohen, D. A., Inagami, S. and Finch, B. (2008). The built environment and collective efficacy. *Health & Place* 14, 198–208.

<sup>63</sup> Christof G., Nabaraj J. and Bodo R. (2016) Influence of roadside hedgerows on air quality in urban street canyons, *Atmospheric Environment* 139: 75-86; Abhijith, K.V. and Kumar, P. (2019) Field investigations for evaluating green infrastructure effects on air quality in open-road conditions. *Atmospheric Environment* 201: 132-147.

gwell.<sup>64</sup> Canfuwyd hefyd bod gorchudd uchel o wrychoedd yn y dirwedd yn gwella rheoli plâu a pheillio.<sup>65</sup>

### 3.4 SAFLEOEDD ASTUDIAETH ACHOS

3.4.1. Mae gan yr asedau SG canlynol enghreifftiau anecdotaidd o amrywiaeth o wasanaethau ecosystem a buddion cysylltiedig:

- Mae Rhandiroedd Cae Ffynnon Win wedi'u lleoli ar hyd afon Aeron, afon brydferth sydd â llwybr cerdded glan afon. Ffurfiwyd y Gymdeithas Rhandiroedd oddeutu wyth mlynedd yn ôl gan y chwe aelod sefydlol a'u teuluoedd. O ganlyn i waith caled a mentergarwch yr unigolion hyn, cafodd llawer o ddiddordeb ei ennyn ymysg partïon allanol oedd am gael llain eu hunain. Cafwyd tir ychwanegol gan CSC o dan drwydded ar gyfer tyfu ffrwythau, llysiau a blodau, ac erbyn hyn mae dau ar bymtheg o leiniau ar gael i'w defnyddio. Mae'r rhandiroedd yn gyfle gwych i gwrdd â phobl a rhyngweithio'n 'ymarferol' â byd natur. Budd mwyaf amlwg y rhandiroedd yw tyfu bwyd i'w fwyta'n bersonol, ond mae'r buddion hamdden ac iechyd yn debygol o fod yn llawer mwy na gwerth cynhyrchu bwyd. Mae'r rhandiroedd hefyd yn darparu lle diddorol, amlweddog, gwyrdd a hanfodol i ddefnyddwyr a cherddwyr ar y llwybr wrth ei ymyl.
- Mae Llwybr Arfordir Ceredigion yn ganolbwynt i drigolion ac ymwelwyr fwynhau arfordir Ceredigion gan ei fod yn cysylltu'r trefi a'r pentrefi ar hyd Bae Ceredigion. Roedd prosiect Llwybr Arfordir Ceredigion, a ariannwyd gan yr UE, a gwblhawyd yn 2008 yn cysylltu HTC datgysylltiedig presennol â Llwybr parhaus sy'n ymestyn 96km o'r Teifi i'r Dyfi. Mae gan lwybr yr arfordir lwybrau o safonau hygrychedd gwahanol. Er enghraifft, mae gan ran o'r llwybr rhwng Aberporth a Thresaith lwybr arwyneb caled poblogaidd tu hwnt wedi'i adeiladu i safonau graddiant cadair olwyn gyda chownteri llwybr yn cofnodi dros 90,000 o ddefnyddwyr yn 2019. Mae Llwybr Arfordir Ceredigion yn cynnig cyfle gwych ar gyfer hamdden ac yn ffurfio rhan o'r 1,400km o Lwybr Arfordir Cymru. Amcangyfrifwyd bod buddion iechyd cerdded Llwybr Arfordir Cymru oddeutu £18.3 miliwn yn flynyddol; gellir priodoli £3.5 miliwn ohono yn uniongyrchol i fodolaeth y llwybr.<sup>66</sup> Mae Llwybr Arfordir Ceredigion yn cynnig cyfle hamdden gwych ac mae hefyd yn darparu mynediad hawdd a chynaliadwy i chwaraeon dŵr, pysgota a defnyddio cychod. Mae'r llwybr yn ychwanegu gwerth sylweddol at economi Cymru trwy wariant gan ymwelwyr.<sup>67</sup> Mae'r llwybr yn cynrychioli adnodd gwerthfawr sy'n cysylltu pobl a bywyd gwyllt ar draws arfordir Ceredigion.
- Mae Coed y Mwldan yng nghanol tref Aberteifi yn safle coetir bach a reolir gan Goed Cadw (The Woodland Trust) sy'n boblogaidd gyda llawer o drigolion. Mae'r safle'n cynnwys pont droed newydd dros y Mwldan sy'n darparu mynediad hawdd i'r afon a chanol y dref. Crëwyd y safle ym 1999 ac fe'i rheolir yn bennaf i hyrwyddo coedwigoedd brodorol a bywyd gwyllt i bawb eu

<sup>64</sup> Van Vooren L., Reubens B., Broekx S., De Frenne P., Nelissen V., Pardon P. and Verheyen K. (2017). Ecosystem service delivery of agri-environment measures: A synthesis for hedgerows and grass strips on arable land, *Agriculture, Ecosystems & Environment* 244: 32-51.

<sup>65</sup> Dainese, M., Montecchiari, S., Sitzia, T., Sigura, M. and Marini, L. (2017). High cover of hedgerows in the landscape supports multiple ecosystem services in Mediterranean cereal fields. *Journal of Applied Ecology* 54: 380-388.

<sup>66</sup> NRW (2014). Economic Assessment of the Health Benefits of Walking the Wales Coast Path. Natural Resources Wales, Cardiff.

<sup>67</sup> NRW (2014). Economic Assessment of the Health Benefits of Walking the Wales Coast Path. Natural Resources Wales, Cardiff.

mwynhau. Bu cannoedd o wirfoddolwyr lleol yn rhan o blannu'r coetir sy'n dangos pwysigrwydd y safle i'r trigolion lleol. Mae Coed y Mwdan yn gyfle gwych ar gyfer amrywiaeth o ddiwyddiadau cymunedol ac addysgol gan gynnwys darlledu cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag arddangosiadau cerfluniau a chrefftau coed. Yn wyneb ei swyddogaeth fel coridor gwyrdd sy'n cysylltu trigolion â chanol y dref, mae hefyd yn cyfrannu'n fawr at hamdden a buddion iechyd a llesiant cysylltiedig. Mae gosodiadau celf yn gwella gwerth esthetig ac amwynder y safle. Mae cynllun rheoli tymor hir yn sicrhau y gellir mwynhau'r buddion hyn ymhell i'r dyfodol.

- Mae Parc Natur Penglais yn Aberystwyth yn GNLI ym mherchnogaeth y Cyngor a sefydlwyd ym 1991. Mae Grŵp Cymorth Parc Natur Penglais yn cynghori ac yn cynorthwyo'r Cyngor i reoli'r coed ffawydd/hen chwarel trwy Gynllun Rheoli y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arno ac sy'n cael ei ddiwygio bob 5 mlynedd. Derbyniodd y Parc Wobr Tywysog Cymru ym 1993 a nhw oedd y cyntaf i ennill Gwobr Gymunedol Baner Werdd Ceredigion yn 2011. Mae'r Grŵp Cymorth wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer Penglais, ac yn ddiweddar mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol i fynediad cyhoeddus ar y safle gydag amrywiaeth o deithiau tywys hefyd yn cael eu darparu ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Mae'r warchodfa yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd pobl leol yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth â'r Cyngor. Mae'r wefan yn cynnig dewis o wasanaethau diwylliannol gan gynnwys digwyddiadau cymunedol ac addysgiadol yn ogystal ag arddangosiadau crefft coed. Mae mynediad hawdd i'r safle hefyd yn darparu cyfleoedd hamdden gwych ar gyfer ymlacio ac ymarfer corff. Mae'r amrywiaeth o goed a llwyni yn y parc yn darparu agwedd sy'n newid yn gyson a golygfeydd godidog dros y dref a'r môr sy'n ychwanegu at y gwerth amwynder. Mae gorchudd coed hefyd yn darparu llain glustogi ansawdd aer gan leihau llygredd aer o'r ffordd gyfagos. At hynny mae'r parc yn helpu Aberystwyth i addasu i newid hinsawdd gan ei fod yn darparu swyddogaethau oeri a chysgodi.
- Mae Llwybr Ystwyth sy'n 34km o hyd yn cysylltu Aberystwyth, Llanfarian, Ystrad Meurig a Thregaron gyda rhannau sylweddol yn dilyn hen reilffordd y Great Western. Cwblhawyd y Llwybr yn rhannol yn 2008 ond mae rhai rhannau yn eisiau o hyd. Mae'r Llwybr sy'n mynd heibio rhannau o afon Ystwyth, yn cynnig mynediad i deithiau cerdded cylchol o amgylch Trawsgoed, GNC Cors Caron a llwybrau llinellog a chylchol eraill. Mae sawl rhan wastad yn addas ar gyfer pobl ag anableddau neu ar gyfer defnyddio sgwteri symudedd. Mae'r Llwybr wedi rhoi hwb i dwristiaeth leol a hefyd wedi darparu cyfleoedd busnes newydd megis llogi beiciau â gwasanaeth. Mae'r Llwybr yn darparu mynediad hawdd i adeiladau a seilwaith hanesyddol sy'n tynnu sylw at ei bwysigrwydd diwylliannol. Mae'r gymysgedd o goridorau coetir a manau agored yn darparu lleoliad gwych i fwynhau'r estheteg y mae byd natur yn ei ddarparu. Mae'r gorchudd coed ar hyd rhannau o'r Llwybr hefyd yn cysgodi ac yn storio cryn dipyn o garbon, gan leddfu newid hinsawdd.

## 3.5 MAPIO ANGHENION

3.5.1. Cynhyrchwyd mapiau anghenion gwasanaethau ecosystem ar gyfer saith tref Ceredigion (gweler Atodiad E). Mae'r rhain yn adlewyrchu'r materion amgylcheddol a chymdeithasol canlynol:

- Ansawdd aer – mae hyn yn dangos lefel gyfartalog ( $\mu\text{g}/\text{m}^3$ ) y llygredd aer cefndir ar gyfer pob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio, yn seiliedig ar allyriadau blynyddol o ddeunydd gronynnol Defra yn 2016 ( $\text{PM}_{10}$ );

- Lleihau llifogydd – mae hyn yn dangos cyfran o bob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio sydd mewn perygl o lifogydd dŵr arwyneb ar gyfer digwyddiad 1 mewn 100 mlynedd (gan ddefnyddio data CNC);
- Hamdden – mae hyn yn dangos cyfran pob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio sydd wedi'u cwmpasu gan asedau SG ffisegol (y rhai sy'n hygyrch ar gyfer hamdden, ond heb gynnwys asedau llinelllog megis HTC/llwybrau beicio gan na ellid cynnwys yr olaf yn y dadansoddiad seiliedig ar ardal);
- Iechyd a llesiant – mae hyn yn dangos lefel yr amddifadedd iechyd (ar raddfa o 1 = mwyaf difreintiedig i 10 = lleiaf difreintiedig) ar gyfer pob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio yn seiliedig ar barth Iechyd a Llesiant Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru (IMD); a
- Lefel y gorchudd coed a choetir – mae hyn yn dangos cyfran pob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio sydd wedi'i orchuddio gan lystyfiant tal, coediog (h.y. coed, gwrychoedd a choetiroedd) – un o nifer o fesurau posibl o harddwch esthetig a chapasiti dal a storio carbon.

### Ansawdd aer

- 3.5.2. Mae deunydd gronynnol (PM<sub>10</sub>) yn cynnwys gronynnau bach o huddygl, llwch, pridd, halen neu gemegau eraill sy'n teithio'n ddwfn i ysgyfaint pobl gan achosi llid a niwed. Yng Nghymru mae cerbydau ffordd a diwydiant yn achosi PM<sub>10</sub> yn bennaf.<sup>68</sup> Mae'r set ddata yn dangos mai allyriadau blynyddol cyfartalog PM<sub>10</sub> yw 9.0 µg/m<sup>3</sup> a 10.1 µg/m<sup>3</sup> ar gyfer Ceredigion a Chymru. Yng Ngheredigion, mae lefelau cefndir o PM<sub>10</sub> ar eu uchaf yn ne-orllewin y Sir ac ar eu hisaf yn y gogledd-ddwyrain. O ganlyniad, mae gan Aberteifi ac Adpar yr ansawdd aer gwaelaf ym mhrif drefi Ceredigion (gyda lefelau cefndir PM<sub>10</sub> o dros 10.5 µg/m<sup>3</sup>), ac yna Llandysul a Llanbedr Pont Steffan (uwch na 9.7 µg/m<sup>3</sup>), yna Aberaeron (tua 9.4 µg/m<sup>3</sup>) a Thregaron (lle mae'r lefelau cefndir yn is na 9.1 µg/m<sup>3</sup>). Yn y map ar gyfer Aberystwyth, mae ansawdd yr aer yn amlwg yn waelach o fewn ffin yr anheddiad nag ydyw yn y llain glustogi – yn enwedig yn rhannau gorllewinol a deheuol y dref sydd wedi'u datblygu'n ddwysach (lle mae'n cyrraedd 10.5 µg/m<sup>3</sup>). Dylid nodi gan fod data PM<sub>10</sub> Defra yn cael ei gyfartalu ar gyfer pob sgwâr grid 1km, nid yw'n bosibl gweld o'r mapiau hyn leoliadau penodol lle roedd terfynau argymelledig (20µg/m<sup>3</sup>) Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) neu derfynau cyfreithiol yr Undeb Ewropeaidd (40µg/m<sup>3</sup>) ar gyfer PM<sub>10</sub> wedi'u rhagori mewn gwirionedd.<sup>69</sup>
- 3.5.3. Ar raddfa Sir neu dref, mae SG â llystyfiant yn chwarae rhan bwysig o ran cael gwared â llygryddion aer trwy'r broses o waddodi i arwynebau dail. Mae coed (yn enwedig planhigion bytholwyrdd) yn arbennig o effeithiol yn hyn o beth. Fodd bynnag, ar y raddfa leol, nid prif werth SG ar gyfer ansawdd aer trefol yw ei allu i gael gwared â llygryddion ond ei allu i wasgaru llygryddion oddi wrth bobl.<sup>70</sup> Felly mae gwrychoedd yn fwy effeithiol na choed ar gyfer amddiffyn cerddwyr rhag allyriadau traffig ffyrdd, er y gall coed amddiffyn safleoedd sensitif sydd wedi'u lleoli wrth ymyl ffyrdd, megis ysgolion ac ysbytai. Dylid nodi bod plannu coed helaeth neu barhaus yn amhriodol mewn strydoedd

<sup>68</sup> Abernathy, R (2018). National Assembly for Wales Research Briefing – Air Quality. 18-009.

<sup>69</sup> WHO (2005) Air quality guidelines for particulate matter, ozone, nitrogen dioxide and sulfur dioxide – Summary of risk assessment; Directive 2008/50/EC of the European Parliament and of the Council of 21 May 2008 on ambient air quality and cleaner air for Europe. *OJ L 152*, p. 1.

<sup>70</sup> Abhijith, K.V., Kumar, P., Gallagher, J., McNabola, A., Baldauf, R., Pilla, F., Broderick, B., Di Sabatino, S. and Pulvirenti, B., 2017. Air pollution abatement performances of green infrastructure in open road and built-up street canyon environments—A review. *Atmospheric Environment*, 162, pp.71-86.

cul gydag adeiladau uchel ar bob ochr (a elwir yn hafnau) oherwydd gall eu canopïau ddal llygryddion yn yr aer uwchben y ffordd.<sup>71</sup>

#### Lleihau llifogydd

- 3.5.4. Mae arwynebau anhydraidd fel adeiladau, ffyrdd a meysydd parcio yn lleihau gallu glawiad i ymdreiddio i'r pridd a chynyddu pa mor gyflym y mae'n symud dros yr arwyneb. Mae hyn yn cynyddu dŵr ffo arwyneb a chyfraddau gollwng uchaf ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o lifogydd. Gall llifogydd ddigwydd ar arwynebau anhydraidd (yn enwedig yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol pan nad yw'r system ddraenio yn aml yn gallu ymdopi), neu i lawr yr afon/i lawr y rhiw o arwynebau anhydraidd a chyrtsiau dŵr. Mae'r set ddata yn dangos mai cyfran Ceredigion sydd mewn perygl o lifogydd dŵr arwyneb yw 2.7%, tra bo cyfran Cymru hefyd yn 2.7%. Er mai dim ond cyfran fach o'r tir o fewn saith prif dref Ceredigion a'r cyffiniau sydd mewn perygl o ddigwyddiad llifogydd dŵr arwyneb 1 mewn 100 mlynedd, mae hyn yn uwch na chyfartaleddau'r Sir a chenedlaethol mewn rhai achosion. Mae llai na 4% o Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth, Llandysul ac Adpar mewn perygl o lifogydd dŵr arwyneb, er bod cymaint ag 8% o'r tir mewn perygl yn y dref Castellnewydd Emlyn gerllaw. Mae'r angen am fesurau lleihau llifogydd ychydig yn uwch yn nwyrain Tregaron ac ar gyfer Llanbedr Pont Steffan gyfan bron, lle mae'r mapiau'n dangos bod hyd at 8% o'r tir mewn perygl o lifogydd dŵr arwyneb.
- 3.5.5. Mewn aneddiadau trefol, gall ardaloedd mawr o SG (megis parciau cyhoeddus a chaeau chwarae) ddarparu buddion storio llifogydd hanfodol pan fydd tywydd eithafol, gan leihau'r perygl o lifogydd ar adegau eraill trwy eu natur hydraidd. Mae coed trefol hefyd yn rheoleiddio dŵr storm trwy ddal a storio glawiad ar eu tai sydd naill ai'n anweddu wedi hynny neu'n cyrraedd y dŵr daear yn arafach o ganlyniad i ryddhau graddol wrth iddo ddisgyn.<sup>72</sup> Mae coed hefyd yn gwella ymdreiddiad i'r pridd trwy sianelu dŵr i arwynebau hydraidd o amgylch y coesyn a thrwy'r pridd ar hyd sianeli gwreiddiau. Mewn ardaloedd trefol lle ceir llifogydd rheolaidd, argymhellir SG a ddyluniwyd yn bwrpasol, h.y. Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), megis pantiau a gerddi glaw.

#### Hamdden

- 3.5.6. Mae'r mapiau anghenion hamdden yn seiliedig ar yr asedau SG sydd ar gael (fesul sgwâr grid 1km) at ddibenion hamdden goddefol neu actif, ac felly maent yn cynnwys parciau a gerddi cyhoeddus, caeau chwarae, mannau chwarae, meysydd chwaraeon eraill, meysydd pentref, mynwentydd, safleoedd mynediad i goedwigoedd, tir mynediad agored, dŵr ymdrochi a GNLI. Mae'r mapiau'n dangos bod gan Aberystwyth ddarpariaeth arbennig o dda o SG hygyrch yn gorchuddio mwy na 15% o'r tir mewn llawer o'r dref, a rhwng 10-15% yng nghanol y dref. Fodd bynnag, mae gan ran ddwyreiniol Aberystwyth lefelau is o lawer o ddarpariaeth SG hygyrch, gyda gorchudd o lai na 2.5%. Mae gan Landysul a Llanbedr Pont Steffan ddarpariaeth eithaf da hefyd ar gyfer hamdden, gan gwmpasu 10-15% o ardal yr anheddiad, ond yn Aberteifi a Thregaron dim ond 5-10% o orchudd sydd ar gael. Yn Aberaeron mae hyd yn oed llai o SG hygyrch ar gael ar gyfer hamdden (2.5-5%), tra bod gan Adpar y ddarpariaeth leiaf, gyda llai na 2.5% (er bod y dref Castellnewydd Emlyn gerllaw yn gwneud yn well gyda hyd at 10% yn y dwyrain).

<sup>71</sup> Donovan, R., 2003. The Development of an Urban Tree Air Quality Score (UTAQS) using the West Midlands, UK Conurbation as a Case Study Area (Doctoral thesis). University of Lancaster.

<sup>72</sup> Davies, H., Doick, K., Handley, P., O'Brien, L., and Wilson, J. (2017) Delivery of ecosystem services by urban forests. Forestry Commission Research Report FCRP026. Edinburgh: Forestry Commission.



- 3.5.7. Er ei bod yn Sir wledig, mae asedau SG yn hanfodol ar gyfer darparu ar gyfer anghenion hamdden dyddiol/wythnosol trigolion trefol Ceredigion. Felly byddai'r ardaloedd hynny sydd â darpariaeth wael yn elwa o gael darpariaeth ychwanegol o SG hygyrch sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o grwpiau o ddefnyddwyr a defnyddiau. Sylwch ni ellid cynnwys llwybrau hamdden llinelllog fel llwybrau beicio a HTC yn yr asesiad seiliedig ar ardal hwn, ond maent yr un mor bwysig â pharciau a meysydd chwaraeon o ran mynd i'r afael ag anghenion hamdden.

#### Iechyd a Llesiant

- 3.5.8. Mae parth Iechyd a Llesiant IMD Cymru yn seiliedig ar ddangosyddion fel cyflyrau iechyd cronig a meddyliol a gofnodwyd gan feddygon teulu (e.e. clefyd y galon ac iselder), salwch cyfyngus hirdymor, marwolaethau cynamserol a gordewdra plentyndod. Wedi'i gyfrifo ar lefel 'ardaloedd bach', mae Ceredigion yn un o dair sir yng Nghymru sydd heb unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran iechyd a llesiant.<sup>73</sup> Fel y mapiau anghenion eraill a gynhyrchwyd ar gyfer saith prif dref Ceredigion, mae'r mapiau anghenion iechyd a llesiant yn cael eu harddangos yn seiliedig ar sgwariau grid 1km. Er nad yw un o'r ardaloedd yn y trefi hyn nac o'u cwmpas o fewn yr 20% sy'n fwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae Aberteifi a rhan ddeheuol Aberystwyth o fewn y 30% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae iechyd a llesiant ychydig yn well yn rhannau canolog a gorllewinol Aberystwyth, o fewn y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru – fel y mae Llandysul. Mae iechyd a llesiant yn well byth yn Nhregaron, Llanbedr Pont Steffan ac Adpar, sydd ymhlith y 40% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan rannau dwyreiniol a gogledd-orllewinol Aberystwyth yr iechyd a'r llesiant gorau ym mhrif drefi Ceredigion, ac o fewn y 30% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru.
- 3.5.9. Trwy annog gweithgarwch corfforol, gall SG hygyrch fod o fudd i iechyd corfforol pobl, yn enwedig o ran lleihau gordewdra a chlefydau cardiofasgwlaidd.<sup>74</sup> Gall SG hygyrch, strydoedd gwyrdd (e.e. gyda choed stryd) neu hyd yn oed gallu gweld man gwyrdd dymunol hefyd fod o fudd i iechyd meddwl a llesiant pobl trwy ddarparu dihangfa o ffynonellau pryder/iselder neu straen sy'n gysylltiedig â bywyd bob dydd, yn ogystal â chael mwy o gysylltiad â byd natur.<sup>75</sup>

#### Lefel y gorchudd coed a choetir (harddwch esthetig a chapasiti dal a storio carbon)

- 3.5.10. Mae'r mapiau hyn yn seiliedig ar ganran y gorchudd coed a llwyni (gan gynnwys coed trefol, coetiroedd a gwrychoedd) ar gyfer pob sgwâr grid 1km ar draws yr ardaloedd astudio. Mae gan y DU un o'r cyfrannau isaf o orchudd coed mewn unrhyw wlad yn Ewrop (13% o'i gymharu â chyfartaledd yr UE o 44%).<sup>76</sup> Ar draws Cymru, y gorchudd canopi coed ar gyfartaledd yn yr ardaloedd trefol yw 16%, er bod hyn yn amrywio'n fawr o 6% yn y Rhyl i 30% yn Nhreharris.<sup>77</sup> Mae trefi Ceredigion i gyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac eithrio Aberystwyth sy'n 18%. Fodd bynnag, mae'r mapiau anghenion yn dangos, hyd yn oed yn Aberystwyth, bod gorchudd coed mewn llawer o'r dref yn is na 10% (e.e. yn y rhannau gogleddol, gorllewinol a chanolog), gyda lefelau mwy cyfartalog yn y de-orllewin, a dros 20% yn rhan ddwyreiniol y dref. Mae'r mapiau anghenion yn dangos llai o amrywiad o ran gorchudd coed ar draws trefi eraill Ceredigion, gyda'r mwyafrif o

<sup>73</sup> StatsWales (2019). Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD) 2019 – Results Report.

<sup>74</sup> Lachowycz, K., & Jones, A. P. (2011). Greenspace and obesity: a systematic review of the evidence. *Obesity reviews*, 12(5), e183-e189.

<sup>75</sup> Davies, H., Doick, K., Handley, P., O'Brien, L., and Wilson, J. (2017) *Delivery of ecosystem services by urban forests. Forestry Commission Research Report FCRP026*. Edinburgh: Forestry Commission, i–iv + 1–28pp.

<sup>76</sup> Davies, H. (2017). Woodland Creation in European Countries (Research Briefing). Cardiff: National Assembly for Wales Research Service.

<sup>77</sup> Cyfoedd Naturiol Cymru (2016). Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru. Aberystwyth: Cyfoedd Naturiol Cymru.

Aberaeron, Aberteifi, Adpar a Thregaron â gorchudd canopi o lai na 10%, a Llandysul a Llanbedr Pont Steffan â gorchudd canopi o 10-20%. Fodd bynnag, mae Llanbedr Pont Steffan yn elwa o gael ardal o goetir yn union i'r gogledd o'r dref.

- 3.5.11. Gall llystyfiant coediog roi'r argraff o amgylchedd deiliog dymunol, ac mae astudiaethau ar dirweddau trefol a gwledig yn awgrymu bod pobl yn gweld coed yn bethau sy'n ddymunol yn esthetig.<sup>78</sup> Dylid nodi, fodd bynnag, bod hoffterau esthetig yn amrywio'n fawr ar draws y boblogaeth, a bydd yn well gan rai pobl gael golygfeydd o adeiladau hanesyddol, nodweddion dŵr neu welyau blodau na choed. Mae cydberthynas hefyd rhwng gorchudd canopi coed a lefel amddifadedd tref,<sup>79</sup> tra bo coed a choetiroedd yn darparu ystod gyfan o wasanaethau ecosystem eraill a mwy na dim ond estheteg, fel y dangosir yn Ffigur 3.1 a Ffigur 3.2.

## 3.6 CRYNODEB A GOBLYGIADAU

- 3.6.1. Yn seiliedig ar nodi'r asedau SG ym mhob un o'r lleiniau clustogi 2km a'r gwasanaethau ecosystem sy'n debygol o gael eu darparu gan yr asedau SG hyn, byddai'n ymddangos mai Aberystwyth sydd â'r ddarpariaeth fwyaf o wasanaeth ecosystem yn nhrefi Ceredigion. Mae hyn oherwydd y ddarpariaeth dda o lwybrau hamdden llinelllog sydd hefyd yn cysylltu â'r ardaloedd glan môr gwerthfawr, manau gwyrdd hygyrch, gorchudd coed trefol a GNLI yn y dref a'r cyffiniau sydd i gyd yn bwysig ar gyfer darparu gwasanaethau ecosystem rheoleiddio a diwylliannol i drigolion trefol.
- 3.6.2. Mewn cyferbyniad, mae diffyg darpariaeth gwasanaeth ecosystem sylweddol yn y trefi eraill oherwydd diffyg cymharol asedau SG yn yr ardaloedd hyn o'i gymharu ag Aberystwyth. Mae llwybrau arfordir, HTC, a manau gwyrdd hygyrch Aberaeron yn darparu buddion hamdden, ond ceir llawer llai o wasanaethau diwylliannol a rheoleiddio eraill er bod agosrwydd a chysylltedd â'r ardal glan môr yn debygol o wneud iawn am ddiffyg gwasanaethau diwylliannol yn y dref ei hun. Mae Aberteifi hefyd yn elwa o gael llwybrau'r arfordir a llwybrau teithio llesol, ond ar y cyfan mae'n darparu gwasanaethau ecosystem cyfyngedig i'w thrigolion. Mae Llanbedr Pont Steffan, Adpar, Llandysul a Thregaron yn elwa o gael gwasanaetha rheoleiddio ac ecosystem esthetig wedi'u cysylltu â'r prif afonydd sy'n rhedeg trwyddynt neu'n gyfagos iddynt, ond fawr ddim arall. Felly, argymhellir plannu coed a chreu GNLI a manau gwyrdd hygyrch ychwanegol yn y trefi hyn i wella hyd a lled ac amrywiaeth gwasanaethau ecosystem yn y trefi hyn. Gellir hefyd ystyried galluogi mynediad cyhoeddus i wlyptiroedd a chynefinoedd mosaig ar safleoedd tir llwyd.
- 3.6.3. Yn seiliedig ar nodi cynefinoedd eang ym mhob un o'r lleiniau clustogi 2km o gwmpas trefi a'r gwasanaethau ecosystem sy'n debygol o gael eu darparu gan y cynefinoedd hyn, byddai'n ymddangos mai'r trefi sy'n elwa fwyaf o lefelau uwch o ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem yn seiliedig ar gynefinoedd yw Aberystwyth, Aberaeron ac Aberteifi. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod y rhain yn drefi arfordirol sy'n elwa o'r gwasanaethau diwylliannol a rheoleiddio a ddarperir gan arfordir Ceredigion a'i gynefinoedd. Mae gan Dregaron ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem amlwg i'r gogledd, lle mae safle Ramsar a chynefin mignen wedi'i leoli. O ran mynediad cyhoeddus, mae'r ardal hon wedi'i chysylltu'n wael â'r brif dref. Byddai'n fuddiol cysylltu'r ardaloedd hyn â llwybrau neu lwybrau beicio newydd. Byddai angen datblygu'r rhain yn ofalus i sicrhau nad yw

<sup>78</sup> Davies, H., Doick, K., Handley, P., O'Brien, L., and Wilson, J. (2017) Delivery of ecosystem services by urban forests. Forestry Commission Research Report FCRP026. Edinburgh: Forestry Commission.

<sup>79</sup> Dobbs, C., Kendal, D. and Nitschke, C.R. (2014) Multiple ecosystem services and disservices of the urban forest establishing their connections with landscape structure and socio-demographics. Ecological Indicators, 43, 44-55.

cynyddu mynediad yn arwain at aflonyddu ar y rhywogaethau a warchodir ar y safle neu ddiraddio'r cynefin.

- 3.6.4. O ran anghenion gwasanaeth ecosystem, byddai Aberteifi, Adpar, a rhannau gorllewinol a deheuol Aberystwyth, sydd wedi'u datblygu'n ddwysach, yn elwa o greu SG (e.e. plannu coed a gwrychoedd a glaswelltiroedd a reolir yn briodol) i leihau lefelau llygryddion aer gronynnol.
- 3.6.5. Gall mesurau rheoli llifogydd cynaliadwy, megis gosod systemau draenio cynaliadwy, plannu coed, neu greu mannau gwyrdd ar raddfa fawr (lle bo hynny'n ymarferol) wedi'i alinio â dulliau rheoli llifogydd naturiol megis enciliadau a reolir, fod yn fuddiol yn Llanbedr Pont Steffan ac yn nwyrain Tregaron lle mae'r perygl o lifogydd dŵr arwyneb ar ei uchaf. O ran ateb anghenion hamdden trigolion trefol Ceredigion, byddai Adpar, Aberaeron a rhan ddwyreiniol Aberystwyth yn elwa o gael darpariaeth gynyddol o SG hygyrch. Byddai Aberteifi a rhan ddeheuol Aberystwyth yn elwa o gael SG mwy hygyrch a/neu ddeniadol er mwyn mynd i'r afael â materion iechyd corfforol a meddyliol gwael. Yn olaf, gellid gwella lefel y gorchudd coed yn Aberaeron, Aberteifi, Adpar, Tregaron, a rhannau gogleddol, gorllewinol a chanolog Aberystwyth i wella estheteg a mewnfuddsoddiad posibl gan fusnesau (gan fod ymchwil yn awgrymu bod yn well gan fusnesau leoli mewn ardaloedd gwyrdd).<sup>80</sup>
- 3.6.6. Ar raddfa'r sirol, byddai mwy o ddarpariaeth o goetir ac ehangu/adfer corsydd mawn yn helpu i gael gwared â charbon deuocsid o'r atmosffer (yn ogystal â lleihau llifogydd i lawr yr afon a darparu buddion oeri), a thrwy hynny gyfrannu at ymrwymiad CSC i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030, a helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang a ddatganwyd yn ddiweddar. Mae adfer corsydd mawn a phlannu coetir yn fesurau cymeradwy o wrthbwysu allyriadau carbon yn yr awdurdod lleol.

---

<sup>80</sup> Davies, H.J., Doick, K.J., Hudson, M.D., Schaafsma, M., Schreckenber, K. and Valatin, G. (2018) Business attitudes towards funding ecosystem services provided by urban forests. *Ecosystem Services*, 32, 159-169.

## 4 YMGYNGHORI Â RHANDDEILIAID

---

### 4.1 DULL GWEITHREDU

4.1.1. Yn ogystal â'r saith nod llesiant, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi nifer o egwyddorion cyfranogiad i gyrff cyhoeddus eu dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys pobl yn cymryd rhan mor gynnar â phosibl (e.e. mewn perthynas â chynllunio a materion eraill) a defnyddio amrywiaeth o ddulliau a fformatau ymgysylltu hygyrch, a chynhwysol wrth wneud hynny.

#### Cynllunio

4.1.2. Fel rhan o'r prosiect, trefnwyd dau ddigwyddiad cyhoeddus i randdeiliaid er mwyn cael ystod eang o safbwyntiau a gwella'r data a gasglwyd. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai'r digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau, gan grwpio trefi yn ddwy ardal ddaearyddol fras. Ond ar ôl ystyried y dasg ymhellach a'r rhanddeiliaid dan sylw, cytunwyd rhwng y Cyngor a'r ymgynghorwyr y byddai'r ddau ddigwyddiad yn cael eu cynnal yn Aberaeron, ac yn hytrach yn cael eu targedu at:

- Y rheiny sy'n mynychu mewn rhinwedd broffesiynol a fyddai'n gallu mynychu sesiwn hanner diwrnod llawn yn ystod y diwrnod gwaith, megis sefydliadau trydydd sector; ac
- Aelodau cyffredinol o'r cyhoedd a gafodd gyfle i fynychu sesiwn gyda'r nos ar sail galw heibio (gan gyrraedd ar amser cyfleus iddynt ac aros cyhyd ag y dymument).

4.1.3. Roedd pob digwyddiad yn gyfle i gyfranogwyr roi sylwadau ar yr holl drefi, yn ogystal â'r Sir gyfan.

4.1.4. Darparwyd rhestr rhanddeiliaid o gysylltiadau presennol gan CSC fel sail ar gyfer y gwahoddiadau. Mireiniwyd y rhestr hir hon yn ôl lleoliad, gan sicrhau bod y rhai a wahoddwyd yn seiliedig yng Ngheredigion i raddau helaeth. Roedd rhai eithriadau, megis rhai sefydliadau trydydd sector a oedd wedi'u lleoli y tu allan i'r Sir ond a oedd yn gweithredu o fewn ei ffiniau. Ar gyfer aelodau'r cyhoedd ar y rhestr (h.y. y rhai nad ydynt yn cynrychioli sefydliad), dim ond y rhai a oedd wedi'u lleoli yn y saith tref neu yn agos atynt a wahoddwyd.

4.1.5. Anfonwyd gwahoddiadau at randdeiliaid ar y rhestr fer ac aelodau o'r cyhoedd, gan eu gwahodd i'r sesiwn fwyaf priodol, ond caniatáu iddynt fynychu pa bynnag sesiwn oedd yn fwyaf cyfleus a rhoi cyfle iddynt ymgysylltu hyd yn oed os nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiwn fwyaf priodol.

#### Cynnal

4.1.6. Cafodd y sesiynau, a hwyluswyd gan Bartneriaeth BRO eu cynnal yn Siambr y Cyngor yn Aberaeron gyda'r nos ar 26 Chwefror 2020, gyda 15 yn bresennol, ac yn y prynhawn ar 27 Chwefror 2020 gyda 26 yn mynychu. Ar ôl cyrraedd, cafodd cyfranogwyr y ddwy sesiwn eu cyflwyno i'r prosiect Asesiad Seilwaith Gwyrdd a buddion SG. Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr gyflawni dwy dasg:

- Adolygu'r map 'Dynodiadau Sirol' a'r mapiau 'Asedau SG Trefi' yn dangos y SG a nodwyd eisoes er mwyn ystyried a oedd unrhyw elfennau allweddol heb eu cynnwys, neu a oedd ganddynt wybodaeth ychwanegol am yr asedau hyn (e.e. ar berchnogaeth tir neu hygyrchedd) a allai bod yn ddefnyddiol i'r Cyngor.
- Nodi ar set ar wahân o'r un mapiau unrhyw gyfleoedd posibl ar gyfer creu SG newydd, neu wella ansawdd neu hygyrchedd SG presennol i'r Cyngor eu hystyried yn y dyfodol.

- 4.1.7. Cofnodwyd y wybodaeth ar gyfer y ddwy dasg trwy ddewis cerdyn â rhif arno, ysgrifennu'r wybodaeth berthnasol ar y cerdyn a gosod dot gludiog â'r un rhif ar y map gan nodi'r lleoliad y mae'r sylwadau yn cyfeirio ato.
- 4.1.8. Ailadroddwyd y broses hon ar gyfer pob un o'r saith tref, yn ogystal â'r Sir gyfan, gan olygu bod modd casglu gwybodaeth am SG lleoliad-benodol. Mewn rhai achosion, darparwyd safbwyntiau mwy generig (heb fod yn ofodol) a oedd yn berthnasol ar draws yr ardal gyfan. Gweithiodd y broses yn dda, gan roi cyfle i bobl wneud sylwadau mewn ffordd ddarllenadwy a sicrhau bod yr holl safbwyntiau yn cael eu dal.
- 4.1.9. Er bod y dotiau gludiog â rhif i'w gweld ar y mapiau, casglwyd y cardiau data wrth iddynt gael eu cwblhau. Er bod rhai cyfranogwyr am weld yr hyn yr oedd eraill wedi'i ysgrifennu, trwy gasglu'r cardiau ar unwaith roedd modd canfod barn unigol pawb (gan gynnwys sylwadau mynych, gwrthwynebol ac unigryw), heb eu dylanwadu gan safbwyntiau pobl eraill. Pe bai'r cardiau wedi cael eu gadael i eraill eu darllen, efallai na fyddai cyfranogwr arall a oedd o'r un farn wedi ei ailadrodd. Yn yr un modd, mae'n bosib y byddai barn un person wedi dylanwadu ar sylwadau rhywun arall, gan gulhau'r ystod o syniadau wedi'u dogfennu.
- 4.1.10. Yn olaf, ar ddiwedd sesiwn ffurfiol y prynhawn, gofynnwyd i bob cyfranogwr ystyried eu 5 prif flaenoriaeth ar gyfer SG yng Ngheredigion (a allai fod yn lleoliad-benodol neu'n faterion cyffredinol) ac ysgrifennu'r rhain ar gardiau.

#### Arolwg Ar-lein Dwyieithog


- 4.1.11. Yn ogystal â'r digwyddiadau i randdeiliaid, cytunwyd rhwng CSC, Partneriaeth BRO a Chynllun Gofodol Cymru (WSP) i gynnal arolwg ar-lein dwyieithog (ar Survey Monkey) i gael croestoriad ehangach o'r gymuned i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Er mwyn hwyluso hyn, hyrwyddwyd yr arolwg yn gyffredinol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CSC. Anogwyd y rhai a wahoddwyd yn wreiddiol i'r ddau ddigwyddiad i randdeiliaid i gwblhau'r arolwg hefyd, trwy ddolen we a anfonwyd atynt trwy'r ebost.
- 4.1.12. Er nad oedd yn bosibl nodi gwybodaeth lleoliad-benodol trwy'r cyfrwng hwn, yn hytrach ceisiodd yr arolwg ddarganfod sut mae trigolion Ceredigion yn defnyddio mannau gwyrdd yn eu trefi lleol ac mewn mannau eraill yn y Sir, beth sy'n bwysig iddynt a pham, ac unrhyw welliannau yr hoffent weld yn cael eu gwneud. Mae'r arolwg llawn i'w weld yn Atodiad F.
- 4.1.13. Roedd yr arolwg ar-lein yn arbennig o lwyddiannus, a chafwyd cyfanswm o 246 o ymatebion.

## 4.2 GWEITHDAI I RANDDEILIAID

- 4.2.1. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei choladu a'i digideiddio yn y ddwy sesiwn i rhanddeiliaid er mwyn gallu cynnwys gwybodaeth lleoliad-benodol ar ffurf wedi'i mapio. Mae'r awgrymiadau penodol a wnaed wedi'u rhestru a'u mapio yn Atodiad G. Gellir categorieiddio'r awgrymiadau hyn fel a ganlyn:
- Creu SG ychwanegol (yn benodol mannau gwyrdd, llwybrau cerdded, llwybrau beicio, a phlannu coed);
  - Gwarchod SG presennol;
  - Gwelliannau i'r SG presennol (yn benodol o ran cynnal a chadw a mynediad, a gwelliannau bioamrywiaeth);


- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o SG a'r defnydd ohono;
- Gosod mesurau lleihau llifogydd; a
- Mentrau amgylcheddol eraill (e.e. gwella trafndiaeth gyhoeddus neu osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan).

4.2.2. Mae amrywiaeth fawr yn yr awgrymiadau a wnaed ar draws y trefi gwahanol. Er enghraifft, plannu coed oedd yr awgrym a nodwyd amlaf yn Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan a Llandysul; tra bo llwybrau beicio newydd yn cael eu ffafrio yn Aberaeron ac Aberteifi; llwybrau cerdded newydd yn Nhregaron; a mannau gwyrdd newydd yn Adpar. Darperir crynodeb o'r awgrymiadau hyn yn ôl lleoliad cyffredinol yn Ffigur 4.1 isod.



**Ffigur 4.1: Crynodeb o sylwadau rhanddeiliaid ar gyfleoedd gofodol-benodol**


4.2.3. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, roedd rhai o'r sylwadau sy'n gysylltiedig â'r mapiau yn sylwadau mwy cyffredinol ar gyfleoedd SG ar lefel sirol, yn hytrach na bod yn benodol i unrhyw leoliad arbennig. Roedd yr ymatebion hyn yn canolbwyntio ar dair thema graidd fel y dangosir yn Ffigur 4.2, sef gwella SG, cynyddu hygyrchedd, a chyfathrebu a chydweithio (mae'r rhifau mewn cromfachau yn cyfeirio at nifer yr ymatebwyr sy'n gwneud sylwadau).




**Ffigur 4.2: Sylwadau cyffredinol rhanddeiliaid ar gyfleoedd SG ar lefel sirol**

4.2.4. Ar ddiwedd y digwyddiad prynhawn ffurfiol, gofynnwyd i'r mynychwyr roi eu 5 prif flaenoriaeth ar gyfer SG yng Ngheredigion. Canolbwyntiodd ymatebion y rhanddeiliaid ar dair thema ganolog: gwelliannau ffisegol (47 o sylwadau), newid ymwybyddiaeth ac ymddygiad (23 o sylwadau), a chynnal SG presennol (9 o sylwadau). Cafodd ymatebion eu categoreiddio ymhellach i'r themâu amrywiol a gyflwynir yn Ffigur 4.3, Ffigur 4.4, a Ffigur 4.5. Yma, mae'r rhifau mewn du yn cynrychioli'r ymatebion cyffredinol (agregedig) yn y categori mwy cyffredinol, ond mae'r rhifau mewn gwyn yn cynrychioli nifer yr ymatebion gwirioneddol o fewn y categori hwnnw.






**Ffigur 4.3: Roedd prif flaenoriaethau rhanddeiliaid yn ymwneud â gwelliannau ffisegol i SG Ceredigion**




**Ffigur 4.4: Roedd prif flaenoriaethau rhanddeiliaid yn ymwneud â newid ymwybyddiaeth ac ymddygiad**



**Ffigur 4.5: Roedd prif flaenoriaethau rhanddeiliaid yn ymwneud â chynnal SG presennol Ceredigion**


### 4.3 AROLWG AR-LEIN

4.3.1. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau yn yr arolwg wedi'u nodi yn eu tro isod.




**Ffigur 4.6: Man preswyllo'r rhai a ymatebodd i'r arolwg**

- 4.3.2. Mae Ffigur 4.6 yn dangos mai dim ond 59% o'r ymatebwyr sy'n byw yn un o'r saith tref astudio. O'r 33% sy'n byw rhywle arall yng Ngheredigion, nodwyd 60 o leoliadau gwahanol. Roedd y lleoliadau a nodwyd amlaf yn cynnwys Ceinewydd (4 ymatebwr), y Borth, Goginan, Penrhyncoch, Rhydlewys a Thal-y-bont (3 ymatebwr yr un). Mae'r 7% sy'n weddill o'r ymatebwyr yn byw y tu allan i'r Sir.
- 4.3.3. O ran defnyddio'r trefi astudio ar gyfer anghenion hamdden a manau gwyrdd, dim ond Aberystwyth oedd wedi bodloni anghenion ei thrigolion (gweler Ffigur 4.7). Ym mhob un o'r trefi eraill, dewisodd rhai ymatebwyr ddefnyddio manau gwyrdd mewn trefi eraill ar gyfer eu hanghenion hamdden – fel arfer naill ai Aberystwyth (6 ymatebwr), Aberaeron neu Aberteifi (3 ymatebwr yr un). Ni ddefnyddiodd lleiafrif o ymatebwyr yn Llanbedr Pont Steffan ac Adpar fannau gwyrdd trefol o gwbl, gyda dau yn nodi eu bod yn defnyddio cefn gwlad yn lle hynny.
- 4.3.4. Yn achos yr ymatebwyr hynny sy'n byw rhywle arall yng Ngheredigion (neu'r tu allan i'r Sir), y trefi a ddefnyddir amlaf ar gyfer anghenion hamdden a manau gwyrdd oedd Aberystwyth (34% o'r ymatebwyr hyn), Aberaeron (13%), Llanbedr Pont Steffan (9%) ac Aberteifi (8%). O'r grŵp hwn, roedd 19% yn defnyddio trefi/pentrefi eraill, ac nid oedd 10% yn defnyddio manau gwyrdd trefol (e.e. oherwydd eu bod yn defnyddio cefn gwlad yn lle hynny).



**Ffigur 4.7: Trefi a ddefnyddir ar gyfer anghenion hamdden a mannau gwyrdd gan y rhai sy'n byw ym mhob un o'r saith tref astudio**


4.3.5. Nodir y rhesymau dros ddefnyddio mannau gwyrdd trefol yn Ffigur 4.8 isod. Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn defnyddio mannau gwyrdd ar gyfer hamdden actif neu oddefol, gan gynnwys cadw'n heini ac ymlacio. Fodd bynnag, mae mwy na hanner yr ymatebwyr hefyd yn defnyddio mannau gwyrdd fel cyfle i gysylltu â byd natur trwy wyllo bywyd gwylt.



**Ffigur 4.8: Y defnydd o fannau gwyrdd**


4.3.6. Mae'r mathau o SG a ddefnyddir gan ymatebwyr, a pha mor aml y cânt eu defnyddio, wedi'u nodi yn Ffigur 4.9. Er mai dim ond tua 10% o'r ymatebwyr sy'n defnyddio rhandiroedd, mae pob math arall o SG a restrir yn cael ei ddefnyddio gan o leiaf 50% o'r ymatebwyr (o bryd i'w gilydd o leiaf). Y mathau o SG a ddefnyddir amlaf gan y mwyafrif o bobl (sawl gwaith yr wythnos, gan oddeutu hanner yr ymatebwyr) yw llwybrau troed lleol a chefn gwlad agored. Mae mathau eraill o SG a ddefnyddir yn aml (sawl gwaith yr wythnos, gan oddeutu chwarter yr ymatebwyr) yn cynnwys ardaloedd anffurfiol o

fannau gwyrdd lleol, coetiroedd, traethau ac afonydd. Mae'r mathau poblogaidd o SG a ddefnyddir yn llai aml (bob mis neu lai, gan oddeutu hanner yr ymatebwyr) yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru, parciau a gerddi cyhoeddus, llynnoedd a gwarchodfeydd natur.




**Ffigur 4.9: Mathau o SG a ddefnyddir yn yr ardaloedd astudio, a pha mor aml y cânt eu defnyddio**

4.3.7. O ystyried yr amrywiaeth o fathau o SG a ddefnyddir, a pha mor aml y cânt eu defnyddio, nid yw'n syndod bod ymatebwyr o'r farn bod mannau gwyrdd yn bwysig am amrywiaeth helaeth o resymau. Fel y dangosir yn Ffigur 4.10, barnwyd bod buddion iechyd a llesiant, buddion esthetig, buddion bywyd gwyllt, a buddion ansawdd bywyd cyffredinol yn bwysig iawn i 80% neu fwy o'r ymatebwyr. Budd llai pwysig (er ei fod yn bwysig iawn o hyd i 60% o'r ymatebwyr) oedd gallu mannau gwyrdd i ddod â phobl at ei gilydd.



**Ffigur 4.10: Pwysigrwydd manau gwyrdd ar gyfer buddion gwasanaeth ecosystem amrywiol**


4.3.8. Dywedodd bron 90% o'r ymatebwyr yr hoffent wneud mwy o ddefnydd o fannau gwyrdd. Mae'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny ar hyn o bryd wedi'u nodi yn Ffigur 4.11. I'r mwyafrif o bobl diffyg amser sy'n eu hatal rhag gwneud mwy o ddefnydd o fannau gwyrdd, ond roedd lleiafrif o ymatebwyr (tua 15%) yn teimlo bod maint, ansawdd neu hygyrchedd manau gwyrdd yn annigonol i ateb eu hanghenion.



**Ffigur 4.11: Rhwystrau sy'n atal rhanddeiliaid rhag gwneud mwy o ddefnydd o fannau gwyrdd**

4.3.9. Dywedodd tua 75% o'r ymatebwyr yr hoffent weld gwelliannau yn cael eu gwneud i'w manau gwyrdd lleol. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar welliannau ffisegol – naill ai i'r asedau SG eu hunain (e.e. creu neu wella cynefinoedd) neu i lwybrau mynediad a hygyrchedd. Cafwyd nifer fawr o awgrymiadau hefyd ynglŷn â gwella cynnal a chadw SG presennol. Crynhoir y sylwadau hyn yn Ffigur 4.12 isod. Yma, mae'r niferoedd mewn du yn cynrychioli'r ymatebion cyffredinol yn y categori

mwy cyffredinol, ond mae'r niferoedd mewn gwyn yn cynrychioli nifer yr ymatebion gwirioneddol yn y categori penodol.



**Ffigur 4.12: Gwelliannau i fannau gwyrdd lleol a nodwyd gan randdeiliaid**

4.3.10. Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ynglŷn â SG yng Ngheredigion yn fwy cyffredinol. Gellid rhannu eu hymatebion yn categorïau cyffredinol, sef gwella bioamrywiaeth, gwarchod manau gwyrdd, gwella mynediad hamdden, a newid ymwybyddiaeth ac ymddygiad. Rhoddir mwy o fanylion yn Ffigur 4.13 isod. Unwaith eto, mae'r rhifau mewn du yn cynrychioli'r cyfanswm ymatebion yn y categori mwy cyffredinol, ac mae'r rhifau mewn gwyn yn cynrychioli nifer yr ymatebion gwirioneddol a gafwyd yn y categori hwnnw.





**Ffigur 4.13: Sylwadau ychwanegol gan randdeiliaid ar SG Ceredigion**

## 4.4 CRYNODEB A GOBLYGIADAU

- 4.4.1. Rhoddodd y digwyddiadau i randdeiliaid gyfle i randdeiliaid lleol (gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau trydydd sector, a chynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned) ddweud eu dweud ar y gwelliannau daearyddol penodol yr hoffent eu gweld yn cael eu gwneud i SG Ceredigion. Roedd y rhain fel rheol yn canolbwyntio ar awgrymiadau ar gyfer creu SG newydd (plannu coed a llwybrau cerdded a beicio newydd) mewn lleoliadau penodol, ynghyd ag awgrymiadau i wella cynnal a chadw SG presennol.
- 4.4.2. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio datblygiad cyfleoedd SG penodol, wedi'u blaenoriaethu – ochr yn ochr â'r dadansoddiadau o gysylltedd (ar gyfer pobl a bywyd gwylt) a gwasanaethau ecosystem (yr

angen amdani a'r ddarpariaeth debygol) ym mhenodau 2 a 3 o'r adroddiad hwn; dewisiadau CSC; a chyfleoedd a nodwyd eisoes mewn Cynlluniau Bro ar gyfer y trefi.

- 4.4.3. Arweiniodd y digwyddiadau i randdeiliaid wneud nifer fawr o awgrymiadau mwy cyffredinol hefyd (heb fod yn ofodol-benodol). O'r awgrymiadau hynny a farciwyd ar y mapiau (er nad oeddent yn benodol i unrhyw leoliad arbennig yn y Sir), plannu coed oedd y mwyaf cyffredin. Gwnaethpwyd llawer mwy o awgrymiadau gan fynychwyr y digwyddiad prynhawn ffurfiol, lle rhestrwyd eu 5 prif flaenoriaeth. Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin yma oedd gwneud gwelliannau ffisegol i adnoddau/cynefinoedd/mannau gwyrdd, hygyrchedd, a lleihau'r perygl o lifogydd yn y Sir.
- 4.4.4. Fodd bynnag, roedd nifer y bobl a fynychodd y digwyddiadau rhanddeiliaid yn gymharol fach (cyfanswm o 41 o bobl). Felly roedd yr arolwg ar-lein (a gwblhawyd gan 246 o bobl) yn ddull ychwanegol gwerthfawr ar gyfer rhoi awgrymiadau ar wella SG Ceredigion. Gwelliannau i hygyrchedd adnoddau SG lleol yn y trefi oedd yr awgrym mwyaf cyffredin, yna gwelliannau ffisegol i SG (yn enwedig trwy blannu coed), a chynnal a chadw yn well manau gwyrdd a manau chwarae presennol. O ran awgrymiadau mwy cyffredinol ar gyfer y Sir gyfan, roedd gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt yn awgrym poblogaidd.
- 4.4.5. Roedd yr arolwg ar-lein hefyd yn arbennig o ddefnyddiol o ran adborth ar y defnydd o SG presennol a'u pwysigrwydd yn saith prif dref y Sir. At ei gilydd, mae ymatebwyr i'r arolwg yn defnyddio ystod eang o fathau o SG (yn enwedig llwybrau troed lleol, cefn gwlad agored, manau gwyrdd lleol, coetiroedd, traethau ac afonydd) ar gyfer hamdden, ymlacio, ffitrwydd a gwyllo bywyd gwyllt fel arfer, tra bod buddion esthetig manau gwyrdd hefyd yn cael eu cydnabod yn gyffredinol.
- 4.4.6. Caiff yr awgrymiadau mwy cyffredinol hyn eu defnyddio hefyd i helpu i lywio blaenoriaethu cyfleoedd SG yn y dyfodol.

## 5 CYFLEOEDD POSIBL AR GYFER SEILWAITH GWYRDD CEREDIGION

---

### 5.1 DULL GWEITHREDU

5.1.1. Mae'r bennod hon yn nodi'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer SG Ceredigion (wedi'i rannu yn ôl tref ac ar gyfer y Sir gyfan) yn seiliedig ar y ffynonellau gwybodaeth canlynol:

- Nodi asedau a chynefinoedd SG, ynghyd â bylchau yn y ddarpariaeth, a hyd a lled y cysylltedd ar gyfer pobl a bywyd gwyllt (Pennod 2);
- Y ddarpariaeth gyfredol debygol o wasanaethau ecosystem, a'r angen amdanynt (Pennod 3);
- Cyfleoedd gofodol (a heb fod yn ofodol allweddol) a awgrymwyd gan y rhai a fynychodd y digwyddiadau i randdeiliaid ac a gwblhaodd yr arolwg ar-lein (Pennod 4);
- Cyfleoedd eraill a gynigiwyd eisoes trwy ddogfennau megis Cynlluniau Bro; a
- Chyfleoedd a awgrymwyd gan grŵp llywio'r prosiect yn CSC.

### 5.2 ABERYSTWYTH

5.2.1. Dangosodd Pennod 2, o'i chymharu â'r trefi eraill, fod gan Aberystwyth ddarpariaeth dda o asedau SG sy'n elwa o gysylltedd cymharol uchel ar gyfer pobl ac ecoleg. Fel y cydnabyddir yn y CDLI, mae'n bwysig bod y coridor llinelllog rhwng y Gwarchodfeydd Natur Lleol yn cael ei gadw'n gyfan i gynnal cysylltedd ecolegol.

5.2.2. Dangosodd Pennod 3 mai Aberystwyth sydd â'r ddarpariaeth orau o wasanaethau ecosystem rheoleiddio a diwylliannol o holl brif drefi Ceredigion oherwydd ei darpariaeth o fwy o asedau SG. Mae gan yr ardal o gwmpas Aberystwyth ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem dda hefyd o'i chynefinoedd arfordirol, coetir a glaswelltir (yn ogystal ag o 25 ha o rostir). Fodd bynnag, roedd mapio anghenion y gwasanaeth ecosystem yn awgrymu bod rhai rhannau o Aberystwyth a fyddai'n elwa o greu SG ychwanegol. Er enghraifft, gallai plannu coed a gwrychoedd yn rhannau deheuol y dref helpu i leihau lefelau llygryddion aer gronynnol, tra byddai plannu coed yn rhannau gogleddol, gorllewinol a chanolog yn gwella estheteg ac o bosibl mewnfuddsoddiad gan fusnesau. Argymhellir darparu mwy o fannau gwyrdd hygyrch o ansawdd da yn nwyrain y dref at ddibenion hamdden, ac yn y de i fynd i'r afael â materion iechyd corfforol a meddyliol gwael (gweler map Ansawdd Aer Aberystwyth yn Atodiad D).

5.2.3. Dangosodd Pennod 4 mai plannu coed oedd y cyfle mwyaf cyffredin a nodwyd gan randdeiliaid ar gyfer Aberystwyth (gweler pwyntiau 1, 4, 13, 26, 27 a 38 o fap Aberystwyth yn Atodiad E.). Roedd y cyfleoedd i blannu coed yn cynnwys: cynyddu cysylltedd ecolegol rhwng y ddwy GNLI trwy goridor coed; cynyddu gorchudd canopi trefol; a gwella coridor yr afon trwy blannu ar gyrion caeau chwarae Prifysgol Aberystwyth. Creu llwybrau beicio newydd i gynyddu cysylltedd oedd yn ail uchaf ymysg rhanddeiliaid (gweler pwyntiau 9, 21 a 26 o fap Aberystwyth yn Atodiad E.). Roedd y rhain yn cynnwys cysylltu Penrhyncoch, Bow Street, Capel Dewi, a Bwlch Nant yr Arian â chanol tref Aberystwyth. Mae cyfle hefyd i gysylltu Llwybr Ystwyth â Llwybr Rheidol trwy Benparcau a Bryn Pen-y-Bont.

- 5.2.4. Mae'r Cynllun Bro ar gyfer Aberystwyth yn nodi bod gwella Pen Dinas, Craig Las, a Pharc Natur Penglais yn gyfle ar gyfer twristiaeth. Mae hefyd yn argymhell llwybrau cerdded a beicio ar hyd y Rheidol a'r Ystwyth i wella hygyrchedd. Mae'r Cynllun Bro yn hyrwyddo gwarchod a gwella asedau SG presennol trwy blannu blodau gwyllt a chynyddu bioamrywiaeth. Anogir plannu coed i wrthsefyll newid hinsawdd yn well, yn enwedig coed stryd a choetiroedd ucheldir. Mae creu mannau tyfu a rhandiroedd cymunedol hefyd yn cael ei nodi fel cyfle.
- 5.2.5. Mae'r cyfleoedd a gynigiwyd gan CSC yn cynnwys: cysylltu Llwybr Ystwyth yn well â Llwybr Rheidol a'r harbwr; gwelliannau mynediad cyffredinol i wella hidreiddiad yn yr harbwr ei hun; a llwybrau cerdded, beicio ac amldeffnydd newydd eraill fel y cynigir trwy'r Map Rhwydwaith Integredig (MRHI) ar gyfer teithio llesol.<sup>81</sup> Ymhellach allan o'r dref, mae CSC yn cynnig gwella cyswllt Llwybr Ystwyth â chysylltiadau Llanilar o'r gogledd (a ddangosir hefyd ar y MRHI).

## 5.3 ABERAERON

- 5.3.1. Gyda'r ddarpariaeth leiaf o lwybrau beicio, gallai Aberaeron elwa o ehangu ei rhwydwaith o lwybrau beicio. Mae gan y dref y ddarpariaeth isaf o orchudd coed trefol hefyd ac felly gallai elwa o blannu coed o fewn ffin yr anheddiad. Gallai gwneud hynny gael y budd ychwanegol o wella cysylltedd ecolegol yn y dref trwy greu coridorau llinellol.
- 5.3.2. Mae darparu gwasanaeth ecosystem o fewn ffin yr anheddiad yn debygol o fod yn isel oherwydd y diffyg cymharol o asedau SG yn Aberaeron (o leiaf o'i gymharu ag Aberystwyth). Er y bydd HTC, llwybrau'r arfordir a'r Safle Mynediad i Goedwigoedd yn cyfrannu at fuddion hamdden ac ymdeimlad o le, byddai'r dref yn elwa o blannu coed trefol i wella'r ystod o wasanaethau rheoleiddio a diwylliannol. Ar draws y llain glustogi darperir amrywiaeth o wasanaethau rheoleiddio a diwylliannol gan y cyfoeth o gynefinoedd arfordirol, coetir a glaswelltir, er y byddai cyfran fwy o goetir lled-naturiol llydanddail (yn hytrach na choetir planhigfa gonwydd) yn fuddiol. Mae'r mapiau anghenion hefyd yn awgrymu y gellid gwella'r ddarpariaeth o fuddion hamdden ac esthetig yn Aberaeron trwy ddarparu mwy o fannau gwyrdd hygyrch a gorchudd coed.
- 5.3.3. O'r cyfleoedd a nodwyd ar gyfer Aberaeron trwy'r digwyddiadau i randdeiliaid a'r arolwg ar-lein, cynyddu cysylltedd trwy lwybrau beicio newydd oedd y mwyaf cyffredin (gweler pwyntiau 11, 12, 20 a 22 o fap Aberaeron yn Atodiad E.). Mae'r gwelliannau posibl i lwybrau yn cynnwys creu llwybr newydd i Aberystwyth ac ymestyn llwybr beicio Llanerchaeron i Giliau Aeron a Llanbedr Pont Steffan. Diogelu'r man gwyrdd sydd ym mherchnogaeth y Cyngor rhwng yr ysgol a'r môr oedd y cyfle nesaf a nodwyd amlaf (gweler pwynt 1 o fap Aberaeron yn Atodiad E.).
- 5.3.4. Mae Cynllun Bro Aberaeron yn cydnabod gwelliannau i ardal Traeth y De fel cyfle ar gyfer twristiaeth. Mae'r Cynllun Bro hefyd yn cydnabod budd SG i drigolion a thwristiaid, gan annog safon uchel o gynnal a chadw a, lle bo hynny'n bosibl, gwelliannau. Nodir llwybrau teithio llesol fel cyfle i wella iechyd ac i fynd i'r afael â phroblemau traffig yn y dref.
- 5.3.5. Mae'r cyfleoedd a gynigiwyd gan CSC yn cynnwys ymestyn mynediad ar hyd yr hen reilffordd y tu hwnt i Lanerchaeron heibio eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thuag at Giliau Aeron (fel y nodir

---

<sup>81</sup> Mae'r Mapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer Aberystwyth ar gael ar wefan CSC, yn <http://www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-parking/active-travel/>.

yn rhestr prosiect Cynllun Gwella Hawliau Tramwy CSC);<sup>82</sup> a gwella hygyrchedd o fewn ac yn ardal yr harbwr, gan ei fod yn ganolbwynt allweddol ar gyfer y dref

## 5.4 ABERTEIFI

- 5.4.1. Gallai gwella mynediad i afon Teifi a'i hisafonydd greu buddion hamdden mawr. Yn ogystal ag agor yr asedau SG llinellog hyn, gallai Aberteifi elwa o greu mannau gwyrdd hygyrch, yn enwedig o fewn ffin yr anheddiad. Gallai gwneud hynny gael y budd ychwanegol o wella bioamrywiaeth yn y dref trwy greu cynefin carreg sarn. Gellid gwella cysylltedd ecolegol ymhellach yn yr ardal trwy greu coridorau llinellog.
- 5.4.2. Dangosodd Pennod 3 yr adroddiad hwn fod llwybrau'r arfordir a llwybrau teithio llesol Aberteifi yn darparu buddion i rai trigolion o ran hamdden ac iechyd a llesiant gwell, ond ar y cyfan nid yw asedau SG cyfyngedig y dref yn darparu llawer o wasanaethau ecosystem. Mae angen mawr am fannau gwyrdd hygyrch er mwyn ymestyn y buddion hyn i gyfran fwy o boblogaeth Aberteifi. Yn yr un modd â'r ddwy dref arfordirol arall, mae Aberteifi yn elwa o'r gwasanaethau ecosystem sy'n gysylltiedig â'i chynefinoedd arfordirol, coetir a glaswelltir, ond byddai'n elwa pe bai mwy o'r glaswelltir yn cael ei wella i gyflwr wedi'i led-wella neu heb ei wella. Byddai Aberteifi hefyd yn elwa o blannu coed a gwrychoedd i leihau lefelau llygryddion aer gronynnol; SG mwy hygyrch a/neu ddeniadol er mwyn mynd i'r afael â materion iechyd ffisegol a meddyliol gwael; a chynnydd cyffredinol mewn gorchudd coed i wella estheteg a mewnfuddsoddiad posibl gan fusnesau.
- 5.4.3. Creu llwybrau beicio a cherdded newydd oedd y cyfleoedd pwysicaf a nodwyd gan randdeiliaid yn y ddau ddigwyddiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer Aberteifi (gweler pwyntiau 2, 3, 7, 8 a 13 o fap Aberteifi yn Atodiad E.). Roedd cyfleoedd o'r fath yn cynnwys creu llwybr troed ar hyd Ffordd Llandudoch, ynghyd â chysylltu Aberteifi â Blaenannerch, Llangoedmor a Llechryd.
- 5.4.4. Mae'r Cynllun Bro yn nodi bod gwella cysylltedd trwy lwybrau teithio llesol yn gyfle allweddol. Nodir cysylltiadau o Aberteifi i Benparc, Llechryd a Chilgerran yn benodol. Cydnabyddir bod plannu blodau gwyllt a choed ar dir cyffredin, ymylon ffyrdd a chylchfannau yn gyfle i wella bioamrywiaeth. Cydnabyddir ymhellach ailgoedwigo yn yr ucheldiroedd am fuddion gwrthsefyll newid hinsawdd. Nododd y Cynllun Bro welliannau hefyd i'r mannau chwarae a'r meysydd chwaraeon yn Netpool fel cyfle i wella'r SG presennol.
- 5.4.5. Mae'r cyfleoedd a gynigiwyd gan CSC yn cynnwys cysylltiadau gwell â Llandudoch dros y ffin yn Sir Benfro, a llwybrau teithio cerdded, beicio ac amldeffnydd newydd eraill fel y cynigir trwy'r MRhI<sup>83</sup> i annog teithio llesol. Bu trafodaethau hefyd yn y Cyngor i wella mynediad cyhoeddus ar lan yr afon, ar yr amod y rhoddir sylw i unrhyw gyfyngiadau ecolegol.

## 5.5 LLANBEDR PONT STEFFAN

- 5.5.1. Dangosodd Pennod 2 fod Llanbedr Pont Steffan yn cael ei gwasanaethu'n wael gan lwybrau hamdden llinellog o'i chymharu â rhai o'r trefi eraill ac y gallai elwa'n fawr o gael rhwydwaith SG

<sup>82</sup> Cyngor Sir Ceredigion (2019). Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019-29. Ar gael yn: <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coast-countryside/public-rights-of-way/rights-of-way-improvement-plan/>

<sup>83</sup> Mae'r Mapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer Aberteifi ar gael ar wefan CSC, yn <http://www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-parking/active-travel/>.

mwy hygyrch. Byddai agor yr hen reilffordd at ddefnydd hamdden gan y cyhoedd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai gwella mynediad i'r nifer cymharol llai o asedau ecolegol craidd, megis Llyn Falcondale, trwy gryfhau'r rhwydwaith o HTC hefyd yn werthfawr.

- 5.5.2. Prif asedau Llanbedr Pont Steffan ar gyfer gwasanaethau ecosystem darparu, rheoleiddio a diwylliannol yw afon Teifi sy'n llifo ychydig i'r de o'r dref, a'r llyn a leolir i'r gogledd-orllewin. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth gwasanaethau ecosystem yn y dref ei hun yn weddol gyfyngedig oherwydd diffyg asedau 'gwyrdd' a llwybrau hamdden llinelllog. Felly byddai'r dref yn elwa o agor ei hen reilffyrdd helaeth at ddibenion hamdden. Er bod darpariaeth dda o wrychoedd, byddai darpariaeth gwasanaeth ecosystem yn yr ardal o gwmpas Llanbedr Pont Steffan yn elwa o gynnydd sylweddol yng nghyfran y coetir lled-naturiol llydanddail o'i gymharu â choetir planhigfa gonwydd. Byddai gwella peth o'r ehangder o gynefin glaswelltir wedi'i wella i gyflwr wedi'i led-wella hefyd yn fuddiol. Gall mesurau rheoli llifogydd cynaliadwy, megis gosod systemau draenio cynaliadwy, plannu coed, neu greu mannau gwyrdd ar raddfa fawr (lle bo hynny'n ymarferol) wedi'i alinio â dulliau rheoli llifogydd naturiol hefyd fod yn fuddiol yn Llanbedr Pont Steffan i leihau'r risg o lifogydd dŵr arwyneb.
- 5.5.3. O'r cyfleoedd a nodwyd gan randdeiliaid ar gyfer Llanbedr Pont Steffan ym Mhennod 4, roedd y mwyaf niferus ohonynt ar gyfer plannu coed (gweler pwyntiau 9, 20, 26, 28, 29, 33 a 34 o fap Llanbedr Pont Steffan yn Atodiad G.). Roedd y rhain yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cynyddu gorchudd coed trefol, yn enwedig yn Sgwâr Harford a fforch Heol Maestir, a chreu coetir cymunedol. Roedd yr ail gategori pwysicaf o gyfleoedd a nodwyd yn ymwneud â chreu llwybrau cerdded newydd (gweler pwyntiau 2, 4, 15, 27, a 30 o fap Llanbedr Pont Steffan yn Atodiad G.). Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cysylltu'r dref â Long Wood; cysylltu gogledd y dref i'r de trwy'r rheilffordd; a chreu HTC rhwng ystâd Cwrt Dulas a'r clwb rygbi.
- 5.5.4. Nododd y Cynllun Bro ar gyfer Llanbedr Pont Steffan yr angen i wella cysylltiadau cerddwyr Parc Busnes Pont Steffan â gweddill y dref. Yn yr un modd, cydnabyddir bod creu llwybrau beicio newydd i gysylltu tref Llanbedr Pont Steffan â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol mwy yn gyfle. Mae arwyddion ar gyfer y cysylltiadau presennol rhwng y dref ac asedau SG, megis ffordd Llanybi ar hyd yr hen reilffordd, yn cael ei ystyried yn gyfle i wella'r defnydd a wneir ohonynt. Mae plannu coed yn strategol mewn lleoliadau priodol, megis Sgwâr Harford, yn gyfle i wella SG yn y dref. Yn yr un modd, mae plannu coed helyg a gwrychoedd brodorol ar y gorlifdir ar y ffin rhwng Cwmann a Llanybydder yn gyfle i wella gwrthsefyll newid hinsawdd trwy reoleiddio llifogydd. Mae dynodiad 'Maes Pentref' a GNLI yn cael ei nodi fel cyfle i warchod SG presennol, megis y maes chwaraeon yn y brifysgol, coetir o gwmpas y dref a Pharc St Germain Sur Moine. Mae'r Cynllun Bro hefyd yn cydnabod y potensial i gymeradwyo defnyddio tir llain las ar gyfer rhandiroedd.
- 5.5.5. Mae'r cyfleoedd a gynigiwyd gan CSC yn cynnwys llwybrau cerdded newydd fel y cynigir trwy'r MRh<sup>84</sup> ar gyfer teithio llesol, a'r ddau gynllun SG a gyflwynwyd yn ddiweddar i'w hariannu trwy Gronfa Seilwaith Gwyrdd Llywodraeth Cymru:
- Coridor Gwyrdd Llanbedr Pont Steffan – Byddai hyn yn cynnwys datblygu llwybr troed mynediad i bawb 600m (HTC ar hyn o bryd trwy dir sydd ym mherchnogaeth y Brifysgol yn bennaf) a nodwyd fel blaenoriaeth yn ymgynghoriadau'r Cynllun Teithio Llesol. Byddai'n cysylltu ardal gyflogaeth yn y gogledd â Champws y Brifysgol yn y canol â thai newydd yn y de (a thir tai

---

<sup>84</sup> Mae'r Map Rhwydwaith Integredig ar gyfer Llanbedr Pont Steffan ar gael ar wefan CSC, yn <http://www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-parking/active-travel/>.

dynodedig cyfagos) ag archfarchnad Co-op. Yn dilyn cwrs dŵr byddai ganddo wyneb caled gyda phantiau/ardaloedd gwlyb cyfagos a threfniadau plannu.

- Blaenoriaethu creu parth cerddwyr ar Stryd y Farchnad – Nod y cynllun hwn yw cael gwared ar barcio ar y stryd a'i ddisodli gyda 'baeau' bach wedi'u creu trwy blannu coed (sy'n addas ar gyfer stondinau marchnad a dros dro). Byddai draen ffordd yn casglu dŵr ffo ac yn bwydo i mewn i'r pyllau coed cyn gorlifo i'r system ddraenio gonfensiynol.

## 5.6 ADPAR

- 5.6.1. Dangosodd Pennod 2 fod darpariaeth SG yn arbennig o isel yn Adpar, yn bennaf oherwydd ei bod yn llai o ran maint. Ymhlith y cyfleoedd a nodwyd roedd creu rhwydwaith SG mwy hygrych. Trwy wella'r rhwydwaith o HTC, bydd pobl wedi'u cysylltu'n well â'r SG presennol sydd â chyflenwad cymharol fyr. Mae'r un peth yn wir am wella hygrychedd afon Teifi. Gellid gwella cysylltedd ecolegol hefyd trwy gynefinoedd llinellog ychwanegol.
- 5.6.2. Dangosodd Pennod 3 mai ased SG mwyaf Adpar o ran darparu gwasanaeth ecosystem yw afon Teifi a'r coed y naill ochr iddi sydd, yn wyneb ei lleoliad rhwng Adpar a'r dref Castellnewydd Emlyn gerllaw yn debygol o fod o fudd i'r mwyafrif o drigolion y dref o ran estheteg a chysylltu â byd natur. Fodd bynnag, mae darpariaeth SG fel arall yn weddol isel yn y dref, a byddai'n elwa o HTC ychwanegol a man gwyrdd hygrych i wella gwasanaethau diwylliannol eraill. O ran y ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem o gynefinoedd yn y llain glustogi, mae Adpar yn elwa o gael y gyfran uchaf o orchudd coetir o'r holl drefi (a'r gyfran uchaf o goetir lled-naturiol llydanddail). Ond fel y trefi eraill, byddai'n elwa o wella cyflwr y glaswelltir o'u cwmpas. O ran anghenion gwasanaeth ecosystem, byddai Adpar yn elwa o blannu coed a gwrychoedd i leihau lefelau llygryddion aer gronynnol; mwy o ddarpariaeth o fannau gwyrdd hygrych i fynd i'r afael ag anghenion hamdden; a mwy o blannu coed i wella estheteg y dref.
- 5.6.3. Dim ond un cyfle a nodwyd gan randdeiliaid ar gyfer Adpar, sef cyflwyno man gwyrdd newydd trwy ddatblygu'r tir gyferbyn â Pharc y Trap (gweler pwynt 7 o fap Adpar yn Atodiad G.). Argymhellwyd ymgais i greu lleoedd lle mae SG yn elfen ganolog o'r dyluniad.
- 5.6.4. Gan ei bod yn anheddiad bach nid oes Cynllun Bro ar gyfer Adpar. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd a gynigiwyd gan CSC yn cynnwys creu cysylltiadau gwell dros y ffin â Chastellnewydd Emlyn – i fannau gwyrdd ac i feysydd masnachol/busnes.

## 5.7 LLANDYSUL

- 5.7.1. Dangosodd Pennod 2 sut mae'r ddarpariaeth gyffredinol o SG yn gymharol wael yn Llandysul, yn enwedig o ran mannau gwyrdd hygrych a gorchudd coed trefol. Mae llawer o ganopi trefol y dref y tu allan i ffin anheddiad y CDLI, gan olygu bod plannu coed yn yr ardal hon yn gyfle pwysig. Gallai plannu coed trefol hefyd helpu i greu coridorau llinellog ar gyfer bywyd gwyllt, gan wella cysylltedd ecolegol o fewn y dref trwy gysylltu â choetir lled-naturiol llydanddail y tu allan i'r dref. Gellid gwella cysylltedd ar gyfer pobl trwy gysylltu'r HTC tameidiog a chynyddu mynediad i afonydd Teifi a Thyweli.

- 5.7.2. Dangosodd yr asesiad gwasanaeth ecosystem ym Mhennod 3 fod Llandysul yn elwa o gael y ddarpariaeth ail uchaf o lwybrau beicio<sup>85</sup> o'r saith tref, gan gyfrannu felly at hamdden ac iechyd a llesiant cyfran fach o'i thrigolion. Fodd bynnag, mae'r dref ar ei cholled oherwydd y ddarpariaeth wael o HTC a manau gwyrdd hygyrch a fyddai'n darparu'r gwasanaethau hyn i fwy o bobl. Mae gorchudd coed trefol hefyd yn arbennig o isel, gan amddifadu trigolion o ystod o wasanaethau ecosystem rheoleiddio a diwylliannol. Yn yr un modd â'r rhan fwyaf o'r trefi eraill, daw'r ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem yn yr ardal ehangach o'r cynefinoedd coetir a glaswelltir yn bennaf, ond unwaith eto, mae'r mwyafrif helaeth o'r olaf yn laswelltir wedi'i wella sy'n darparu llai o fuddion na glaswelltir wedi'i led-wella neu heb ei wella. Fodd bynnag, ni ddangosodd yr asesiad fod angen gwneud unrhyw welliannau penodol ar gyfer Llandysul (o'i gymharu â'r trefi eraill) o ran y pum gwasanaeth ecosystem wedi'u mapio.
- 5.7.3. Y cyfle pwysicaf a nodwyd gan randdeiliaid ar gyfer Llandysul oedd plannu coed (gweler pwyntiau 5, 14, 22, 23 a 24 o fap Llandysul yn Atodiad G.). Roedd hyn yn cynnwys cynyddu cysylltedd ecolegol trwy blannu coetir ar hyd coridor yr afon. Argymhellwyd hefyd y dylid plannu coed amwynder mewn rhannau o dir cyhoeddus ac ar hyd priffyrdd a gynhelir gan y Cyngor, megis Heol Llyn y Fran. Cafodd llwybrau cerdded newydd (pwyntiau 10, 13 a 18) a gwella cynnal a chadw a mynediad i SG presennol (pwyntiau 4, 11, 20, a 21) eu cydnabod fel cyfleoedd pwysig. Mae'r cyfleoedd ar gyfer llwybrau cerdded yn cynnwys llwybrau cylchol sy'n cysylltu'r Teifi â'r dref. Mae cyfleoedd mynediad a chynnal a chadw yn cynnwys rheoli clymog Japan ar hyd yr afon, gwella arwynebau llwybrau troed, a chyflwyno gatiau sy'n hau eu hunain ar hyd Llwybr Teifi i wella ei hygyrchedd.
- 5.7.4. Thema allweddol y cyfleoedd a nodwyd yn y Cynllun Bro ar gyfer Llandysul yw cysylltedd. Mae'r gwelliannau posibl yn cynnwys: llwybr beicio pum milltir allan i bob cyfeiriad o'r ysgol; llwybr troed ar lan yr afon sy'n arwain o Bont Llandysul i ardal y chwarel; a phont droed dros y Teifi ar Gaeau Tirdref i greu llwybr cerdded cylchol. Mae'r cyfleoedd eraill a nodwyd yn cynnwys creu asedau SG newydd, megis parcdir a rhandiroedd ar hen gaeau chwarae Ysgol Dyffryn Teifi.
- 5.7.5. Mae'r cyfleoedd a gynigiwyd gan CSC yn cynnwys cysylltu ar draws yr afon â Phont Tyweli yn Sir Gaerfyrddin gyfagos, e.e. trwy llwybrau teithio llesol newydd. Byddai hyn yn darparu mynediad gwell at asedau a chyfleoedd SG y tu allan i Landysul.

## 5.8 TREGARON

- 5.8.1. Er bod Tregaron yn elwa o gael rhwydwaith sylweddol o nodweddion llinellog, mae'r ddarpariaeth o asedau SG eraill yn wael, yn enwedig o ran manau gwyrdd hygyrch a gorchudd coed sydd i'w weld yn gyfyngedig; materion y mae angen rhoi sylw iddynt. At hynny, er bod y rhwydwaith o HTC sy'n cysylltu'r dref â'r wlad o'i chwmpas yn weddol gyflawn i'r de a'r gorllewin, mae'n fwy tameidiog tuag at y gogledd. Mae cysylltu Tregaron â'r ardal o gorsydd i'r gogledd (GNC Cors Caron) trwy HTC newydd ar hyd yr hen reilffordd yn gyfle pwysig i wella hygyrchedd hamdden. Yn yr un modd, felly hefyd y mae agor afon Brennig ac afon Teifi i'w defnyddio fel llwybrau hamdden. O ran cynefinoedd, Tregaron sydd â'r ganran isaf o orchudd coetir o'r holl drefi (dim ond 4%). Felly mae plannu coetir yn gyfle i gynyddu bioamrywiaeth yn yr ardal, yn enwedig os yw'r rhain wedi'u cysylltu trwy goridorau llinellog megis gwrychoedd.

---

<sup>85</sup> Mae'r set ddata yn cynnwys beicio ar y ffordd.



- 5.8.2. Mae Tregaron yn darparu gwasanaethau ecosystem diwylliannol yn bennaf o'i rhwydwaith HTC ac afon Breninig sy'n llifo trwy ganol y dref (mae'r olaf yn darparu buddion esthetig a chysylltu â byd natur). Fel y nodwyd uchod, gellid gwella buddion hamdden trwy ddarparu mwy o fannau gwyrdd hygyrch ac agor yr hen reilffordd i'r gogledd. Mae GNC Cors Caron (sy'n cynnwys cynefinoedd mignen yn bennaf) yn darparu'r mwyafrif helaeth o'r gwasanaethau ecosystem yn ardal astudio Tregaron, gan fod gorchudd coetir yn arbennig o isel, ac mae'r glaswelltir yn laswelltir sydd wedi'i wella yn bennaf sy'n darparu llai o fuddion na glaswelltir lled-naturiol. O ran anghenion gwasanaeth ecosystem, gallai mesurau rheoli llifogydd cynaliadwy, megis gosod systemau draenio cynaliadwy, plannu coed, neu greu mannau gwyrdd ar raddfa fawr (lle bo hynny'n ymarferol) wedi'i alinio â dulliau rheoli llifogydd naturiol yn nwyrain Tregaron helpu i leihau'r risg o lifogydd dŵr arwyneb. Dylid gwella lefel y gorchudd coed hefyd yn Nhregaron i wella estheteg a mewnfuddsoddiad posibl gan fusnesau.
- 5.8.3. O'r cyfleoedd a nodwyd gan randdeiliaid ar gyfer Tregaron, mae'r mwyaf niferus ohonynt yn ymwneud â chreu llwybrau beicio newydd (gweler pwyntiau 1, 4, 6, a 9 o fap Tregaron yn Atodiad G.). Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys ymestyn Llwybr Ystwyth i ganol y dref a chysylltu Tregaron â Llanbedr Pont Steffan. Roedd yr ail gyfle pwysicaf a grybwyllwyd yn ymwneud â chreu llwybrau cerdded (gweler pwyntiau 10 ac 20 o fap Tregaron yn Atodiad G.). Mae'r rhain yn cynnwys taith gerdded ar lan yr afon a theithiau cerdded cylchol yn cychwyn yn y dref sy'n cysylltu'r gwlyptiroedd, coetiroedd, a'r hen reilffordd.
- 5.8.4. Mae'r Cynllun Bro yn cydnabod agosrwydd Tregaron at fynyddoedd Cambrian fel cyfle pwysig, yn wyneb eu pwysigrwydd ar gyfer hamdden awyr agored. Mae creu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio yn gallu denu twristiaeth. Mae'r Cynllun Bro hefyd yn cydnabod gwerth creu asedau SG ychwanegol er budd preswylwyr. Mae cyfleoedd o'r fath yn cynnwys creu man gwyrdd gyda thaith gerdded ar lan yr afon o flaen Eglwys San Caron a chreu rhandiroedd neu erddi natur ar y safle wrth ymyl y lawnt fowlio.
- 5.8.5. Byddai cyfle a gynigiwyd gan CSC yn cynnwys cwblhau Llwybr Ystwyth, gan gysylltu'r dref â Chors Caron i'r gogledd.

## 5.9 SIR CEREDIGION


- 5.9.1. Dangosodd Pennod 2 fod y trefi arfordirol yn arbennig yn elwa o fod yn agos at 'un o drysorau' SG Ceredigion, sef yr arfordir helaeth gan gynnwys sawl rhan o'r arfordir treftadaeth, traethau, parthau aberol a glannau afon. Mae'r holl asedau SG hyn yn darparu gwerth mawr i drigolion CSC yn ogystal ag ymwelwyr. Mae'r arfordir cyfan wedi'i ddynodi'n ACA. Mae trefi mawr eraill yn elwa o fod yn agos at afon Teifi a hefyd afonydd eraill a ddynodwyd yn ACA, y mae pob un ohonynt hefyd yn cynrychioli asedau SG gwerthfawr. Mae'r asedau SG morol a dŵr croyw hyn yn aml wedi'u cysylltu'n dda gan lwybrau beicio a llwybrau'r arfordir. Lle bo hynny'n bresennol, dylid cefnogi ac annog mwynhad ystyriol o'r safleoedd hyn, ac ar yr un pryd gwarchod yr ardaloedd mwyaf sensitif rhag cael eu haflonyddu. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i wella mynediad i'r rhwydwaith afonydd trwy, er enghraifft, ehangu llwybrau cerdded a beicio glan afon.
- 5.9.2. Gellir gweld datgysylltiad daearyddol posibl rhwng preswylwyr trefol Ceredigion a safleoedd dynodedig tirol y Sir, y mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u lleoli yn y gogledd a'r dwyrain, tra bod ei threfi wedi'u lleoli yn y gorllewin a'r de yn bennaf. Mae'n bwysig manteisio ar gyfleoedd i gysylltu'r asedau

hyn â threfi Ceredigion mewn ffordd sy'n ystyriol o'u gwerth naturiol, megis trwy lwybrau hamdden llinelllog.

- 5.9.3. Roedd Pennod 3 yn argymhell cynyddu'r ddarpariaeth o goetir ac ehangu/adfer corsydd mawn ar draws y Sir er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ymrwymiad i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030 a chefnogi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang.
- 5.9.4. Ar lefel sirol, mae'r cyfleoedd pwysicaf a nodwyd gan randdeiliaid yn ymwneud â lleihau llifogydd (gweler pwyntiau 18 a 19 ar y map lefel Sirol yn Atodiad G.). Yr ardaloedd i'w targedu a nodwyd oedd Beulah, afon Leri yn Nhalybont, afon Aeron uwchlaw Talsarn a Chwm Slaid. Roedd y cyfleoedd yn ymwneud â chreu llwybrau beicio a cherdded newydd hefyd (gweler pwyntiau 10, 13, 21, 22 a 25 ar y map Sirol yn Atodiad G.). Nod y llwybrau a argymhellir yw cysylltu aneddiadau amrywiol ar draws y Sir, gan gynnwys gwella cysylltedd rhwng trefi a'u pentrefi lloeren yn ogystal â rhwng y trefi eu hunain.
- 5.9.5. Gallai harborau gynig cyfle diddorol hefyd. Er nad yw harborau fel arfer yn cael eu hystyried yn asedau SG eu hunain, gallant fod yn ganolbwynt ar gyfer trefi a darparu cyfleoedd i brofi SG megis yr arfordir a'r môr pan fydd gan y cyhoedd fynediad atynt. Gan y gallai harborau'r Sir ddenu cyllid adfywio sylweddol, gall fod cyfle i wella mynediad i bobl fwynhau byd natur yr ardal. Gellid gwella mynediad trwy gael cysylltiad gwell trwy lwybrau beicio a cherdded, ond hefyd trwy ddulliau teithio cynaliadwy eraill megis 'bysiau gwennol y bae'. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i wella asedau SG o fewn ardal yr harborau er mwyn gwneud y lleoedd hyn yn fwy deniadol i bobl ymweld â nhw.

## 5.10 CYFLEOEDD HEB FOD YN OFODOL

- 5.10.1. Arweiniodd y gweithdai i randdeiliaid a'r arolwg ar-lein at nifer fawr o awgrymiadau i wella SG y Sir – o ran creu SG newydd, gwella cynllunio/llywodraethu SG, ac yn arbennig gwella ansawdd a hygyrchedd SG presennol. Er enghraifft, roedd awgrymiadau cyffredin ar gyfer creu SG yn cynnwys cynyddu'r gorchudd coed ar draws y Sir (gan ganolbwyntio ar blannu coed cymunedol) a gwella'r capasiti i gynhyrchu bwyd yn lleol trwy greu rhandiroedd a pherllannau.
- 5.10.2. Crynhoir y cyfleoedd heb fod yn ofodol allweddol a awgrymwyd trwy'r ddau ddigwyddiad a'r arolwg ar-lein yn Ffigur 5.1, wedi'u rhannu yn ôl ffynhonnell.



**Ffigur 5.1: Cyfleoedd heb fod yn ofodol a awgrymwyd gan randdeiliaid**

5.10.3. Cyfle allweddol a gynigiwyd gan CSC yw cynnig mynediad i rannau pellach o'r hen reilffyrdd ar draws y Sir – yn enwedig y rhai sy'n ymestyn i ardaloedd trefol – at ddibenion hamdden a gwella eu gwerth bioamrywiaeth.

## 5.11 CRYNODEB A GOBLYGIADAU

Mae crynodeb byr o'r cyfleoedd hyn ar gyfer y saith tref fel a ganlyn:

- Mae gan Aberystwyth ddarpariaeth dda o asedau SG o'i gymharu â'r trefi eraill ond byddai'n elwa o blannu coed er mwyn gwella ansawdd aer, gwrthsefyll newid hinsawdd, a gwerth esthetig. Nodir darpariaeth well o fannau gwyrdd hygyrch a chysylltedd llwybrau hamdden llinelllog hefyd er budd llesiant a thwristiaeth.
- Byddai Aberaeron yn elwa o ehangu ei rhydwraith o lwybrau beicio i wella cysylltedd y dref. Fel canolbwynt y dref, mae gwella hygyrchedd ac amwynder gweledol ardal yr harbwr trwy ddarpariaeth SG hefyd yn cael ei gydnabod fel cyfle pwysig.
- Mae cysylltedd gwell trwy lwybrau teithio llesol a hamdden yn gyfle pwysig i Aberteifi. Bydd cynyddu gorchudd coed a mannau gwyrdd hygyrch o fudd i lesiant corfforol a meddyliol cyfartal ar draws y dref.

- Byddai Llanbedr Pont Steffan yn elwa o gael rhwydwaith SG mwy hygyrch, wedi'i gryfhau trwy gael mwy o lwybrau hamdden. Byddai cynyddu'r gorchudd coed trefol o fudd i'r dref ei hun, tra byddai cyfran uwch o goetir brodorol yn yr ardal gyfagos yn gwella bioamrywiaeth a gwrthsefyll newid hinsawdd.
- Byddai Adpar yn elwa o gael mwy o fynediad i afon Teifi a'r dref Castellnewydd Emlyn gerllaw trwy lwybrau hamdden. Mae darparu man gwyrdd mwy hygyrch trwy ddatblygu hefyd yn gyfle pwysig.
- Byddai gwerth hamdden asedau SG presennol Llandysul yn cael ei gynyddu trwy gysylltedd gwell ynghyd â llesiant corfforol a meddyliol. Byddai cynyddu gorchudd coed trefol a darparu man gwyrdd hygyrch hefyd o fudd i breswylwyr.
- Bydd cryfhau'r rhwydwaith sylweddol o nodweddion llinellog sydd eisoes yn Nhregaron a chysylltedd â'r dirwedd gyfagos yn cefnogi ei nod o fod yn gyrchfan ar gyfer hamdden awyr agored. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth o asedau SG, megis gorchudd coed a man gwyrdd hygyrch, o fudd pellach i drigolion.

- 5.11.1. Mae rhai o'r cyfleoedd ar raddfa fach a gellid o bosibl eu darparu ar dir y Cyngor neu drwy fân gynigion datblygu tra byddai eraill yn gofyn am integreiddio i ddyraniadau adfywio strategol neu ar raddfa fwy (mae'r olaf yn golygu canolbwyntio ar gysylltedd). Efallai y bydd cyfleoedd eraill yn gofyn am ymgysylltu â thirfeddianwyr preifat megis ffermwyr, yn enwedig ar gyfer gwella cysylltedd rhwng ardaloedd trefol a gwledig trwy HTC newydd, llwybrau beicio a phlannu coed.
- 5.11.2. Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r cyfleoedd a argymhellir, gan ddefnyddio'r rhain i helpu i arwain datblygiad Ceredigion yn y dyfodol – yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Rhoddir blaenoriaeth i greu SG newydd sy'n mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn y ddarpariaeth gwasanaethau SG ac ecosystem, ac sy'n ymestyn ac yn cysylltu'r rhwydwaith presennol. Bydd cyfleoedd eraill sydd wedi'u blaenoriaethu yn ymwneud mwy â gwella ansawdd, hygyrchedd ac ymwybyddiaeth y SG presennol.

## 6 DARPARU SEILWAITH GWYRDD YN YMARFEROL


---

### 6.1 DULL GWEITHREDU

- 6.1.1. Fel y dangoswyd yn y penodau blaenorol, mae SG yn hanfodol ar gyfer sicrhau lleddfu ac addasu i newid hinsawdd ac iechyd a llesiant trigolion Ceredigion. Er mwyn arwain y ffordd y mae trefi Ceredigion yn datblygu yn y dyfodol, mae'r Bennod hon yn trafod nifer o egwyddorion arfer da ar gyfer ymgorffori SG newydd ac wedi'i wella wrth gynllunio lle, uwchgynllunio ac arfarniadau cychwynnol o safleoedd. Mae hefyd yn nodi egwyddorion cyffredinol a gofynion ymarferol cynnal a chadw a rheoli SG yn y tymor hir; yn benodol gweithio i leihau costau parhaus gan ddarparu SG o safon uchel i bobl a byd natur yr un pryd.
- 6.1.2. Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi canllawiau ar SG a'i ddarparu o fewn y system gynllunio, i'w cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020. Disgwylir i'r canllawiau hyn nodi pum egwyddor allweddol SG: Amlswyddogaethol, Bioamrywiol, Wedi'i Addasu ar gyfer Newid Hinsawdd, Iach, Clyfar a Cynaliadwy.
- 6.1.3. Gydag absenoldeb presennol canllawiau penodol i Gymru, mae'r Bennod hon felly wedi'i seilio ar ystod o ffynonellau, gan gynnwys y 'Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Safonau Seilwaith Gwyrdd' sy'n cael ei ddatblygu gan Natural England, y llynyddiaeth academaidd a llwyd, a phrofiad tîm y prosiect ac Awdurdodau Lleol eraill yn y DU. Pan fydd canllawiau Cymru wedi'u cyhoeddi dylent gael blaenoriaeth.

### 6.2 YMGORFFORI SG WRTH GYNLLUNIO A DATBLYGU


- 6.2.1. Er mwyn ymgorffori SG yn llwyddiannus mewn penderfyniadau cynllunio a datblygu, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn datblygu 'fframwaith' SG cyffredin sy'n benodol i'w hardal waeth ar ba gam y maent arno gyda'u Cynllun Bro a'u dyraniadau strategol. Dylai'r fframwaith hwn nodi rhai egwyddorion cyffredin ar gyfer cyflawni SG da, ynghyd â dyheadau lleol o ran sut y dylid cyflawni'r rhain, ac amcanion mwy penodol sy'n seiliedig ar le. Dylai hefyd gynnwys argymhelliad bod SG yn cael ei ystyried cyn gynted â phosibl yn y cylchoedd paratoi cynlluniau, uwchgynllunio a rheoli datblygu.
- 6.2.2. Yn hytrach na bod yn dasg feichus, dylid ystyried y fframwaith yn fan cychwyn defnyddiol a phwysig ar gyfer CSC, yn sail i'r holl benderfyniadau cynllunio eraill sy'n berthnasol i SG (gweler Ffigur 6.1).



**Ffigur 6.1: Y broses arfaethedig ar gyfer ymgorffori SG wrth gynllunio a datblygu**

Sefydlu fframwaith SG

6.2.3. Mae'r broses fesul cam a nodwyd yn Ffigur 6.2 isod wedi'u cynnig i arwain CSC (ac awdurdodau lleol eraill y DU) trwy ddatblygiad fframwaith SG. Mae canllawiau ychwanegol ar bob un o'r camau hyn yn dilyn.



**Ffigur 6.2: Dull gweithredu arfaethedig ar gyfer datblygu Fframwaith SG cyffredin**

#### 6.2.4. Cam 1: Dull gweithredu SG

Ystyried eich dull gweithredu cyfredol o gynllunio a rheoli SG (o ran tir ym mherchnogaeth y Cyngor a thir arall yn y Sir), a chysondeb eich gweithredoedd trwy ofyn y cwestiynau canlynol i'ch hun:

- Pa randdeiliaid ydych chi'n eu cynnwys wrth ddatblygu polisi SG, a sut?
- I ba raddau y mae'ch SG wedi'i ddylunio a'i reoli ar gyfer bod yn amlswyddogaethol?
- Sut mae eich SG yn cael ei reoli a'i gynnal dros y tymor byr a'r tymor hir?
- Sut ydych chi'n penderfynu pa SG i'w ariannu, a sut ydych chi'n darparu adnoddau ar gyfer hyn?
- Ydych chi'n monitro maint neu ansawdd eich SG, ac os felly, sut?
- Ydych chi'n cysylltu SG i gydweddu â'r rhwydwaith strategol ehangach?
- Ydych chi'n clymu cynllunio SG ag amcanion strategol eraill, megis adfer byd natur neu amcanion tirwedd?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod SG newydd wedi'i ddylunio'n dda ac yn cydweddu â'r dirwedd/treflun lleol?
- Ydych chi'n gwybod pa wasanaethau ecosystem y mae'ch SG yn eu darparu?
- Sut ydych chi'n nodi ac yn sicrhau bod eich SG yn darparu buddion niferus?
- Ydych chi'n ymwybodol o synergeddau a chyfaddawdau wrth ddarparu gwasanaethau ecosystem gan SG, a sut i reoli'r rhain er mantais i chi?
- Ydych chi'n gwybod ble mae gennych chi fylchau yn y ddarpariaeth SG?
- Ydych chi'n gwybod beth yw anghenion a dewisiadau cymunedau lleol o ran SG?
- Sut ydych chi'n cyfrif am yr anghenion a'r dewisiadau hyn wrth wella ansawdd ac ymarferoldeb SG presennol a newydd?
- Beth ydych chi'n ei wneud ynghylch anghydraddoldebau ac annhegwch darpariaeth ac ansawdd SG?
- Ydych chi'n gwybod ble i dargedu SG i helpu i gyflawni'r canlyniadau iechyd gorau?
- Ydy'ch SG yn annog ffyrdd o fyw mwy actif?
- Ydych chi'n ceisio creu amgylcheddau sy'n helpu pobl i gynnal a gwella iechyd meddwl da? Sut mae cynllunio a dylunio SG yn cyd-fynd â hyn?
- Ydych chi'n dylunio SG er mwyn rheoli peryglon amgylcheddol megis ansawdd aer neu faterion lleol megis diogelwch ar y ffyrdd?
- Ydych chi'n defnyddio SG ar gyfer gwella bioamrywiaeth?
- Ydych chi'n ceisio creu rhwydweithiau o SG a fydd yn helpu adferiad natur?
- I ba raddau ydych chi'n defnyddio SG fel datrysiad sy'n seiliedig ar natur i liniaru newid hinsawdd ac addasu i newid hinsawdd?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n defnyddio SG i gyfrannu at greu lleoedd yn lleol a chreu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt?
- Ydych chi'n defnyddio neu'n annog defnyddio SG i wneud datblygu (yn fwy) derbyniol i gymunedau?
- Ydych chi'n targedu'r ardaloedd hynny lle gall SG gyfrannu at adfywio cymunedau presennol neu wneud lleoedd llai deniadol yn lleoedd sy'n fwy deniadol i'w buddsoddi ynddynt?
- Ydych chi'n ymwybodol o werth eich SG (e.e. mewn termau ariannol), a sut y gellir gwella hyn?

#### 6.2.5. **Cam 2: Anghenion lleol**

Nodi unrhyw faterion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yn ardal eich awdurdod lleol y gellid rhoi sylw iddynt trwy greu a/neu wella SG. Efallai y bydd hyn yn golygu cynnal trafodaethau ar draws adrannau awdurdodau lleol, ac adolygu data gofodol a heb fod yn ofodol perthnasol ar lefel lleol (er enghraifft, gan gynnwys y mapiau anghenion a gyflwynir yn Atodiad E yr adroddiad hwn).

#### 6.2.6. **Cam 3: Cysylltiadau polisi**

Gwneud cysylltiadau â pholisi a mentrau perthnasol presennol yn eich awdurdod lleol (ac yng Nghymru yn fwy cyffredinol). Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- Polisiâu CDLI LU24, DM04 neu DM11 (yn ymwneud â manau agored, teithio cynaliadwy a newid hinsawdd);
- Dogfennau Cynllunio Atodol a dogfennau eraill a gynhyrchwyd eisoes yng Ngheredigion, megis y Strategaeth Tlodi, Cynlluniau Trafnidiaeth, Cynlluniau Bro, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Cynllun Adfer Natur;<sup>86</sup> ac
- Egwyddorion cynllunio PPW10 (e.e. ar hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach).

Dylai dogfennau cyhoeddiedig sy'n arbennig o berthnasol i SG (megis y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Cynllun Adfer Natur) ddod o dan y fframwaith cyffredinol hwn, oherwydd byddant yn cyfrannu at ddarparu SG ar draws y Sir.

#### 6.2.7. **Cam 4: Amcanion yn seiliedig ar le**

Ystyried beth yw'r materion/gwasanaethau ecosystem pwysicaf i'w rhoi sylw iddynt (e.e. newid hinsawdd, iechyd pobl neu fioamrywiaeth), a nodi'r lleoedd a'r cymunedau hynny sydd angen buddion SG fwyaf. Yna gosod amcanion yn seiliedig ar le i gyflawni gwelliannau yn y lleoedd lle byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw adnoddau eisoes yn brin oherwydd gall gynorthwyo wrth dargedu a blaenoriaethu adnoddau ac ymyriadau. Gall targedu ardaloedd yn strategol i wneud y mwyaf o'r buddion a ddarperir gan SG hefyd gryfhau'r achos dros fuddsoddi.

#### 6.2.8. **Cam 5: Safonau lleol**

Ystyried gosod safonau ansoddol neu rifiadol ar gyfer darpariaeth SG, yn enwedig trwy ddatblygiadau newydd. Er enghraifft, Safonau Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch CNC neu'r safonau Adeiladu gyda Natur (gweler Adran 7.3 i gael mwy o fanylion am safonau SG).<sup>87</sup>

##### Polisi cynllunio

6.2.9. Yn dilyn ymlaen o'r fframwaith SG cyffredin, dylid datblygu polisi sy'n berthnasol i SG i'w gynnwys yn y Cynllun Bro. Mae Pennod 7 yr adroddiad hwn yn adolygu detholiad o bolisiâu rheoli datblygu presennol Ceredigion ar sail eu cynnwys a'u cryfder o ran SG, ac yn darparu argymhellion ar gyfer gwelliannau yn seiliedig ar bolisiâu arfer da a nodwyd mewn cynlluniau bro mewn manau eraill.

<sup>86</sup> Cyngor Sir Ceredigion (2019). Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019-29. Ar gael yn: <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coast-countryside/public-rights-of-way/rights-of-way-improvement-plan/>; Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gwynedd (2015). Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015. Ar gael yn: <https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/mid-wales-joint-local-transport-plan/>

<sup>87</sup> Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2011). The Greenspace Toolkit: A Practical Guide to Assessing the Resource and Implementing Local Standards for Accessible Natural Greenspace Provision in Welsh towns and cities; Building with Nature (2019) Building with Nature User Guide Version 1.4.



- 6.2.10. Er bod polisi SG penodol yn cael ei argymhell, mae'n bwysig bod egwyddorion SG da yn cael eu hymgorffori yn y CDLI yn ei gyfanrwydd – yn enwedig o fewn polisiau craidd cyffredin a'r rhai sy'n ymwneud â newid hinsawdd ac iechyd a llesiant. Gallai polisi cynllunio ymrwymo ymhellach at ymgorffori SG ym mhob cynllun seilwaith llwyd (e.e. priffyrdd ac adfywio trefol).

#### Gweithio gyda datblygwyr

- 6.2.11. Mae cydweithredu â datblygwyr yn gallu cyfrannu at ddarparu SG newydd yn y Sir. Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni SG a gynigir trwy ddatblygiad ac y bydd yn parhau i fod yn 'dda' am byth, dylai fod angen i ddatblygwyr ddarparu manylion am ariannu, rheoli a chynnal a chadw yn y tymor hir cyn y gellir cymeradwyo ceisiadau. Yn benodol, dylai datblygwyr ddangos bod unrhyw daliadau gwasanaeth sydd i'w gosod ar ddarpar breswylwyr yn realistig (ddim yn rhy isel, gan sicrhau digon o arian ar gyfer cynnal a chadw, nac yn rhy uchel, gan atal grwpiau economaidd-gymdeithasol is rhag cael eu prisio allan o'r ardal), a bod unrhyw ddiffyg mewn cyllid (e.e. i dalu am waith adnewyddu/uwchraddio) yn cael ei fodloni trwy 'gronfa ad-dalu' y telir amdani ymlaen llaw gan y datblygwr.
- 6.2.12. Ar gyfer datblygiadau strategol ar raddfa fawr, argymhellir penodi prif gynllunwyr allanol sydd â gwybodaeth am wasanaethau ecosystem a bennir yn eu briff. Ar gyfer datblygiadau ar unrhyw raddfa, bydd rhoi profforma i ddatblygwyr ei gwblhau fel rhan o'u cais cynllunio sy'n dangos sut y maent wedi cynnwys SG (amlswyddogaethol) yn eu dyluniadau yn sicrhau bod SG a gwasanaethau ecosystem yn cael eu hystyried yn gynnar. Mae profforma enghreifftiol (a ddefnyddir gan Gyngor Dosbarth Teignbridge yng Nghernyw) i'w wneud yn Atodiad H. Fel y nodwyd uchod, gallai CSC hefyd gyflwyno safonau SG gwirfoddol a/neu orfodol ar gyfer datblygiadau yng Ngheredigion yn y dyfodol.
- 7.5.13. Yn olaf, mae Stiwardiaeth yn cael sylw cymysg hefyd, gydag ychydig iawn o gyfeiriad a chyfeiriad gwan yn unig at gynnal buddion SG (maen prawf Y) neu eu cyllido (maen prawf Z). Er enghraifft, mae polisi DM22 yn nodi, "Lle gallai datblygu effeithio'n sylweddol ar y gwasanaethau neu'r prosesau [ecosystem] hyn, bydd gofyn cynnwys Cynllun Rheoli i sicrhau y bydd gwaith lliniaru, gwneud iawn ac adfer i sefydlu cyflwr a gwneud welliannau yn llwyddiannus", tra bo polisi yn DM20 yn nodi, "Gall y Cyngor gefnogi cynlluniau plannu coed priodol mewn partneriaeth â chymunedau lleol a thirfeddianwyr." Rhoddir mwy o sylw a chryfder i ddogfennaeth a chytundeb cynlluniau rheoli tymor hir (maen prawf X) sy'n cael sylw mewn llawer o bolisiau. Er enghraifft, mae DM15 yn nodi "Bydd yn rhaid i ddatblygiad gynnwys cynllun rheoli lle bo angen rheolaeth benodol arno i sicrhau y bydd y mesurau osgoi, lliniaru, gwneud iawn a/neu welliannau yn llwyddiannus", ac at hynny y dylai'r cynlluniau rheoli'n "dangos sut y caiff y ffactorau hyn eu rheoli dros gyfnod o amser y cytunir arno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol".

### Crynodeb o'r Polisiau DM

- 7.5.14. O ran y polisiau rheoli datblygu yn benodol, mae DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel yn rhoi sylw cyfyngedig ar draws yr elfennau dylunio SG, ac eithrio'r Amgylchedd Ffisegol a Stiwardiaeth. Fodd bynnag, ceir rhai cyfeiriadau penodol at SG ond mae geiriad y polisi hwn yn wan e.e. "Dylai datblygiad... cadw nodweddion naturiol pwysig... ac achub ar gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol".
- 7.5.15. Mae DM10 (Dylunio a Thirweddu) yn rhoi *rywfaint* o sylw ar draws yr holl elfennau dylunio SG ac eithrio Rhwydweithiau Mynediad. Mae elfennau cryfach y polisi yn ymwneud â'r amrywiaeth o wahanol fathau, swyddogaethau a buddion SG y cyfeirir atynt, e.e. coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr, Systemau Draenio Cynaliadwy, manau agored, enillion bioamrywiaeth, llifogydd dŵr arwyneb ac estheteg. Fodd bynnag, mae llawer o'r geiriad ar gyfer y polisi hwn yn wan, e.e. "Gall tirweddu fodloni sawl un o ofynion y CDLI... *Gallai hefyd helpu o safbwynt rhoi Systemau Draenio Cynaliadwy ar waith a darparu manau agored*".

---

<sup>108</sup> Sylwch, fodd bynnag, fod polisi DM04 'Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol' (na ofynnwyd i'w gynnwys yn yr adolygiad) yn nodi "Dylid cyflawni hyn trwy ddarparu cysylltiadau â llwybrau sydd eisoes yn bodoli o ddatblygiad newydd, adnewyddu seilwaith nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach... ", lle mae seilwaith o'r fath yn cynnwys llinellau a seidins rheilffordd presennol/blaenorol/nas defnyddir mwyach, hawliau tramwy cyhoeddus, a chyfnewidfeudd trafniadaeth.

- 7.5.16. Mae DM11: Dylunio ar gyfer Newid Hinsawdd yn syndod o dawel ar bron pob un o'r elfennau dylunio SG, er ei fod yn cyfeirio at PPW, TAN12 a TAN15 sy'n cynnwys "gofynion ac argymhellion" ychwanegol. Yr unig destun perthnasol (er iddo gael ei eirio'n wan) yw: "... mae angen ystyried egwyddorion dylunio lleol pellach. Er enghraifft, mae cyfle i ragori ar *ofynion* cyfredol y Cod Cartrefi Cynaliadwy, er nad yw hynny'n yn rheidrwydd, neu i gynnwys nodweddion dylunio nad ydynt yn rhan o'r Cod. *Gallai* hyn, *er enghraifft*, gynnwys toeau â bargod neu gaeadau ar ffenestri i ganiatáu mwy o gysgod." Mae sôn am y seilwaith gwyrdd megis coed yn absennol, sy'n rhyfedd.
- 7.5.17. Nid yw Polisi DM12: Seilwaith Cyfleustodau yn cynnwys testun sy'n berthnasol i unrhyw un o'r elfennau dylunio SG – ei nod yn syml yw "gwneud cyn lleied ag sy'n bosib o ddifrif i'r amgylchedd a pheidio â tharfu arno".
- 7.5.18. Er bod angen Systemau Draenio Cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd trwy Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, nid yw DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy yn trafod buddion gwanhau dŵr storm Systemau Draenio Cynaliadwy, ac nid yw'n cydnabod bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn ased SG amlswyddogaethol a all hefyd ddarparu buddion esthetig, amwynder a bioamrywiaeth. Agwedd gryfaf y polisi hwn yw maen prawf X: "*bydd* y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y systemau hyn yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw naill ai drwy gytundebau Adran 106 neu at y dyfodol o bosibl drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol".
- 7.5.19. Polisi DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol, yn ôl y disgwyl, yw'r cryfaf ar yr elfennau dylunio SG Bioamrywiaeth, gan ganiatáu datblygiad "lle mae'n gwarchod a, *lle mae'n bosibl, yn gwella* bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a chysylltedd ecolegol ledled Ceredigion, gan gynnwys safleoedd lleol a rhywogaethau a chynefinoedd sydd â blaenoriaeth yn lleol"- er bod gwella bioamrywiaeth yn cael ei nodi fel rhywbeth buddiol yn hytrach na gofyniad. Dyma un o'r ychydig bolisiau i grybwyll yn benodol ystyried effeithiau oddi ar y safle ac effeithiau anuniongyrchol (maen prawf H). Ymhellach, rhoddir sylw i faen prawf U: "dylai datblygu ymgorffori addysg parthed cadwraeth natur a mynediad, cyhyd â bod modd diogelu cyfanrwydd ecolegol neu ddaearogol y safle".
- 7.5.20. Mae elfennau dylunio SG bioamrywiaeth hefyd yn cael sylw rhesymol trwy bolisi DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol. Yr agwedd gryfaf yw "Caniateir datblygu lle: 2. Mae gwelliannau wedi eu hymgorffori yn y datblygiad trwy dirweddu a dylunio da ar adeiladau ar gyfer rhywogaethau, cynefinoedd a bywyd gwyllt ar ffurf coridorau/cerrig sarn neu, lle bo hynny'n briodol, gwneir hynny oddi ar y safle". Er bod cynlluniau rheoli i'w cynhyrchu a'u cytuno gyda'r awdurdod lleol, dim ond "lle bo angen rheolaeth benodol [ar y datblygiad] i sicrhau y bydd y mesurau osgoi, lliniaru, gwneud iawn ac/neu welliannau yn llwyddiannus".
- 7.5.21. Mae Polisi DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd yn rhoi sylw gyda geiriad cryf mewn perthynas â gofynion ar gyfer gwella bioamrywiaeth (maen prawf K), gan ychwanegu "Dylid ceisio gwneud iawn a gwelliannau yn y lle cyntaf yn agos at yr ardal lle ceir colled, gan sicrhau hynny drwy amod cynllunio neu gytundebau Adran 106 ". Cyfeirir yn aml hefyd at y buddion amlswyddogaeth y mae coed, gwrychoedd a choetiroedd yn eu darparu, er bod y geiriad yn wan o ran gwella'r rhain. Dyma'r unig bolisi sy'n annog ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid (maen prawf E).
- 7.5.22. DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol yw'r cryfaf o'r polisiau rheoli datblygu o ran gwerthuso buddion SG ar y safle ac oddi arno (meini prawf H ac I), gan nodi "caniateir datblygu arfaethedig yn amodol ar... mabwysiadir dull camu'n ddoeth er mwyn sicrhau na fydd yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar brosesau naturiol a gwasanaethau ecosystem, ar y safle ac oddi arno, a,

Ile bo hynny'n bosibl, bydd yn ceisio adfer, sicrhau amgylchiadau ffafriol neu wella unrhyw nodweddion cysylltiol". Mae hefyd yn rhoi peth sylw i lawer o'r elfennau dylunio SG eraill, er bod y geiriad yn aml yn wan, e.e. "*Ile bo hynny'n bosibl*, bydd yn ceisio adfer", "yn gallu *helpu*", "*efallai fod* mesurau cadwraeth", ac "*efallai hefyd y bydd* achosion lle gallai gwaith adfer i sefydlu cyflwr neu wneud gwelliannau *ddigwydd*".

- 7.5.23. Yn olaf, mae Polisi DM23: Rheoli'r Arfordir yn rhoi rhywfaint o sylw i nifer o'r meini prawf asesu, ond yn gyffredinol mae'n cyfeirio at warchod yr amgylchedd (h.y. lleihau effeithiau) yn hytrach na gwella buddion (y dylai arfordir fod â llawer ohonynt), ac unwaith eto, mae'r geiriad yn wan yn aml. Ei agweddau cryfaf yw darparu/cynnal a chadw mynediad cyhoeddus i'r arfordir (maen prawf P) a darparu cyfleusterau ar gyfer adloniant a hamdden 'Ile bo hynny'n briodol' (er nad yw'n glir a fyddai'r olaf yn gyfleusterau naturiol neu wedi'u creu gan ddyn). Cyfeirir hefyd at y Cynllun Rheoli Traethlin sy'n "nodi'r materion arfordirol penodol sy'n bodoli ac yn ceisio dynodi opsiynau cynaliadwy o ran rheoli'r arfordir, ac ystyried dylanwadau ac anghenion yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd dynol ac adeiledig."

## 7.6 CRYNODEB A GOBLYGIADAU

- 7.6.1. Mae PPW10 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol at SG, gan warchod a gwella'r defnydd ac amlswyddogaeth o asedau sy'n bodoli. Yn y cyfamser mae CNC yn annog awdurdodau lleol i greu SG newydd (o'r math cywir, yn y manau iawn) ac i reoli SG presennol (i'r safon orau bosibl) er mwyn cadw eu dinasyddion yn iach; bydd bodloni meini prawf Safonau Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch a Gwobr y Faner Werdd yn helpu gyda'r broses hon.
- 7.6.2. Fodd bynnag, gyda CDLI Ceredigion 2007-2022 yn rhagflaenu deddfwriaeth, polisi a chanllawiau ar SG yng Nghymru, nid yw'n syndod bod cysyniadau 'seilwaith gwyrdd' ac 'amlswyddogaeth' yn absennol o'r polisiâu rheoli datblygu mabwysiedig. O ganlyniad, mae nifer o gyfleoedd i'r CDLI 2 sy'n cael ei ddatblygu, yn enwedig o ran polisiâu ar dirweddu (DM10) newid hinsawdd (DM11), Systemau Draenio Cynaliadwy (DM13) a rheoli'r arfordir (DM23) a fyddai'n elwa o gyfeiriadau penodol at wella'r ddarpariaeth cyfalaf naturiol a gwasanaethau ecosystem. Byddai polisiâu sy'n ceisio gwarchod a gwella gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem (DM14, DM15 a DM20) yn elwa o eiriad cryfach sy'n gofyn am welliant cyffredinol (y gellir ei fesur yn wrthrychol yn ddelfrydol), yn ogystal â gofyniad i gysylltu â SG ehangach, cynefin a rhwydweithiau mynediad cyhoeddus.
- 7.6.3. Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, a'r polisiâu arfer gorau a nodwyd o bob rhan o'r DU, argymhellir bod polisiâu CDLI2 sy'n cael ei ddatblygu ac yn gysylltiedig â rheoli datblygu yn ymrwymo tirlfeddianwyr a datblygwyr i warchod a gwella SG ar eu safleoedd lle bynnag y bo modd, ac i gysylltu hyn â'r SG o'u cwmpas er mwyn gwella cysylltedd ehangach ar gyfer pobl a bywyd gwylt. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a PPW10 yn rhoi pwys sylweddol ar fioamrywiaeth a SG; bydd angen i CDLI 2 adlewyrchu'r amlygrwydd hwn. Yn ogystal, dylai'r CDLI 2 sy'n cael ei ddatblygu ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar SG y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020.
- 7.6.4. Mae argymhellion mwy penodol i'w cynnwys mewn polisiâu rheoli datblygu CDLI yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr:
- Trafod â CSC yn y cam cyn ymgeisio pa fath o SG a swyddogaethau SG (gwasanaethau ecosystem) a allai fod yn briodol ar gyfer y safle;

- Nodi trwy brofforma SG a gyflwynir gyda'u cais cynllunio sut mae SG (a gwasanaethau ecosystem) yn cael ei ystyried wrth ddylunio'r cynllun, a sut y bydd yn cael ei gynnal a'i ariannu yn y dyfodol;
- Gwarchod SG presennol ar y safle lle bynnag y bo modd;
- Gwella amlswyddogaeth unrhyw nodweddion draenio cynaliadwy gofynnol (gan ganolbwyntio'n benodol ar fioamrywiaeth, esthetig, a chysylltiad â buddion natur);
- Gwella bioamrywiaeth ar y safle, a chysylltu lle bo modd ag ardaloedd ecolegol craidd, coridorau llinelllog neu gerrig sarn y tu hwnt i ffin y safle;
- Sicrhau bod llwybrau hamdden ar y safle yn cysylltu â'r rhwydwaith HTC ehangach ac unrhyw lwybrau teithio llesol;
- Bodloni safonau penodol ar gyfer ansawdd a maint y ddarpariaeth SG ar y safle, e.e. yn ymwneud â hydreddedd (gan ddefnyddio'r Ffactor Man Gwyrdd); neu lesiant, dŵr a bywyd gwyllt (gan ddefnyddio Adeiladu gyda Natur); ac
- Ariannu prosiectau creu/gwella SG mewn mannau eraill os na allant wneud hynny ar y safle.

7.6.5. Argymhellir cynnwys polisi SG penodol hefyd ar gyfer CDLI2 Ceredigion sy'n cael ei ddatblygu. Yn ogystal â chyfeirio at y pwyntiau cysylltiedig â datblygu uchod, dylai hyn nodi egwyddorion arfer da ar gyfer cynllunio SG yn fwy cyffredinol (gan dynnu ar unrhyw fframwaith SG y gall CSC ei gynhyrchu). Er enghraifft, gallai polisi SG Ceredigion gynnwys pwyntiau ar:

- Hyrwyddo SG trwy brosesau cydweithredol a chyfranogol (o fewn y Cyngor, ac yn allanol gyda rhanddeiliaid preifat, dinesig a chymunedol);
- Gwella cysylltedd o fewn ac ar draws ardaloedd trefol a gwledig ar gyfer pobl a bywyd gwyllt;
- Datblygu safonau SG y gellir eu monitro a'u gwerthuso yn erbyn dangosyddion mesuradwy;
- Gwella amrywiaeth ac amlswyddogaeth SG, er mwyn gwella'r modd y darperir cyfres o wasanaethau ecosystem;<sup>109</sup>
- Gwella maint, ansawdd, hygyrchedd ac ymwybyddiaeth asedau SG; a
- Monitro, meintoli ac o bosibl moneteiddio buddion asedau SG i helpu i gyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol ac i'w cynnwys mewn asesiadau a chyfrifon cyfalaf naturiol posibl.

---

<sup>109</sup> Gellir meintoli ac asesu gwasanaethau ecosystem trwy ddefnyddio ystod o offer, er enghraifft Econmetric Natural England neu'r Natural Capital Planning Tool.




# Atodiad A

## MAP DYNODIADAU SIROL



# Atodiad B

**MAPIAU ASED AU SG TREFI**



# Atodiad C

**ARDALOEDD A MAPIAU  
CYNEFINOEDD CAM 1 TREFI**



Mae'r cynefinoedd cyffredinol a drafodir yn adran 2.5 yn cael eu rhannu i'r teipolegau cynefin Cam 1 canlynol:

- Coetiroedd yn cynnwys codau JNCC A.1.1.1, A.1.1.2, A.1.2.2, A.1.3.2, A.2.1, A.4.1 ac A.4.2.
- Glaswelltir yn cynnwys codau JNCC B.1.1, B.1.2, B.2.2, B.4 a B.5.
- Perlaysiau a rhedyn uchel yn cynnwys codau JNCC C.1.1, C.3.1 ac C.3.2.
- Rhostir yn cynnwys codau JNCC D1.1, D.2 a D.5.
- Migenni yn cynnwys codau JNCC E.1.6.1, E.1.6.2, E.1.2, E.1.7, E.2.1, E.2.2, E.3, E.3.1 ac E.3.1.1.
- Gwernydd yn cynnwys codau JNCC F.1 a F.2.2.
- Cynefinoedd dŵr agored yn cynnwys codau JNCC G.1 ac G.2.
- Cynefinoedd arfordirol yn cynnwys codau JNCC H.1.1, H.1.2, H.1.3, H.2.6, H.3.1, H.3.2, H.4, H.6.5, H.6.7, H.6.8, H.8.1, H.8.2, H.8.4 a H.8.5.
- Creigiau a gwastraff yn cynnwys codau JNCC I.1.1.1, I.1.2.1, I.1.4.1, I.2.1, I.2.2 ac I.2.4.
- Tir ffermio cod JNCC J.1.1 yn unig.
- Glaswelltir amwynder cod JNCC J.1.2 yn unig.
- Cynefinoedd trefol yn cynnwys codau JNCC J.1.3, J.1.4, J.3.4, J.3.6 a J.4.
- Gwrychoedd cod JNCC J.2.1 yn unig.

Nid yw'r codau H.3.2, J.1.5 a J.3.7 yn cael eu defnyddio fel rhan o fethodoleg arolwg cynefinoedd Cam 1 JNCC, ac felly nid ydynt wedi'u henwi yn y tabl.

**Tabl C.1: Ardal (ha) o fathau o gynefinoedd Cam 1 ym mhob tref (gan gynnwys llain glustogi 2km)**

Math o gynefin Cam 1		Aberystwyth	Aberaeron	Aberteifi	Llanbedr Pont Steffan	Adpar	Llandysul	Tregaron	CYFANSWM
A.1.1.1	Coetir lled-naturiol llydanddail	179.6	77.8	168.8	55.9	183.5	157.9	55.3	<b>878.8</b>
A.1.1.2	Coetir planhigfa llydanddail	5.4	1.3	3.6	34.5	1.6	2.5	1.1	<b>49.9</b>
A.1.2.2	Coetir planhigfa conwydd	69.1	38.3	25.9	102.7	40.6	16.5	19.5	<b>312.5</b>
A.1.3.2	Coetir planhigfa cymysg	20.4	5.9	10.8	25.5	7.1	24.8	0.9	<b>95.5</b>
A.2.1	Prysgwydd trwchus	47.7	27.2	64.4	11.4	31.4	27.0	12.0	<b>221.2</b>
A.4.1	Coetir llydanddail a gwypwyd yn ddiweddar		1.0			0.5			<b>1.4</b>


Math o gynefin Cam 1		Aberystwyth	Aberaeron	Aberteifi	Llanbedr Pont Steffan	Adpar	Llandysul	Tregaron	CYFANSWM
A.4.2	Coetir conwydd a gwypwyd yn ddiweddar			1.5	9.3		0.4		11.2
B.1.1	Glaswelltir asid heb ei wella	6.9	4.2	0.1			0.5	3.6	15.3
B.1.2	Glaswelltir asid wedi'i led-wella	3.8		0.6	0.8		4.0	16.0	25.1
B.2.2	Glaswelltir wedi'i led-wella niwtral	69.7	30.1	95.7	63.6	72.0	59.8	17.7	408.6
B.4	Glaswelltir wedi'i wella	1,805	977.4	1,797	1,817	1,190	1,673	1,527	10,786
B.5	Glaswelltir corsiog	12.5	1.8	25.7	31.5	8.5	18.4	88.1	186.5
C.1.1	Rhedyn parhaus	32.9	10.2	18.7	4.8	11.1	18.7	22.3	118.7
C.3.1	Perlysiâu a rhedyn tal arall – cynefinol	2.5	1.4	0.5	1.8	3.1	0.1	1.2	10.7
C.3.2	Perlysiâu a rhedyn tal arall – heb fod yn gynefinol		<0.1	<0.1					0.1
D.1.1	Rhostir corlwynni sych asid	9.9		<0.1					10.0
D.2	Rhostir corlwynni gwlyb		0.3					0.4	0.7
D.5	Mosaig rhostir sych/glaswelltir asid	15.2							15.2
E.1.6.1	Cors Sphagnum – Cor-gors			<0.1					<0.1
E.1.6.2	Cors Sphagnum – Cyforgors							85.5	85.5
E.1.7	Cors wedi'i haddasu wlyb							28.4	28.4
E.2.1	Blaguriad asid/niwtral							0.4	0.4
E.2.2	Blaguriad sylfaenol			0.1					0.1
E.3	Mign			0.1					0.1
E.3.1	Mign			0.9				0.2	1.0
E.3.1.1	Mign							7.5	7.5
F.1	Gwern	1.9		29.4	2.1	0.2		4.1	37.7
F.2.2	Llystyfiant dilyw	2.0		2.1	1.5	0.1		0.3	6.0
G.1	Merddwr	0.6	0.1	3.3	3.2	1.0	1.1	1.3	10.5

Math o gynefin Cam 1		Aberystwyth	Aberaeron	Aberteifi	Llanbedr Pont Steffan	Adpar	Llandysul	Tregaron	CYFANSWM
G.2	Dŵr rhedegog	23.4	6.4	91.3	21.3	28.4	25.6	18.1	<b>214.4</b>
H.1.1	Rhynglanwol – Llaid/tywod	3.7		51.9					<b>55.6</b>
H.1.2	Rhynglanwol – Cerrig mân/coblau	17.5	65.5	7.0					<b>90.0</b>
H.1.3	Rhynglanwol – Clogfeini/creigiau	24.9	2.0	0.3					<b>27.1</b>
H.2.6	Morfa heli drwchus	1.2		26.2					<b>27.4</b>
H.3.1	Arfordir – cerrig mân uwchben marc y penllanw	0.9		3.2					<b>4.1</b>
H.3.2	Anhysbys	9.7	3.6	1.8					<b>15.2</b>
H.4	Clogfeini/creigiau uwchben marc y penllanw	0.2	2.4	0.2					<b>2.8</b>
H.6.5	Twyni tywod – Glaswelltir twyni			5.4					<b>5.4</b>
H.6.7	Twyni tywod – Prysgwydd twyni			25.2					<b>25.2</b>
H.6.8	Twyni tywod – Twyni agored	4.1		4.7					<b>8.8</b>
H.8.1	Clogwyn caled	7.5	2.7						<b>10.2</b>
H.8.2	Clogwyn meddal	0.1	1.4	1.3					<b>2.9</b>
H.8.4	Glaswelltir arfordirol	5.3	0.2						<b>5.5</b>
H.8.5	Rhostir arfordirol	1.1							<b>1.1</b>
I.1.1.1	Clogwyn mewndirol asid/niwtral		0.1		0.3				<b>0.4</b>
I.1.2.1	Sgri asid/niwtral	1.4							<b>1.4</b>
I.1.4.1	Asid/niwtral agwedd arall	0.2			<0.1		0.1		<b>0.3</b>
I.2.1	Chwarel	1.0	0.3	19.5		0.7	0.1	2.1	<b>23.7</b>
I.2.2	Rwbel			1.5	0.2			0.8	<b>2.5</b>
I.2.4	Tomen sbwriel	6.1						0.3	<b>6.4</b>
J.1.1	Tir âr	9.8	25.7	114.4	15.1	30.7	33.5	7.3	<b>236.5</b>
J.1.2	Glaswelltir amwynder	101.1	9.2	42.6	14.0	14.0	11.9	6.1	<b>199.0</b>

Math o gynefin Cam 1		Aberystwyth	Aberaeron	Aberteifi	Llanbedr Pont Steffan	Adpar	Llandysul	Tregaron	CYFANSWM
J.1.3	Planhigion lluosflwydd byr undydd	0.2	0.2	0.3		0.2			1.0
J.1.4	Prysglwyni wedi'u cyflwyno	0.4			0.3				0.6
J.1.5	Anhysbys	23.8	0.7	15.4	6.5	6.4	2.4	2.5	57.7
J.2.1	Gwrych cyflawn (km)	88.1	50.6	75.4	136.8	27.5	61.8	9.4	449.6
J.3.4	Safle carafanau	36.6	15.4	0.2			1.0		53.2
J.3.6	Adeiladau	315.0	94.9	184.6	128.5	95.0	85.9	46.1	949.9
J.3.7	Anhysbys	2.3	0.5	3.6	6.4	0.8	2.7	3.7	19.9
J.4	Tir moel	8.6		7.2	1.8	0.5	2.5	0.3	20.8
NA	Dim mynediad i'r safle ar gyfer yr arolwg	9.8	10.8	10.9	7.6	6.7	6.9	0.7	21.3
<b>CYFANSWM YR ARDAL WEDI'I MAPIO</b>		<b>2,901</b>	<b>1,419</b>	<b>2,868</b>	<b>2,367</b>	<b>1,734</b>	<b>2,178</b>	<b>1,980</b>	<b>15,415</b>

# Atodiad D

**MAPIAU CYSYLLTEDD AR GYFER  
BYWYD GWYLLT**





Mae'r mapiau cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt yn cynnwys yr haenau canlynol:

- Asedau Ecolegol Craidd:
  - Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
  - Gwarchodfeydd Natur Lleol;
  - Cynefinoedd â blaenoriaeth sy'n cynnwys y mathau o gynefinoedd Cam 1 canlynol:
    - A.1.1.1 Coetir lled-naturiol llydanddail
    - B.1.1 Glaswelltir asid heb ei wella
    - B.1.2 Glaswelltir asid wedi'i led-wella
    - D.1.1 Rhostir corlwynni sych asid
    - D.2 Rhostir corlwynni gwlyb
    - D.5 Mosaig rhostir sych/glaswelltir asid
    - E.1.6.1 Cors Sphagnum – Cor-gors
    - E.1.6.2 Cors Sphagnum – Cyforgors
    - E.1.7 Cors wedi'i haddasu wlyb
    - E.3 Mign
    - E.3.1 Mign
    - E.3.1.1 Mign
    - F.1 Gwern
    - G.1 Merddwr
    - H.1.1 Rhynglanwol – Lloid/tywod
    - H.1.2 Rhynglanwol – Cerrig mân/coblau
    - H.1.3 Rhynglanwol – Clogfeini/creigiau
    - H.2.6 Morfa heli drwchus
    - H.3.1 Arfordir – cerrig mân uwchben marc y penllanw
    - H.6.5 Twyni tywod – Glaswelltir twyni
    - H.6.7 Twyni tywod – Prys-gwydd twyni
    - H.6.8 Twyni tywod – Twyni agored
    - H.8.1 Clogwyn caled
    - H.8.2 Clogwyn meddal
    - H.8.5 Rhostir arfordirol
    - I.1.1.1 Clogwyn mewndirol asid/niwtral
    - I.1.2.1 Sgri asid/niwtral.




- Coridorau Llinelllog:
  - J.2.1 Gwrych cyflawn;
  - Cyrsiau dŵr; a
  - Gorchudd coed trefol.
  
- Cerrig Sarn:
  - Safleoedd sy'n bodloni meini prawf SINC (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur);
  - Mannau Gwyrdd Arolwg Ordnans – y gellir cael mynediad atynt; a
  - Mynwentydd.

# Atodiad E

**MAPIAU ANGHENION**

**GWASANAETHAU ECOSYSTEM**




Cynhyrchwyd mapiau anghenion ar gyfer pob un o'r saith tref (ynghyd â'r lleiniau clustogi) ar gyfer y gwasanaethau ecosystem canlynol:

- Ansawdd aer – mae hwn yn dangos lefel gyfartalog ( $\mu\text{g}/\text{m}^3$ ) y llygredd aer cefndir ar gyfer pob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio, yn seiliedig ar allyriadau blynyddol o ddeunydd gronynnol ( $\text{PM}_{10}$ ) Defra yn 2016;
- Lleihau llifogydd – mae hwn yn dangos cyfran o bob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio sydd mewn perygl o lifogydd dŵr arwyneb yn dilyn digwyddiad 1 ym mhob 100 mlynedd (gan ddefnyddio data CNC);
- Hamdden – mae hyn yn dangos cyfran o bob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio sydd wedi'u gorchuddio gan asedau SG ffisegol (y rhai sy'n hygyrch ar gyfer hamdden, ond heb gynnwys asedau llinelllog megis HTC/llwybrau beicio gan na ellid cynnwys yr olaf yn y dadansoddiad seiliedig ar ardal);
- Iechyd a Llesiant – mae hwn yn dangos lefel yr amddifadedd iechyd (ar raddfa o 1 = mwyaf difreintiedig i 10 = lleiaf difreintiedig) ar gyfer pob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio yn seiliedig ar barth Iechyd a Llesiant Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru; a
- Lefel y gorchudd coed a choetir – mae hyn yn dangos cyfran o bob sgwâr grid 1km yn yr ardaloedd astudio sydd wedi'i gorchuddio gan lystyfiant tal, coediog (h.y. coed, gwrychoedd a choetiroedd) – un o nifer o fesurau posibl o harddwch esthetig.

# Atodiad F

**AROLWG AR-LEIN**





Mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu llunio Asesiad Seilwaith Gwyrdd ac rydym yn awyddus i roi cyfle i chwi gael dweud eich dweud.

Mae Seilwaith Gwyrdd (SG) yn golygu rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled naturiol mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys nid yn unig y mannau agored arferol megis parciau a chaeau chwarae, ond hefyd nodweddion fel coed ar ochr strydoedd, llwybrau cyhoeddus ac afonydd. Mae SG yn cynnig nifer fawr o fanteision i drigolion Ceredigion, gan gynnwys cyfleoedd i fwynhau natur a gweithgareddau hamdden, yn ogystal â lleihau risg llifogydd, gwella ansawdd aer a dŵr, a thynnu carbon ymaith o'r atmosffer.

Bydd ein asesiad SG yn cynnwys saith tref yn y Sir:

- Aberystwyth
- Aberaeron
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan
- Adpar
- Llandysul
- Tregaron

Fodd bynnag, buasem yn hoffi cael rhagor o wybodaeth ynghylch y modd yr ydych yn defnyddio mannau gwyrdd, a pha mor bwysig yw'r mannau hyn i chi, waeth ble 'rydych yn byw yng Ngheredigion.

1. Ble 'rydych yn byw?

- Aberystwyth
- Aberaeron
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan
- Adpar (neu Gastell Newydd Emlyn gerllaw)
- Llandysul
- Tregaron
- Tu allan i Geredigion
- Rywle arall yng Ngheredigion – nodwch ble

2. Pa fannau gwyrdd ydych yn eu defnyddio yn awr a pha mor aml y byddwch yn eu defnyddio?

Dewiswch y rhai perthnasol

	Bob dydd	Mwy nag unwaith yr wythnos	Unwaith yr wythnos	Mwy nag unwaith y mis	Unwaith y mis	Llai nag unwaith y mis	Llai nag unwaith mewn blwyddyn	Byth
Llwybrau lleol								
Llwybr Arfordir Cymru								
Llwybrau eraill a hyrwyddir gan Gyngor Ceredigion neu sefydliad megis yr RSPB								
Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol								
Parciau a gerddi cyhoeddus megis Parc Coffa Llandysul neu Gae Sgwâr Aberaeron								
Maes chwaraeon neu gae chwarae								
Mannau chwarae i blant								
Rhandir								
Ardaloedd neu fannau gwyrdd eraill yn lleol								
Coedydd / fforestydd								

	Bob dydd	Mwy nag unwaith yr wythnos	Unwaith yr wythnos	Mwy nag unwaith y mis	Unwaith y mis	Llai nag unwaith y mis	Llai nag unwaith mewn blwyddyn	Byth
Traeth								
Afon								
Llyn								
Cefn gwlad agored								
Gwarchodfa natur								
Arall								

Arall – byddwch cystal â'i nodi

3. I ba bwrpas y byddwch yn defnyddio mannau gwyrdd? Dewiswch y rhai perthnasol

- Cerdded y ci
- Teithio i'r gwaith
- Mynediad at wasanaethau
- Hamdden
- Cyfarfod ffrindiau
- Cadw'n ffit / er lles eich iechyd
- Ymlacio
- Gwyllo bywyd gwylt
- Arall – byddwch cystal â'i nodi

4. Ym mha dref y byddwch chi'n mwynhau adnoddau hamdden / mannau agored?

5. Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydy mannau gwyrdd yn eich tref o ran y canlynol:

	1 (ddim yn bwysig)	2	3	4	5 (pwysig iawn)
Ymarfer a iechyd corfforol					
Ymlacio a lles meddyliol					
Harddwch eich tref					
Dod â phobl at ei gilydd					
Ansawdd bywyd yn eich cymuned					



	1 (ddim yn bwysig)	2	3	4	5 (pwysig iawn)
Eu cyfraniad tuag at y tirwedd a'r golygfeydd o gwmpas					
Diogelu bywyd gwylt lleol					
Gwrthsefyll newid hinsawdd (lleihau allyriadau carbon)					
Addasu i newid hinsawdd (lleihau perygl llifogydd a darparu cysgod)					
Lleihau llygredd aer, sŵn a dŵr					

6. A fydddech yn hoffi gwneud mwy o ddefnydd o fannau gwyrdd lleol?

- Byddwn
- Na fyddwn

7. Beth sydd yn rhwystro i chi wneud mwy o ddefnydd o fannau gwyrdd? Ticiwch y rhesymau perthnasol

- Ni allaf gael mynediad i'r mannau yr hoffwn eu defnyddio – nid ydynt yn agored i'r cyhoedd
- Ni allaf gyrraedd yno
- 'Does gen i ddim digon o amser
- 'Does dim digon o fannau gwyrdd yn agos at fy nghartref
- 'Dyw'r mannau gwyrdd yn fy ardal i ddim yn addas/ddim yn neis
- Arall – byddwch cystal â'i nodi

8. Oes yna unrhyw welliannau yr hoffech eu gweld i'ch mannau gwyrdd lleol?

- Nac oes
- Oes – byddwch cystal â'u nodi

9. Oes gennych chi unrhyw sylw neu awgrym ynghylch mannau gwyrdd yng Ngheredigion yn gyffredinol?

- Nac oes
- Oes – byddwch cystal â'u nodi

10. A fuasech yn fodlon ateb rhai cwestiynau ychwanegol amdanoch eich hunan?

- Byddwn
- Na fyddwn

11. Beth yw eich grŵp oedran?

- dan 16
- 16-24
- 25-44
- 45-64
- 65+
- Gwell gennyf beidio â dweud

12. Beth yw eich rhyw?

- Gwryw
- Benyw
- Arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

13. Ydy'ch rhyw yn awr yr un fath â'r un a ddyrannwyd I chi ar eich genedigaeth?

- Ydy
- Na
- Gwell gennyf beidio â dweud

14. Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?

- Heterorywiol/ Strêt
- Dyn Hoyw
- Merch Hoyw /Lesbiad
- Deurywiol
- Gwell gennyf beidio â dweud

15. Beth yw eich statws partneriaeth?

- Sengl
- Priod
- Byw gyda Phartner
- Wedi Ysgaru
- Gweddw
- Partner Sifil
- Wedi Gwahanu
- Arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

16. Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

- Cymro/Cymraes
- Sais/ Saesnes
- Albanwr/ Albanes
- Gwyddel/ Gwyddeles
- Gwell gennyf beidio â dweud

17. Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau

- Gwyn
- Asiaidd
- Du/ Affricanaidd/ Caribïaidd
- Teithwyr Sipsi
- Gwell gennyf beidio â dweud

18. Beth yw eich dewis iaith?

- Cymraeg
- Saesneg
- Gwell gennyf beidio â dweud

19. Ydych chi'n deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r uchod
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Mwy nag un o'r uchod, (nodwch os gwelwch yn dda)

20. A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?

- Oes
- Nac Oes
- Gwell gennyf beidio â dweud

21. Os ydych wedi ateb 'oes', nodwch yr hyn sy'n berthnasol i chi:

- Nam ar y Clyw
- Nam ar y Golwg
- Nam Lleferydd
- Anableddau Dysgu
- Materion Iechyd Meddwl
- Nam Corfforol/ Symudedd
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Ddim yn berthnasol

22. Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd: Cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu Problemau yn ymwneud â henaint

- Ydyw
- Nac Ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud




23. Beth yw eich crefydd?

- Cristion (pob enwad)
- Bwdhydd
- Hindŵ
- Mwslim
- Sikh
- Iddew
- Anffyddiwr
- Dim crefydd
- Gwell gennyf beidio â dweud
- Arall

# Atodiad G

**CYFLEOEDD GOFODOL A MAPIAU YN  
DEILLIO O RANDDEILIAID**



**Tabl G1: Cyfleoedd gofodol-benodol a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy i randdeiliaid ar gyfer Aberaeron**

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
1	Diogelu mannau gwyrdd ym mherchnogaeth y Cyngor rhwng yr ysgol a'r môr	2	Diogelu SG sy'n bodoli	Aberaeron
11	Ymestyn llwybr beicio Llanerchaeron i Lanbedr Pont Steffan (ac yna i Dregaron i gysylltu â Llwybr Ystwyth)	1	Llwybrau beicio newydd	Aberaeron
12	Adeiladu llwybr beicio yn syth o Aberaeron i Aberystwyth	1	Llwybrau beicio newydd	Aberaeron
13	Llogi, benthycu a gwefru beiciau trydan	1	Mentrau gwyrdd eraill	Aberaeron
15	Potensial ar gyfer defnyddiau eraill gan gynnwys plannu coetir, mynediad cyhoeddus a rhandiroedd ar fferm ym mherchnogaeth y Cyngor Sir	1	Plannu coed/Cyflwyno mannau gwyrdd newydd	Aberaeron
16	Eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron (y tu allan i'r ffin ond ased naturiol a diwylliannol pwysig)	1	Hyrwyddo ymwybyddiaeth o SG a'r defnydd ohono	Aberaeron
20	Ymestyn y llwybr beicio o Llanerchaeron i Giliau Aeron neu ysgol newydd yn y dyfodol	1	Llwybrau beicio newydd	Aberaeron
22	Potensial i ymestyn y llwybr beicio i'r de-orllewin	1	Llwybrau beicio newydd	Aberaeron

**Tabl G2: Cyfleoedd gofodol-benodol a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy i randdeiliaid ar gyfer Aberystwyth**

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
1	Potensial i'r coed greu coridor rhwng dwy GNLI	2	Plannu coed	Aberystwyth
3	Potensial i gysylltu'r llwybr troed a'r tir Mynediad Agored	1	Llwybrau cerdded newydd	Aberystwyth
4	Potensial i greu mwy o wrychoedd, coedwigoedd bach ac ati, i wella cysylltedd cynefinoedd	1	Plannu coed	Aberystwyth
5	Lleoliad posibl ar gyfer pont	1	Llwybrau cerdded newydd	Aberystwyth
7	Potensial ar gyfer creu cynefin halennog i leihau llifogydd arfordirol	1	Lleihau llifogydd/ gwella bioamrywiaeth	Aberystwyth
8	Potensial ar gyfer bws gwennol trydan ar gyfer cerddwyr llwybr yr arfordir rhwng Llanrhystud ac Aberystwyth	1	Mentrau gwyrdd eraill	Aberystwyth
9	Potensial ar gyfer llwybr(au) beicio newydd sy'n cysylltu Penrhynoch, Bow Street, Capel Dewi â chanol tref Aber	4	Llwybrau beicio newydd	Aberystwyth
11	Potensial ar gyfer system drafnidiaeth gyhoeddus drydanol a rhad ac am ddim	2	Mentrau gwyrdd eraill	Aberystwyth
13	Mae coed stryd yn rhan bwysig o SG mewn amgylchedd trefol	1	Plannu coed	Aberystwyth
19	Crib Tanybwllch yn ansefydlog gan roi llwybr yr arfordir a HTC arall mewn perygl. Potensial i wella mynediad (creu bwnd y tu ôl i'r grib efallai er mwyn caniatáu llifogydd) a chreu llwybr cylchol sy'n cyd-fynd yr un pryd ag ailalinio a reolir	1	Llwybrau cerdded newydd	Aberystwyth
20	Yr angen i amddiffyn rhag llifogydd – y gymuned fwyaf sydd mewn perygl difrifol o lifogydd arfordirol	1	Lleihau llifogydd	Aberystwyth
21	Potensial ar gyfer llwybr beicio wrth ochr yr A44 i annog ymweliadau â Bwlch Nant yr Arian ac i gysylltu â'r llwybr i orsaf drenau Bow Street	1	Llwybrau beicio newydd	Aberystwyth
23	Potensial i gysylltu'r manau gwyrdd amrywiol o fewn trefi i hyrwyddo bioamrywiaeth	1	Gwella bioamrywiaeth	Aberystwyth
26	Potensial i laswelltir gael ei ddynodi ar gyfer plannu coed neu ynni adnewyddadwy	1	Plannu coed	Aberystwyth
26	Potensial ar gyfer llwybr beicio o Lwybr Ystwyth i Benparcau ac yna i lawr Bryn Pen-y-Bont i Lwybr Rheidol	1	Llwybrau beicio newydd	Aberystwyth



Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
27	Cyfle i weithio gyda Phrifysgol Aberystwyth i wella coridor yr afon trwy blannu coed ar hyd y ffin ddeheuol	1	Plannu coed	Aberystwyth
29	Potensial ar gyfer mesurau Rheoli Llifogydd Rhanbarthol cyn i afon Rheidol basio ystâd ddiwydiannol Glanyrafon i leihau'r perygl o lifogydd	2	Lleihau llifogydd	Aberystwyth
30	Cyfle i annog mynediad tuag at Goed y Cwm trwy gael wyneb well ar hyd y llwybr troed	1	Gwella cynnal a chadw a mynediad	Aberystwyth
31	Cyfle i adeiladu pont droed ar draws y glyn rhwng Ffordd Brynmor ac Allt-y-Clogwyn i greu llwybr parhaus o Graig-las i Barc Natur Penglais a thu hwnt	1	Llwybrau cerdded newydd	Aberystwyth
32	Ystyried mwy o gynlluniau pŵer ynni dŵr	1	Menter werdd arall	Aberystwyth
34	Potensial i wella bioamrywiaeth trwy gynnal a chadw glan afon Parc-y-Llyn, gan gynnwys rheolaeth bellach ar ffromlys yr Himalaya a rheoli pyllau	1	Gwella bioamrywiaeth	Aberystwyth
36	Potensial i wella bioamrywiaeth trwy reoli Plascrug, gan gynnwys ardaloedd o laswelltir sydd wedi'i dorri'n llai agos a gwella'r ardal coed gwern i'r de-orllewin o'r llwybrau wrth ymyl y maes chwarae.	1	Gwella bioamrywiaeth	Aberystwyth
38	Ystyried plannu coed amwynder ar dir ym mherchnogaeth y Cyngor ger Ffordd Bryn y Mor	1	Plannu coed	Aberystwyth

**Tabl G3: Cyfleoedd gofodol-benodol a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy i randdeiliaid ar gyfer Adpar**

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
7	Potensial i ddefnyddio dull creu lleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl gyda dyluniad y safle yn cael ei wneud ar sail SG. Fel arall, gellid defnyddio gwrthbwysio ariannol i fuddsoddi mewn SG mewn man arall	1	Cyflwyno manau gwyrdd newydd	Adpar

**Tabl G4: Cyfleoedd gofodol-benodol a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy i randdeiliaid ar gyfer Aberteifi**

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
2	Priffyrdd wrthi'n gwneud gwaith dylunio/dichonoldeb ar gyfer troedffordd ar hyd Ffordd Llandudoch. Mae llwybr yr arfordir yn gyswllt cyfredol, ond mae angen llwybr diogel, uniongyrchol arall arno	1	Llwybrau cerdded newydd	Aberteifi
3	Angen palmant a/neu lwybr beicio o Ffordd Caemorgan (cyffordd Sand and Gravel) i gwblhau'r palmant o Aberteifi i Flaenannerch	1	Llwybrau cerdded newydd/Llwybrau beicio newydd	Aberteifi
7	Potensial i ymestyn y palmant rhwng canol y dref a Pharc Teifi i gysylltu trigolion Llangoedmor/Llechryd â chanol y dref	1	Llwybrau cerdded newydd	Aberteifi
8	Angen Llwybr Teithio Llesol	1	Llwybrau cerdded newydd/Llwybrau beicio newydd	Aberteifi
9	Ni ddylid datblygu'r tir hwn i gyfyngu ar y dŵr sy'n llifo i mewn i afon Mwdan a lleihau llifogydd yn Llyn y Felin, Maesycoed a Felinban. Dylid ailadeiladu'r bont yn Llyn y Felin (cyf adroddiad WS Atkins).	1	Lleihau llifogydd	Aberteifi
12	Angen parhau â Chynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd CNC (gyda CSC a Dŵr Cymru)	1	Lleihau llifogydd	Aberteifi
13	Potensial i greu llwybr amlwrpas newydd ar ochr ddeheuol llwybr Llandudoch (y tu ôl i dai a gerddi) yn lle ceisio ailagor HTC glan afon	1	Llwybrau cerdded newydd/Llwybrau beicio newydd	Aberteifi

**Tabl G5: Cyfleoedd gofodol-benodol a awgrymwyd gan gyfranogwyr gweithdy i randdeiliaid ar gyfer Llanbedr Pont Steffan**

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
1	Potensial i droi hen reilffordd yn llwybr beicio sy'n cysylltu â'r arfordir gan ymuno â phen deheuol NCN822	1	Llwybrau beicio newydd	Llanbedr Pont Steffan
2	Potensial ar gyfer taith gerdded coridor yr afon	2	Llwybrau cerdded newydd	Llanbedr Pont Steffan
4	Potensial ar gyfer mwy o gysylltiadau â Long Wood	1	Llwybrau cerdded newydd	Llanbedr Pont Steffan
6	Potensial i gysylltu Llwybr Ystwyth rhwng Llanbedr Pont Steffan â Thregaron (llwybr beicio)	1	Llwybrau beicio newydd	Llanbedr Pont Steffan
8	Trawsnewid Tref Llanbedr Pont Steffan yn gweithio ar lwybr beicio i'r gogledd o Lanbedr Pont Steffan ar yr hen reilffordd	1	Llwybrau beicio newydd	Llanbedr Pont Steffan
9	Potensial ar gyfer coetir cymunedol newydd yn yr ardal hon	1	Plannu coed	Llanbedr Pont Steffan
13	Potensial i wella bioamrywiaeth a mwynhad y cyhoedd trwy ddod â Phwll yr Hen Chwarel i berchnogaeth gyhoeddus (cyfleoedd cadwraeth ar gyfer y planhigyn prin <i>Rosippa islandica</i> )	1	Gwelliannau bioamrywiaeth	Llanbedr Pont Steffan
14	Potensial i wella mynediad i Goedwig Olwen o'r dref a'i gydnabod fel Man Gwyrdd Hygyrch	1	Llwybrau cerdded newydd	Llanbedr Pont Steffan
15	Potensial i gysylltu llwybr o'r gogledd i'r de o'r dref trwy'r rheilffordd (yn dibynnu ar gyllid) a gwella'r coridor gwyrdd	1	Llwybrau cerdded newydd/Llwybrau beicio newydd	Llanbedr Pont Steffan
17	Ymestyn oriau agor caeau chwarae'r brifysgol a gwella mynediad i gerddwyr cŵn	1	Gwella cynnal a chadw a mynediad	Llanbedr Pont Steffan
19	Potensial i gynyddu ymwybyddiaeth trwy gael arwyddion sy'n hyrwyddo teithiau cerdded o gwmpas y dref a mannau gwyrdd cysylltiedig, tiroedd y coleg, ac ati	1	Hyrwyddo ymwybyddiaeth o SG a'r defnydd ohono	Llanbedr Pont Steffan
20	Potensial i wella cysylltedd tirwedd trwy gysylltu coetir a choed ar hyd y coridor afon	3	Plannu coed	Llanbedr Pont Steffan
22	Potensial ar gyfer gwella golwg a lleihau'r perygl o lifogydd trwy reoli gwlypdiroedd (plannu helyg a choetir, creu gwrychoedd)	1	Lleihau llifogydd/gwella bioamrywiaeth	Llanbedr Pont Steffan

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
23	Cyfleoedd i reoli glaswelltir er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd a gwella bioamrywiaeth	1	Lleihau llifogydd/gwella bioamrywiaeth	Llanbedr Pont Steffan
24	Potensial i wella caeau chwarae ysgolion trwy welliannau bioamrywiaeth a mwy o fynediad i gerddwyr cŵn	2	Gwella bioamrywiaeth	Llanbedr Pont Steffan
25	Datblygu a hyrwyddo llwybrau cerdded gan ddefnyddio HTC presennol trwy arwyddion/deunyddiau ar-lein. Potensial i agor neu osod wyneb ar rannau o lwybrau.	1	Gwella cynnal a chadw a mynediad	Llanbedr Pont Steffan
26	Cyfle i wella bioamrywiaeth mewn parciau a mannau gwyrdd yn y dref (mannau blodau gwyllt, gan adael ardaloedd o laswellt heb eu torri ar hyd gwrychoedd yn ystod y tymor blodeuo, plannu coed – ffrwythau a rhywogaethau brodorol.)	1	Gwelliannau bioamrywiaeth	Llanbedr Pont Steffan
27	Potensial i ymestyn y cysylltiad o Lanbedr Pont Steffan i lawr tuag at Aberaeron	1	Llwybrau beicio newydd	Llanbedr Pont Steffan
28	Potensial i wella draeniad dŵr wyneb Stryd y Farchnad trwy blannu coed newydd gydag ardal hamdden (cais am arian ar gyfer hyn ar y gweill gan CSC ar hyn o bryd)	1	Plannu coed/Lleihau llifogydd	Llanbedr Pont Steffan
29	Defnyddio 'penrhynau' palmentydd i blannu coed pêl-wreiddyn bach i ddarparu cysgod a gwyrddni gan ymgorffori seddi mawr eu hangen mewn planwyr	1	Plannu coed	Llanbedr Pont Steffan
30	Potensial i greu HTC rhwng yr ystâd newydd Cwrt Dulas a lôn y clwb rygbi trwy daith gerdded newydd ar lan yr afon gyda chyfle i gysylltu â'r cais cynllunio sy'n bodoli ar gyfer ystâd tai	1	Llwybrau cerdded newydd	Llanbedr Pont Steffan
32	Potensial ar gyfer gwella bioamrywiaeth ar gae heb ei reoli i'r de o'r hen gwrdd tennis ar lan orllewinol Dulas gyda chyfle i gysylltu â phrosiect tirweddu parc y Brifysgol. Cynigiwyd y cynigion presennol yn 2008 gan CCGC/EA, Ymddiriedolaeth Prifysgol ac Afonydd	1	Gwelliannau bioamrywiaeth	Llanbedr Pont Steffan
33	Potensial ar gyfer plannu ar raddfa fawr yn Sgwâr Harford gan ymgorffori coed pêl-wreiddyn bach ac ardaloedd eistedd	1	Plannu coed	Llanbedr Pont Steffan
34	Potensial i greu gorchudd coed trefol a lle eistedd yn fforch Heol Maestir er budd twristiaeth a hamdden	1	Plannu coed	Llanbedr Pont Steffan

**Tabl G6: Cyfleoedd gofodol-benodol a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy i randdeiliaid ar gyfer Llandysul**

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
3	Lleoliad posib (o dan y llinell drydan) ar gyfer pwynt gwefru cerbydau trydan a swyddfa/garej ar gyfer trafndiaeth gymunedol Dolen Teifi	1	Mentrau gwyrdd eraill	Llandysul
4	Mae angen gatiâu hunan-gau yn hytrach na chamfeydd ar y bont droed newydd sy'n rhan o Lwybr Teifi	1	Gwella cynnal a chadw a mynediad	Llandysul
5	Parc agored gyda choed fel amwynder i drigolion lleol (Parc yr Ynn a The Beeches)	1	Plannu coed/Cyflwyno mannau gwyrdd newydd	Llandysul
6	Safle posibl ar gyfer rhandiroedd	1	Cyflwyno mannau gwyrdd newydd	Llandysul
7	Cyfle i gael system wresogi gwyrdd ar gyfer y ganolfan hamdden	1	Mentrau gwyrdd eraill	Llandysul
10	Deddfu cynllun mynediad presennol ar gyfer 2 bont droed ar draws afon Teifi – un o'r caeau chwarae i dir Paddlers, yr ail o lwybr y ceunant i'r maes parcio hanner lleuad – i greu taith gerdded gylchol. Efallai y bydd angen adnewyddu caniatâd cynllunio.	2	Llwybrau cerdded newydd	Llandysul
11	Potensial ar gyfer prosiect reoli clymog Japan o dan bont y ffordd, ceunant Llandysul (mewn cydweithrediad ag Adfywio Llandysul a Paddlers)	1	Gwella bioamrywiaeth	Llandysul
13	Cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau llwybr troed ar hyd afon Teifi a chael cysylltiadau â theithiau cerdded tref a chylchol	1	Llwybrau cerdded newydd	Llandysul
14	Cyfleoedd i gysylltu plannu coetir â thirwedd ehangach ar hyd coridorau afonydd	2	Plannu coed	Llandysul
18	Cyfle i agor mynediad i'r gorllewin ar hyd afon Teifi o'r llwybr ceffylau presennol	1	Llwybrau cerdded newydd	Llandysul
19	Cyfle i wella arwyddion Coel Foel i/o Landysul	1	Hyrwyddo ymwybyddiaeth o SG a'r defnydd ohono	Llandysul
20	Potensial ar gyfer prosiect i reoli clymog Japan ar hyd yr afon	1	Gwella bioamrywiaeth	Llandysul

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
21	Gwella'r cysylltiad rhwng ardaloedd uchaf y pentref a'r brif ganolfan trwy ail-wynebu ac o bosibl uwchraddio i lwybr beicio	1	Gwella cynnal a chadw a mynediad	Llandysul
22	Potensial ar gyfer plannu coed amwynder ar hyd rhannau o'r briffordd a gynhelir gan y Cyngor	1	Plannu coed	Llandysul
23	Potensial ar gyfer plannu coed amwynder ar hyd ffordd Llyn y Fran	1	Plannu coed	Llandysul
24	Potensial ar gyfer plannu coed amwynder a rheoli coetir ar rannau o dir cyhoeddus	1	Plannu coed	Llandysul

**Tabl G7: Cyfleoedd gofodol-benodol a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy i randdeiliaid ar gyfer Tregaron**

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
1	Angen cyswllt o Lwybr Ystwyth (yn gorffen yng Nghors Caron) i ganol y dref, llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar hyn o bryd ond ar y ffordd ac yn beryglus	3	Llwybrau beicio newydd	Tregaron
4	Cyfle ar gyfer llwybr beicio i Lanbedr Pont Steffan yn dilyn yr hen reilffordd	1	Llwybrau beicio newydd	Tregaron
5	Potensial ar gyfer plannu coed a man gwyrdd yn Nhregaron	1	Plannu coed	Tregaron
6	Potensial i ymestyn y llwybr beicio	1	Llwybrau beicio newydd	Tregaron
9	Yr angen i'r llwybr beicio ymestyn i ganol Tregaron	1	Llwybrau beicio newydd	Tregaron
10	Potensial ar gyfer gwella bioamrywiaeth a thaith gerdded ar lan yr afon y tu ôl i'r garej	1	Llwybrau cerdded newydd/Gwella bioamrywiaeth	Tregaron
11	Prosiect posibl i wella cae asedau llifogydd ym mherchnogaeth CNC at ddefnydd y cyhoedd a bioamrywiaeth, wedi'i gysylltu â thaith gerdded ar lan yr afon (10). Cynllun drafft wedi'i baratoi yn 2012 gan CNC, Shared Earth Trust a'r Cyngor Tref	1	Gwella bioamrywiaeth	Tregaron
14	Manteision iechyd a llesiant ac economaidd posibl trwy gynyddu cysylltedd â safle RAMSAR Cors Caron	1	Gwella bioamrywiaeth	Tregaron
15	Cyfleoedd ar gyfer dull cymeriad tirwedd ehangach trwy gynefinoedd glaswelltir gwlyb a dolydd llifogydd sy'n cysylltu Cors Carol a Thregaron	2	Gwella bioamrywiaeth	Tregaron
17	Cyfleoedd i gysylltu coetir ar hyd afonydd a chaeau	1	Plannu coed	Tregaron
18	Mae gan y Cyngor ddiddordeb ym maes chwarae yr hen ysgol gynradd	1	Cyflwyno mannau gwyrdd newydd	Tregaron
19	Ffermwyr yn gwrthod mynediad i Hawl Tramwy	1	Gwella cynnal a chadw a mynediad	Tregaron
20	Cyfleoedd ar gyfer teithiau cerdded cylchol a llwybrau sy'n cysylltu gwlypdiroedd/coetiroedd/hen reilffordd i'r dref, gan osgoi rhannau o'r ffyrdd	4	Llwybrau cerdded newydd	Tregaron
23	Tirfeddiannwr newydd yn gwrthod mynediad i i'r Hawl Tramwy	2	Gwella cynnal a chadw a mynediad	Tregaron




**Tabl G8: Cyfleoedd gofodol-benodol a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy i randdeiliaid ar gyfer Sir Ceredigion gyfan**

Cyf Map	Sylwadau	Nifer yr ymatebwyr	Math o gyfle	Anheddiad
3	Potensial ar gyfer cysylltu coedwig GNLI Penglais a Choed y Cwm	1	Plannu coed	Sir
6	Potensial ar gyfer gwelliannau cynefinoedd priodol i gysylltu'r safleoedd hyn	1	Gwella bioamrywiaeth	Sir
10	Potensial ar gyfer llwybr beicio cylchol sy'n cysylltu Aberystwyth, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan a Thregaron	1	Llwybrau beicio newydd	Sir
13	Angen cyffredinol am lwybrau troed i gysylltu pentrefi (Eglwys Fach, Ffwrnais, ac ati)	1	Llwybrau cerdded newydd	Sir
14	Potensial i greu morglawdd ar draws y bae i gynhyrchu trydan ac amddiffyn y dref rhag tonnau	1	Mentrau gwyrdd eraill	Sir
15	Angen am fwy o bwytiau gwefru trydan ar gyfer ceir, o bosibl yn holl swyddfeydd y Cyngor i gychwyn [pwynt yn dangos lleoliad man gwefru sy'n bodoli].	1	Mentrau gwyrdd eraill	Sir
18	Mae angen cynllun amddiffyn rhag llifogydd ar afonydd Beulan a Leri yn Nhalybont yn ogystal â gwaith yn Cwm Slaid i atal llifogydd i lawr llethr serth	3	Lleihau llifogydd	Sir
19	Mae angen gwneud gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn Afon Aeron uwchben Talsarn	1	Lleihau llifogydd	Sir
20	Cyfleoedd i wella cysylltiadau coetir llydanddail ar hyd Cwm Rheidol hyd at Elenydd	1	Plannu coed	Sir
21	Cyfleoedd i wella cysylltiadau cerdded a beicio ag ystâd Hafod a rhwng y Rheidol a'r Ystwyth	1	Llwybrau cerdded newydd/Llwybrau beicio newydd	Sir
22	Cyfleoedd i gysylltu pentrefi ar hyd Ystrad Aeron rhwng Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron â choridorau seilwaith gwyrdd	2	Llwybrau cerdded newydd/Llwybrau beicio newydd	Sir
25	Cyfle i greu llwybr beicio newydd rhwng Aberystwyth a Bow Street, cysylltu â gorsaf parcio a theithio newydd ac osgoi'r ffordd beryglus rhwng Waunfawr a'r bont reilffordd	1	Llwybrau beicio newydd	Sir
28	Y llwybr wedi'i gau ers storm dros flwyddyn yn ôl oherwydd bod coed wedi cwmpo ar draws y llwybr o Dynberllan i Benlan	1	Gwella cynnal a chadw a mynediad	Sir

# Atodiad H

**PROFFORMA SG ENGHREIFFTIOL**



Defnyddir y canlynol gan ddatblygwyr i egluro sut y maent wedi ystyried SG a darpariaeth gwasanaeth ecosystem yn y broses ddylunio.

**Tabl I1: Profforma SG i'w gwblhau gan ddatblygwyr yn Teignbridge**

	ROLAU A BUDDION	ESBONIAD
<b>Amgylcheddol</b>	<p>Bioamrywiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mwy o helaethrwydd ac amrywiaeth</li> </ul> <p>Tirwedd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cryfhau cymeriad ac ansawdd</li> </ul> <p>Treflun</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwella atyniad ac ymdeimlad o le</li> </ul>	
<b>Newid hinsawdd</b>	<p>Perygl o Lifogydd ac Adnoddau Dŵr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwella rheoli llifogydd, ansawdd dŵr a storio dŵr</li> </ul> <p>Ynni Adnewyddadwy</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ffynhonnell(ffynonellau) ynni adnewyddadwy</li> </ul> <p>Bwyd Lleol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynhyrchu mwy o fwydydd lleol</li> </ul> <p>Trafnidiaeth Gynaliadwy</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Darpariaeth well ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus, gan gynnwys cysylltedd ac integreiddio gwell</li> </ul> <p>Rheoli Gwastraff</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Lefelau uchel o gompostio ar y safle</li> </ul> <p>Ynysoedd Gwres</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cymedroli microhinsoddau</li> </ul>	
<b>Llesiant</b>	<p>Iechyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Iechyd meddwl a chorfforol gwell</li> </ul> <p>Ansawdd Aer</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ansawdd aer gwell</li> </ul> <p>Troseddau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwylidwriaeth naturiol i leihau lefel ac ofn troseddau</li> </ul>	

	<p>Cymunedau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Creu cymunedau cryf, bywiog a chynhwysol gyda 'balchder dinesig'</li> </ul> <p>Diwylliant</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cysylltiadau gwell â'r gorffennol a chreu asedau ar gyfer y dyfodol</li> </ul> <p>Addysg</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyfleoedd gwell ar gyfer astudio ac addysg</li> </ul>	
<p><b>Adfywio</b></p>	<p>Economi Ffyniannus</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ansawdd amgylcheddol gwell a chysylltedd gwell ardaloedd cyflogaeth</li> </ul> <p>Tirweddau Cynhyrchiol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Harneisio potensial ein hadnoddau naturiol yn unol â therfynau amgylcheddol</li> </ul> <p>Twristiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynnig twristiaeth well ac estynedig</li> </ul>	



Mountbatten House  
Basing View  
Basingstoke, Hampshire  
RG21 4HJ

**wsp.com**